# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO | GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 28 MEDI 2022 am 1:00 y prynhawn | WEDNESDAY, 28 SEPTEMBER, 2022 at 1:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | COMMITTEE ROOM 1 AND VIRTUALLY VIA ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Neville Evans, Dyfed Wyn Jones, Euryn Morris ***(Diprwy Gadeirydd),*** Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Dafydd Roberts

**LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Liz Wood

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans ***(Cadeirydd),*** William Parry, Sharon Warnes, Michael Wilson

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf, 2022.

**3 ADRODDIAD BLYNYDDOL: PRYDERON A CHWYNION 2021/22** (Tudalennau 11 - 20)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

**4 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU: LLYTHYR BLYNYDDOL 2021/22** (Tudalennau 21 - 34)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

**5 ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL 2021/22** (Tudalennau 35 - 56)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Datblygu Economaidd a Rheoleiddio.

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD 2021/22** (Tudalennau 57 - 74)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**7 ADOLYGIAD RHEOLI'R TRYSORLYS BLYNYDDOL 2021/22** (Tudalennau 75 - 86)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 87 - 98)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**9 MATERION A RISGIAU SYDD ANGEN SYLW** (Tudalennau 99 - 112)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**10** **ARCHWILIO ALLANOL: TALIADAU UNIONGYRCHOL AR GYFER GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION** (Tudalennau 113 - 168)

- Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.
- Cyflwyno adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**11** **ARCHWILIO ALLANOL : RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU - DIWEDDARIAD CHWARTER 1 2022/23** (Tudalennau 169 - 186)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

**12** **ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 187 - 192)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**13** **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 193 - 196)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

**14** **ADRODDIAD BLYNYDDOL DIOGELWCH SEIBER 2022** (Tudalennau 197 - 208)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**15** **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 209 - 210)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

**16** **DIWEDDARIAD O'R GOFRESTR RISG STRATEGOL** (Tudalennau 211 - 236)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y Cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd 26 Gorffennaf 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Euryn Morris (Dirprwy Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret M Roberts, Liz Wood.<br><br>Aelodau Lleyg – Mr William Parry, Mrs Sharon Warnes, Mr Michael Wilson. |
| **WRTH LAW:** | Y Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP),<br>Prif Archwiliwr (NW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Neville Evans, Dyfed Wyn Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Boddhad Cwsmer, Ms Yvonne Thomas (Archwilio Cymru), Andrew Lewis (Uwch-archwiliwr Mewnol) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni ddaeth yr un datganiad o ddiddordeb i law.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd 29 Mehefin, 2022 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**3 ADOLYGIAD O'R ADRODDIAD HUNAN-ASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT**

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Hunanasesiad Corfforaethol 2021/2022.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Boddhad Cwsmer adroddiad Hunanasesiad Corfforaethol cyntaf Cyngor Sir Ynys Môn a baratowyd i gyflawni'r ddyletswydd newydd a osodwyd ar gynghorau yng Nghymru gan Dfeddf Lywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i barhau i adolygu eu perfformiad trwy hunanasesiad. Dan y Ddeddf, mae disgwyl i bob awdurdod ystyried i ba raddau y mae'n arfer swyddogaethau'n effeithiol; ei fod yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol ac a yw ei drefniadau llywodraethu'n effeithiol ar gyfer sicrhau'r ddau fater a grybwyllwyd uchod, a rhaid iddo gyhoeddi adroddiad yn nodi ei gasgliadau ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae adroddiad Cyngor Sir Ynys Môn 2021/22 yn adlewyrchu'r hyn y mae'r fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad wedi'i wneud yn y Cyngor

ac mae'n ddiwedd proses sy'n dwyn ynghyd sawl agwedd wahanol ar y fframwaith. Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams fod y Cyngor, ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd ar ffurf adolygiadau perfformiad gwasanaeth; adroddiadau perfformiad; Datganiad Llywodraethu Blynyddol; adolygiadau allanol; arolwg staff ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fodlon bod ei waith rheoli perfformiad, ei ddefnydd o adnoddau a'i reolaeth risg yn "Dda" ac yn adlewyrchu llawer o gryfderau. Serch hynny, mae'r hunanasesiad hefyd wedi amlygu meysydd lle gellir gwella a chaiff y materion hyn eu dwyn ynghyd ar ddiwedd yr adroddiad a chaiff ffynhonnell sicrwydd pob mater ei nodi.

Adroddodd y Prif Weithredwr fod yr adroddiad hunanasesu, sef y cyntaf o'i fath ar gyfer Ynys Môn dan ofynion y perfformiad newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn gadarnhaol ac yn galonogol ond ei fod, hefyd, yn cydnabod y gellir gwneud cynnydd pellach o ran rhai agweddau ar berfformiad. Pwysleisiodd fod y Cyngor wedi gallu cyflawni'r ddyletswydd a osodwyd arno gan y Ddeddf heb orfod cyflwyno unrhyw ddulliau rheoli perfformiad newydd - mae'r prosesau, y gweithdrefnau a'r trefniadau sy'n sail i'r hunanasesiad eisoes wedi'u hen sefydlu o fewn y Cyngor. Roedd yn gobeithio bod hyn yn cyfleu'r neges i holl randdeiliaid, partneriaid a rheoleiddwyr y Cyngor bod y Cyngor yn gweithredu o sylfaen gadarn a bod llawer o ddisgwyliadau'r Ddeddf o ran perfformiad eisoes wedi'u gwreiddio yng ngwaith beunyddiol y Cyngor. Credai fod llawer i ymfalchïo ynddo yn yr adroddiad ac y gallai'r Cyngor fod yn fodlon bod y trefniadau sydd ganddo yn eu lle yn helpu i adeiladu ar welliant heb ychwanegu biwrocratiaeth ychwanegol. Mae rheoli perfformiad yn rhan o ddiwylliant y Cyngor ac mae'n parhau i aeddfedu. Er bod rheoli a defnyddio adnoddau'n heriol, fe'i cefnogir gan drefniadau cadarn ac mae rheoli risg yn rhan annatod o weithrediadau a phenderfyniadau beunyddiol y Cyngor. Bydd meysydd sydd wedi'u nodi ar gyfer gwelliant yn rhan o gynllun gweithredu a chânt eu monitro ar gyfer cynnydd gan Dîm yr Arweinyddiaeth ac adroddir arnynt drwy'r sianeli democrataidd sefydledig.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad, gan godi'r pwyntiau a ganlyn –

- Croesawodd yr adroddiad yn gyffredinol yn asesiad cadarnhaol a ddangosai nifer o gryfderau, gan dynnu sylw at yr arolwg staff fel mesur cryf sy'n adlewyrchu'n dda ar y Cyngor.

- Cyfeiriodd at y defnydd o adnoddau a holi a yw'r Cyngor, wrth gyflwyno arferion gwaith hybrid, wedi ystyried ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol o ystyried y gallai fod mewn sefyllfa lle mae ganddo fwy o ofod swyddfa nag sydd ei angen.

- Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor eisoes wedi cynnal ymarfer rhesymoli adeiladau yn ystod y blynyddoedd o galedi a barodd gadw dwy swyddfa ganolog yn Llangefni, y naill oedd prif Swyddfeydd y Cyngor a'r llall oedd Canolfan Busnes Môn. Gan mai megis dechrau y mae trefniadau gweithio hybrid, mae diogelwch staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth, sy'n golygu y cyfyngir ar nifer y staff a all fod ym mhob adeilad ar unrhyw adeg. Y rheswm dros hyn yw creu hyder ac amgylchedd lle mae staff yn teimlo'n gyfforddus ac yn gallu perfformio orau yn y swyddfa. Er ei fod, felly, yn meddwl ei bod yn rhy gynnar i feddwl am gynllunio swyddfeydd, dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd yn rhagweld y byddai'r Cyngor mewn sefyllfa i brydlesu neu leihau'r gofod yn y naill brif adeilad na'r llall; byddai'n her darparu ar gyfer staff pe byddent i gyd yn gorfforol bresennol yr un pryd. Mae angen i'r Cyngor a'r gymuned ddeall yn well y rhagamcanion tymor hir mewn perthynas â gweithlu hybrid ac a yw'r model sy'n rhannol swyddfa, yn rhannol 'o bell' yma i aros. Dylai hyn, wedyn, fod o gymorth i'r Cyngor benderfynu a oes unrhyw fanteision ariannol ac economaidd i'w cael o resymoli mwy.

- Cyfeiriodd at reoli pobl, gan holi a ellir dadansoddi'r gyfradd trosiant staff o 10% ar gyfartaledd ymhellach i amlygu unrhyw feysydd penodol lle mae trosiant yn uwch/mwy acíwt ac angen sylw arbennig a/neu ei graffu.

- Dywedodd y Prif Weithredwr y caiff trosiant staff ei wrthbwyso i raddau gan nifer uchel o bobl yn ymuno â'r Cyngor. Er ei fod yn berthnasol i bob categori, mae trosiant staff i'w deimlo'n fwy arbennig mewn sectorau incwm is, sgiliau is oherwydd y farchnad lafur gystadleuol. Er bod y gwaith monitro a wnaed gan y Cyngor yn dangos nad yw'n wahanol i'r farchnad lafur ehangach, mae'r Cyngor yn awyddus i wella ei systemau er mwyn rhoi mwy o fanylion y gellir eu trosi'n hawdd i adroddiadau sy'n cyflwyno gwybodaeth fanwl a data am staffio ac y gellir cael atynt yn gyflym.

- Dywedodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid fod cyfradd trosiant staff o 10% ar gyfartaledd yn cymharu'n dda â chyfartaledd trosiant staff o 15.5% mewn diwydiant. Mae trosiant yn amrywio ar draws gwasanaethau a swyddi, yn enwedig felly o ran swyddi a ariennir trwy grant lle gallai'r tymor fod yn gyfyngedig os daw cymorth grant i ben gan beri i staff fynd i edrych i rywle arall. Mae'r Cyngor yn monitro'r sefyllfa'n rheolaidd ac mae'n canolbwyntio ar ei strategaeth recriwtio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, awgryma tystiolaeth bod nifer o staff, sydd wedi gadael i weithio mewn sectorau eraill ,wedi dychwelyd i'r Cyngor ar ôl cyfnod o amser, sy'n galonogol yn yr hyn y mae'n ei ddweud am arferion cyflogaeth a safonau gwaith y Cyngor.

- Cyfeiriodd at y tri chategori hunanasesiad, gan nodi mai un o'r rhesymau a roddwyd dros fod y Cyngor yn asesu ei ddefnydd o adnoddau fel "Da" oedd "cronfeydd wrth gefn uwch". Awgrymodd y Pwyllgor y gellid dehongli'r datganiad, fel y mae ar hyn o bryd, yn gadarnhaol neu'n negyddol gan fod y Cyngor mewn sefyllfa ariannol gref neu'n eistedd ar gronfeydd heb unrhyw gynlluniau i'w defnyddio a gallai hyn gael ei ystyried yn ddefnydd aneffeithiol o adnoddau. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod angen ehangu'r datganiad iddo egluro'r diben o gadw lefel uchel o gronfeydd wrth gefn.

- Yn yr un modd, wrth gyfeirio at y rhestr o welliannau a nodwyd, roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe gellid cynnwys rhywfaint o ddata pendant gan ei bod yn ddogfen gyhoeddus, e.e. o ba ganran y mae'r Cyngor yn anelu at wella'r gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio. Awgrymwyd po fwyaf dadansoddol y mae'r adroddiad yn hytrach nag ansoddol, y gorau.

- Wrth gydnabod y pwynt a wnaed ynghylch lefel uchel o gronfeydd wrth gefn a gâi ei gweld yn negyddol, os nad yw'r rhesymeg dros eu cadw yn glir, dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y câi'r datganiad ei ail-lunio i adlewyrchu'r sefyllfa'n well. Eglurodd fod blwyddyn ariannol 2021/22 wedi bod yn eithriadol gyda swm sylweddol o arian ychwanegol yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru - peth ohono yn hwyr iawn yn y flwyddyn ariannol - i ddelio ag effeithiau parhaus y pandemig oedd wedi cyfrannu at y Cyngor yn tanwario ar ei gyllideb. Roedd y pandemig hefyd wedi bod yn ffactor arwyddocaol yn y tanwariant ar y gyllideb gyfalaf. Y pwynt a wneir yn yr adroddiad drwy gyfeirio at lefel uchel o gronfeydd wrth gefn yw nad oes unrhyw arian wedi'i golli wrth beidio â chael ei ddefnyddio, sy'n arbennig o berthnasol i arian grant, a'i fod yn parhau i fod ar gael i'w ddefnyddio yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r adroddiadau monitro cyllideb chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith yn cadarnhau bod y cyllidebau a neilltuwyd i wasanaethau wedi'u gwario yn unol â'r disgwyliadau.



DRAFT

- Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r pwynt a wnaed ynghylch cynnwys data mwy penodol yn cael ei ystyried wrth baratoi adroddiad hunanasesu'r flwyddyn nesaf, er y bydd y manylion o ran targedau, amserlenni a sut y bydd y rheini'n cael eu cyflawni ac ati yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun gweithredu ar y meysydd i'w gwella.

- Awgrymodd y dylai'r adroddiad hunanasesu fod yn destun arfarniad Archwilio Mewnol er mwyn gwrthsefyll unrhyw ganfyddiad nad yw'r adroddiad yn wrthrychol neu y gallai'r Cyngor fod yn hunanfodlon ynghylch ei werthusiad o'i berfformiad ei hun.

  Er bod y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg yn cadarnhau bod Archwilio Mewnol wedi bod yn gweithio gyda'r Tîm Perfformiad Corfforaethol ar y ddogfen a'i fod wedi'i hadolygu fel rhan o'r gwaith hwnnw, dywedodd y gallai cyfraniad Archwilio Mewnol gael ei ffurfioli pe bai'r Pwyllgor yn dymuno.

  Credai'r Cadeirydd y dylid cydnabod y ffaith ei fod wedi'i adolygu gan Archwilio Mewnol yn yr adroddiad Hunanasesu.

  Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn credu bod hunanasesiad Ynys Môn yn adlewyrchiad cytbwys a theg o safbwynt y Cyngor, er ei bod yn bosibl i sefydliadau nodi eu hunain yn ffafriol. Mae cyfraniad arweinwyr a gwrthwynebwyr gwleidyddol y Cyngor yn y broses yn rhoi'r sicrwydd hwnnw. Hefyd, mae'r Ddeddf yn mynnu bod yr hunanasesiad yn cael ei gynhyrchu'n flynyddol a, hefyd, bod yn rhaid i'r Cyngor drefnu asesiad o'r perfformiad gan banel unwaith bob pum mlynedd. Rhaid i'r panel ymgynghori â phobl a busnesau lleol ynghylch a yw'r Cyngor yn bodloni ei ofynion perfformiad ac adrodd ar ei gasgliadau gydag argymhellion ar gyfer gwella perfformiad os oes angen a, thrwy hynny, sicrhau haen annibynnol ychwanegol o sicrwydd.

- Gwnaed un awgrym y gellid symleiddio'r rhai o'r ffeithluniau yn yr adroddiad i wneud y ddogfen yn haws ei darllen.

**Wedi adolygu'r Hunanasesiad drafft, penderfynwyd –**

**• Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cytuno â chynnwys yr adroddiad hunanasesu ar gyfer 2021/22 ar yr amod yr ystyrir y sylwadau a wnaed am:**

- **Ehangu at ddibenion egluro, ar gadw lefel uchel o gronfeydd wrth gefn**
- **Cynnwys data mwy dadansoddol ar gyfer y dyfodol yn enwedig mewn perthynas â meysydd i'w gwella**
- **Cydnabod bod yr adroddiad wedi'i adolygu gan Archwilio Mewnol**

**• Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio i wneud rhagor o fân newidiadau i'r Hunanasesiad cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.**

**4. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2021/22**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a ymgorfforai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2021/22.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Boddhad Cwsmer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2021/22 sy'n dangos sut mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor, yn ystod y flwyddyn, wedi cyflawni pob un o'r egwyddorion a gynhwysir yn Fframwaith Cyflawni Da Llywodraethu mewn Llywodraeth Leol CIPFA/SOLACE.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes yn unol â'r gyfraith a safonau priodol a'i fod yn diogelu arian cyhoeddus ac yn rhoi cyfrif priodol amdano a sut y defnyddir arian cyhoeddus. Mae gan y Cyngor, hefyd, ddyletswydd dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff ei swyddogaethau eu harfer, gan roi sylw i gyfuniad o fod yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn mae gan y Cyngor hefyd ddyletswydd i roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso'r gwaith o gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg ynghyd â rheolaeth ariannol ddigonol. Ym mis Mawrth 2022, cymeradwyodd a mabwysiadodd y Cyngor god llywodraethu corfforaethol lleol diwygiedig sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn dangos sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Cod ac yn bodloni gofynion arfer priodol a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru).

Dywedodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid fod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Adroddiad Hunanasesu blaenorol yn ategu ei gilydd. Cadarnhaodd bod y broses hunanasesu wedi nodi'r materion llywodraethu a restrir ar dudalen 10 o'r adroddiad a gaiff sylw yn ystod 2022/23, er nad oedd unrhyw faterion llywodraethu arwyddocaol wedi'u nodi yn 2021/22.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, gwnaed y pwyntiau a ganlyn gan y Pwyllgor -

- Gofynnodd am eglurhad o gam gweithredu 3 yn y tabl ar y cynnydd a wnaed yn 2021/22 ynghylch materion llywodraethu a nodwyd yn ystod 2020/21, lle cadarnhawyd y gweithredwyd ar faterion [yn ymwneud â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yr oedd angen sylw yn 2021/22, ond nodwyd, hefyd, bod rhagor o waith wedi'i gynllunio ar gyfer 2022/23 ar y materion sy'n weddill ac sydd angen sylw.

  Eglurodd y Prif Weithredwr fod rhai elfennau o'r gwaith wedi'u cwblhau a'u gweithredu a bod elfennau eraill e.e. adolygu a diweddaru'r Cyfansoddiad a chyflwyno Cynllun Deisebau yn waith oedd ar y gweill ac i'w gwblhau yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

- Gofynnodd am eglurhad o bwynt 3 yn y tabl sy'n rhestru materion llywodraethu a nodwyd gan y broses Hunanasesu, lle nodwyd y gallai methu cydymffurfio â chyfrifoldebau newydd a newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 arwain at graffu pellach gan Lywodraeth Cymru a cholli enw da.

Eglurodd y Prif Weithredwr fod y Ddeddf yn gosod dyletswyddau a chyfrifoldebau newydd ar y Cyngor, rhai ohonynt wedi'u gweithredu ac eraill sy'n waith ar y gweill a allai gael effaith ar enw da'r Cyngor oni bai ei fod yn cael ei weithredu'n llawn. Y nod yw y dylai adroddiad y flwyddyn nesaf gadarnhau y bydd yr holl faterion a nodwyd yn adroddiad 2021/22 wedi cael sylw.

- Amlygwyd bod y raddfa asesu gyffredinol yn erbyn egwyddorion craidd y Fframwaith wedi parhau'n "Dda" flwyddyn ar ôl blwyddyn heb weld unrhyw symudiad i fyny i'r lefel nesaf, er gwaethaf y disgwyl y dylai'r cyngor ymdrechu i wella'n barhaus.

  Dywedodd y Prif Weithredwr fod y categorïau yn eang eu cwmpas ac y byddai uwchraddio i "Rhagorol" yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor allu dangos arferion arloesol nad yw bob amser yn hawdd i'w wneud o ran llywodraethu. Eglurodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid nad yw'r system raddio'n adlewyrchu symudiad o fewn categorïau.

- Holwyd ai'r amcan yw parhau i fireinio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol er mwyn lleihau ei hyd ac a yw'r Cyngor yn meincnodi ei Ddatganiad yn erbyn datganiadau cynghorau eraill yng Nghymru a thu hwnt. Er y croesawyd cynnwys y wybodaeth fanylach drwy atodiadau yn hytrach nag yng nghorff yr adroddiad, awgrymwyd y gallai fersiwn gryno fod yn ddefnyddiol ar gyfer y cyhoedd a chadw fersiwn hwy ar gyfer y Cyngor a'i reoleiddwyr.

  Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor yn rhan o ystod o rwydweithiau sy'n darparu llwyfan ar gyfer cyfnewid arfer gorau a bod llawer o'i brosesau wedi'u cydnabod gan gynghorau eraill yn arfer gorau. Cadarnhaodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid fod yr arfer mewn cynghorau eraill wedi'i ystyried ac y bydd ymdrechion yn parhau i gael eu gwneud i sicrhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gryno, yn ddarllenadwy ac yn cynnwys yr elfennau allweddol angenrheidiol yn unig.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft fydd yn rhan o Ddatganiad Cyfrifon 2021/22.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 wneud rhagor o fân newidiadau i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyn ei gynnwys yn fersiwn derfynol y Datganiad Cyfrifon.**

**5. DATGANIAD DRAFFT O GYFRIFON 2021/22**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a ymgorfforai'r Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2021/22.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y cyfrifon drafft wedi'u llofnodi'r 16eg o Fehefin, 2022 a'u bod bellach yn cael eu harchwilio. Amlygodd y gallai gwaith ychwanegol mewn cysylltiad â chadarnhau pris asedau'r Cyngor yn y fantolen olygu bod y broses archwilio'n cymryd mwy o amser i'w chwblhau. Cododd y mater yn ystod archwiliadau yn Lloegr y flwyddyn flaenorol ac mae wedi'i godi gyda phob cyngor gan Archwilio Cymru. Eglurodd y Swyddog Adran 151 fod Archwilio Cymru yn ceisio sicrwydd nad yw effaith newidiadau i werth cyfredol asedau yn gyfystyr â newid sylweddol yn y ffigur y darperir ar ei gyfer yn y cyfrifon. Er na ofynnir i gynghorau ailbrisio eu hasedau, mae'r hyn y mae'n ei olygu, o ran y gofyn ar gynghorau, wedi bod yn destun trafodaeth rhwng Archwilio

Cymru a CIPFA. Mae'r Cyngor wedi gofyn i'w Brif Swyddog Prisio wneud rhagor o waith mewn perthynas â phrisio asedau'r Cyngor a allai arwain at oedi wrth gwblhau'r archwiliad.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yr isod -

- Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys y datganiadau ariannol craidd a restrir ar dudalen gyntaf y cyfrifon. Rhagflaenir y rhain gan yr Adroddiad Naratif sy'n rhan allweddol o'r cyfrifon ac sy'n rhoi arweiniad effeithiol i'r materion mwyaf arwyddocaol yr adroddwyd arnynt yn y cyfrifon, gan gynnwys blaenoriaethau a strategaethau'r Cyngor a'r prif risgiau y mae'n eu hwynebu. Mae'r adroddiad naratif yn rhoi sylwebaeth ar sut mae'r Cyngor wedi defnyddio ei adnoddau yn ystod y flwyddyn i gyflawni ei amcanion datganedig.
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr drafft yn dangos cost darparu gwasanaethau yn y flwyddyn, yn unol â gofynion cyfrifyddu statudol ac mae'n cynnwys Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae'n cynnwys addasiadau cyfrifyddu megis dibrisiant a newidiadau pensiynau, nad ydynt yn cael eu hariannu gan dalwyr Treth y Cyngor, felly, mae effaith y rhain wedi'u heithrio yn y nodyn a elwir yn Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo a Sail Ariannu (Nodyn 7 yn y Datganiad Cyfrifon). Mae'r nodyn hwn ar gyfer 2021/22 yn dangos £11.852m o addasiadau cyfrifyddu sy'n cael eu canslo yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd. Golyga hyn y caiff gwir effaith ar gronfeydd wrth gefn y Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai o ddarparu gwasanaethau ei leihau, o warged o £5.940m i warged o £17.792m, sy'n gynnydd yng nghronfeydd wrth gefn y Cyngor. Mae hyn i'w briodoli i danwariant ar Gronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai a throsglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.
- Balans yr holl gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar 31 Mawrth, 2022 oedd £57.772m, cynnydd o £17.792m. Mae Cronfa Wrth Gefn y Cyfrif Reveniw Tai, Balansau Ysgolion a Chronfeydd Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn wedi'u neilltuo a dim ond at y diben dynodedig y gellir eu defnyddio. Mae Tabl 1 yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn oherwydd perfformiad ariannol y flwyddyn a symudiadau net i mewn i'r cronfeydd wrth gefn ac ohonynt. Yr hyn y mae Tabl 2 yn ei wneud yw crynhoi'r symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn gan ddefnyddio gwybodaeth o'r Datganiad Cyfrifon. Er bod y ffordd y cyflwynir y wybodaeth yn wahanol, mae'r ddau yn arwain at yr un balans wrth gefn.
- £12.050m oedd y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn ar 31 Mawrth, 2022, sy'n cyfateb i 8.2% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2021/22. Roedd perfformiad ariannol y Cyngor ar gyfer 2021/22 yn dangos tanwariant net o £4.798m oherwydd derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig a darparu nifer gyfyngedig o wasanaethau i'r cyhoedd yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Cynyddodd asedau net cyffredinol drafft y Cyngor o £164.162m ar 31 Mawrth, 2021 i £247.577m ar 31 Mawrth, 2022. Y rheswm dros hyn yw buddsoddi mewn asedau newydd ac adnewyddu asedau presennol; ailbrisio asedau eraill y Cyngor a chynyddu asedau cyfredol megis arian parod, asedau sydd cyfwerth ag arian parod a buddsoddiadau tymor byr. Yn ogystal, gostyngodd rhwymedigaethau'r Cyngor a'r mwyaf arwyddocaol oedd gostyngiad o £55m ym mhrisiad y rhwymedigaeth bensiwn oherwydd perfformiad gwell na'r disgwyl gan asedau'r gronfa bensiwn a newid yn rhagdybiaethau'r actiwari o ganlyniad i gyfraddau llog cynyddol. Mae'r Cyngor yn rhan o Gronfa Bensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a thrafodwyd y materion a ganlyn –

- Y cynnydd ym malansau ysgolion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod balansau ysgolion wedi'u cryfhau gan gyllid grant Llywodraeth Cymru, a rhan ohono oedd helpu ysgolion i ddelio ag effaith barhaus y pandemig. Bwriad y rhan arall ohono oedd helpu disgyblion i ddal i fyny â'r dysgu yr

DRAFT

oeddynt wedi’i golli yn ystod y pandemig. Caiff y cyllid ei fonitro gan Lywodraeth Cymru ac mae disgwyl i ysgolion adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ar sut y defnyddiant y cyllid.

- Prisiad asedau eiddo’r Cyngor nad yw’n cynnwys rhwydwaith priffyrdd y Cyngor. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod prisiwr mewnol y Cyngor yn cynnal prisiad yn unol â gofynion Cod CIPFA. Yn hanesyddol, roedd asedau gwerth dros £500k yn cael eu prisio’n flynyddol a’r gweddill, gan gynnwys stoc tai’r Cyngor, yn cael eu prisio ar sail gylchol. Caiff stoc tai’r Cyngor, sef elfen fwyaf portffolio eiddo’r Cyngor, ei brisio ar sail wahanol oherwydd bod tenantiaid yn yr eiddo ar hyn o bryd. Cânt eu prisio ar werth y farchnad a'u disgowntio i adlewyrchu'r ffaith na fyddai'r Cyngor yn gallu eu gwerthu am werth y farchnad. Mae gwaith prisio stoc tai’r Cyngor i fod i gael ei gynnal y flwyddyn nesaf a bydd yn cael ei wneud drwy edrych ar sampl o eiddo o wahanol gategorïau o anheddau. Caiff y prisiad hefyd ei lywio gan yr arolwg cyflwr stoc a gynhelir i sicrhau y cynhelir stoc tai’r Cyngor i Safonau Ansawdd Tai Cymru. Er y bu trafodaeth yn flaenorol ynghylch cynnwys priffyrdd wrth brisio asedau yn y cyfrifon, mae'r her ynghylch rhoi union werth ar seilwaith priffyrdd wedi golygu nad yw hyn wedi digwydd eto.

- Y rhwymedigaethau ar y Gronfa Bensiwn a'i heffaith ar y cyfrifon. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod cyfanswm y rhwymedigaeth net ar Gronfa Bensiwn y Cyngor wedi gostwng £55m yn 2021/22 o £178.2m yn 2020/21 i £121.2 yn 2021/22. Gall y rhwymedigaeth pensiwn amrywio’n sylweddol o un flwyddyn i’r llall gan ddibynnu ar newidiadau yn y tybiaethau a ddefnyddir gan gynnwys y cyfraddau disgownt a pherfformiad asedau’r gronfa bensiwn. Er bod y rhwymedigaeth pensiwn, fel y’i dangosir yn y cyfrifon, yn cael effaith ar werth net y Cyngor, fel y'i cofnodir yn y Fantolen, ceir trefniadau statudol i ariannu'r diffyg er mwyn sicrhau bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau'n iach. Mae'r rhwymedigaeth yn annhebygol o gael ei gwireddu tra bydd y cynllun yn parhau ar agor ac mae aelodau'n parhau i wneud cyfraniadau i'r cynllun. Prisiad mwy arwyddocaol o safbwynt y Cyngor yw prisiad teirblwydd yr Actiwari o’r gronfa bensiwn at ddiben pennu cyfraddau cyfraniadau’r cyflogwr am y tair blynedd nesaf, sy’n seiliedig ar dybiaethau gwahanol. Mae gan y Cyngor strategaeth gydag actiwari’r cynllun i gyflawni lefel ariannu o 100% dros yr 20 mlynedd nesaf. Caiff lefelau ariannu eu monitro'n flynyddol.

- Y tanwariant ar gyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor a’r goblygiadau o ran rheolaeth cyllideb. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, yn ogystal â chael setliad gwell na’r disgwyl ar gyfer 2021/22, fod y dyraniad gan Lywodraeth Cymru wedi newid yn ystod y flwyddyn pan gyflwynwyd cyllid ychwanegol o £1.389m yn hwyr yn y flwyddyn ym mis Mawrth drwy'r Grant Setliad Refeniw. Rhoddwyd cyllid, hefyd, i dalu costau parhaus yn ymwneud â Covid a cholledion incwm ac yn ogystal, derbyniwyd nifer sylweddol o grantiau eraill yn hwyr yn y flwyddyn ariannol oedd yn cynnwys grantiau gwastraff a grantiau pwysau gwasanaethau cymdeithasol. Nid yw’r tanwariant o £4.798m ar y gyllideb refeniw yn adlewyrchu’n gywir sefyllfa rhai o wasanaethau’r Cyngor gan nad oedd rhai gwasanaethau wedi agor yn llawn tan hanner ffordd drwy’r flwyddyn ariannol ac ni wnaethant ddefnydd llawn o’r grantiau a gyflwynwyd. Mae’r galw am gymorth yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol Oedolion a Phlant bellach ar gynnydd a’r disgwyl yw y bydd yn parhau i dyfu. Mae hyn, ynghyd â chost gynyddol lleoliadau, yn ei gwneud yn debygol y bydd y gwasanaethau hynny'n gorwario eu cyllidebau yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae’r gwarged ar gyllideb refeniw 2021/22 y Cyngor wedi cryfhau balansau cyffredinol y Cyngor, sy’n ei roi mewn sefyllfa ariannol gref i allu delio â’r galw ychwanegol ar wasanaethau a heriau eraill yn y flwyddyn hon a’r flwyddyn nesaf.

DRAFT

- O ran y gyllideb gyfalaf, efallai y bydd rhagamcanion y Cyngor ar gyfer gwariant cyfalaf yn rhy optimistaidd yn enwedig o ran tai cyngor a datblygiadau tai newydd ac efallai y bydd achos dros adolygu Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai. Fodd bynnag, mae blynyddoedd ariannol 2020/21 a 2021/22 wedi bod yn eithriadol o ran yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar wasanaethau'r Cyngor ac ar gynnydd prosiectau cyfalaf sy'n ei gwneud yn heriol cyflawni prosiectau ar amser. Mae costau cynyddol ac amser adeiladwyr a sicrhau bod deunyddiau ar gael yn heriau newydd o ran gwariant cyfalaf.

- Yr her y mae derbyn cyllid hwyr yn ogystal â'r sefyllfa economaidd yn ei gosod ar gyfer cynllunio a rhagweld y gyllideb. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y cynnydd presennol mewn tâl a phrisiau yn creu ansicrwydd ynghylch costau'r Cyngor yn 2022/23 a lefel y gyllideb sydd ei hangen yn 2023/24. Fodd bynnag, bydd y balansau uwch yn helpu'r Cyngor i liniaru'r risgiau hynny yn 2022/23 ac wedi hynny. Fel hyn, bydd modd i'r Cyngor brynu amser i ailfodelu gwasanaethau a lleihau costau.

- Cywiriadau, sef rhoi'r gair "cynyddu" yn lle'r gair "gostwng" ym mharagraff 3.3, tudalen 75 yn Atodiad 1, a rhoi £5.94m yn lle "£8.143m" yn y naratif rhwng y ddau dabl ar dudalen 84.

- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 nad oedd unrhyw faterion wedi'u codi hyd yma gan yr archwilwyr o ran ansawdd y papurau gwaith a gyflwynwyd. Mae'r Datganiad Cyfrifon yn parhau i gael ei adolygu er mwyn cael gwared ag unrhyw flerwch diangen, yn unol ag argymhellion a wnaed gan yr archwilwyr.

**Ar ôl adolygu'r Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2021/22, penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r datganiadau ariannol drafft ar gyfer 2021/22 nad ydynt wedi'u harchwilio.**

## 6. ADOLYGU'R BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a ymgorfforai'r Blaenraglen Waith a Rhaglen Hyfforddiant y Pwyllgor ar gyfer 2022/23.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y Flaenraglen Waith wedi'i datblygu i gynnwys cyfrifoldebau newydd y Pwyllgor dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'r diwygiadau yn sgil hynny i gylch gorchwyl y Pwyllgor a'i bod hefyd yn adlewyrchu cyfarfod ychwanegol ar gais y Pwyllgor, wedi'i amserlennu ar gyfer mis Hydref. Mewn ymateb i gwestiwn am lywodraethu partneriaethau a chytundebau cydweithio, cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg y câi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Sgriwtini, Partneriaethau ac Adfywio ei gyflwyno i gyfarfod Rhagfyr, 2022 y Pwyllgor.

**Penderfynwyd derbyn y Flaenraglen Waith a gynigiwyd ar gyfer 2022/23 yn un sy'n bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'r cylch gorchwyl.**

**Mr Dilwyn Evans**
**(Cadeirydd)**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **DYDDIAD:** | **28 Medi 2022** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad Pryderon a Chwynion 2021-2022** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Sicrwydd ar Gydymffurfiaeth â Pholisi** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Swyddog Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol Est. 2588 bjxcs@ynysmon.gov.uk** |

**PRYDERON A CHWYNION**

**Rhagarweiniad a Chrynodeb**

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am faterion sy'n codi o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor am y cyfnod 1 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

2. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol ond dim ond y rhai hynny lle nad yw'r achwynydd yn ddefnyddiwr gwasanaeth. Ymdrinnir â chwynion defnyddwyr gwasanaeth o dan y Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol - Y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion ar gyfer Plant ac Oedolion. Adroddir ar y rhain yn flynyddol i'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r adroddiad diweddaraf ar gael yn: http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CId=608&Year=0&LLL=1

3. Gall cwynion ddarparu gwybodaeth werthfawr am y modd yr ydym yn perfformio, yr hyn y mae defnyddwyr yn ei feddwl am ein gwasanaethau, a sut a ble y dylem ganolbwyntio gwelliannau.

   Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022, derbyniwyd 189 o bryderon a derbyniwyd ac ymatebwyd i 54 o gwynion.

   Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn diffinio "pryder" fel mynegiant o anfodlonrwydd y gellir ei ddatrys 'yn y fan a'r lle', yn y man cyswllt cyntaf, neu yn fuan wedyn. Fel arfer, mae cwyn yn fwy difrifol o ran natur, yn aml nid yw'n bosib ei hunioni, ac yn gyffredinol mae angen ymchwiliad i'r amgylchiadau cyn y gellir darparu ymateb neu ddatrysiad.

4. O'r 54 o gwynion yr ymdriniwyd â hwy yn ystod y cyfnod dan sylw, cadarnhawyd 12 yn llawn, cafodd 2 eu cadarnhau'n rhannol ac ni chadarnhawyd 40 ohonynt. Cafodd 11 cwyn a oedd wedi bod trwy'r broses fewnol eu huwch-raddio i OGCC. Gwrthodwyd 9 ohonynt cyn ymchwiliad ffurfiol a llwyddwyd i ddatrys y ddau arall. Cyfeiriwch at baragraff 9 sy'n darparu gwybodaeth ynglŷn â'r cwynion yr ymdriniwyd â hwy gan OGCC yn ystod 2021/22. (Rheiny a aeth drwy broses fewnol y Cyngor a'r rheiny a wnaed yn uniongyrchol i OGCC).

5. Cafwyd cynnydd o 11 yn nifer y cwynion yr ymchwiliwyd iddynt, i fyny o 43 yn 2020/21, ac mae'r rhain i'w gweld yn y tabl sydd ynghlwm (**Atodiad 1**).

6. Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi data cwynion bob mis. https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cymryd-rhan/Cwynion-swyddogol/Ystadegau-cwynion-y-cyngor.aspx

7. Y gyfradd gyffredinol o ran ymateb i gwynion o fewn y terfyn amser penodedig (20 diwrnod gwaith) oedd 79.6%. Pan fydd ymatebion yn hwyr, disgwylir i wasanaethau anfon 'ymateb dal' i'r achwynydd i roi gwybod iddynt am y cynnydd ac i egluro'r rhesymau dros yr oedi a rhoi rhyw syniad ynghylch yr amserlen ymateb.

Roedd 9% o'r cwynion uchod (yr un fath ag yn 2020/21) yn deillio o bryderon a uwch-gyfeiriwyd ond mae hyn yn dal i ddangos bod y Gwasanaethau yn delio'n effeithiol â phryderon ac felly'n cyfyngu cwynion ffurfiol. Fe anfonwyd 1 o'r 54 i'r Cyngor gan OGCC a wrthododd ddelio â'r mater hyd nes bod popeth posib wedi cael ei wneud i ddatrys y mater drwy broses fewnol y Cyngor yn y lle cyntaf.

8. **Gwersi a Ddysgwyd**

Mae'r Polisi Pryderon a Chwynion yn rhoi pwyslais ar ddysgu gwersi o gwynion a thrwy hynny wella gwasanaethau. Mae'r argymhellion blaenorol sydd wedi eu cadarnhau gan y Pwyllgor yma bellach wedi dod yn rhan o fusnes fel arfer wrth ddelio efo cwynion.

Fel y crybwyllwyd uchod, cadarnhawyd 12 o gwynion a chadarnhawyd 2 gŵyn yn rhannol yn ystod 2021/22. Mae **Atodiad 2** yn esbonio pa wersi a ddysgwyd ac unrhyw ymarfer sydd wedi esblygu o ganlyniad i'r canfyddiadau hyn.

9. **Cwynion i OGCC**

Nid oes hawl fewnol i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed mewn ymateb i gŵyn, ond mae'r Polisi Pryderon a Chwynion yn cynnwys yr opsiwn o uwch-gyfeirio cwyn i OGCC pan fo'r achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon ag ymateb y Cyngor.

Cafodd 29 o gwynion y mae'r broses hon yn berthnasol iddynt eu cyflwyno i OGCC o fewn amserlen yr adroddiad (roeddent yn cynnwys cwynion yr ymdriniwyd â hwy o dan broses gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol a 2 gŵyn a ddygwyd ymlaen o 2020/21). Uwch-gyfeiriwyd 13 o'r 29 yn dilyn ymatebion ffurfiol o dan Weithdrefn Gwyno'r Cyngor ac fe uwch-gyfeiriwyd 5 yn dilyn ymatebion ffurfiol o dan Weithdrefn y Gwasanaethau Cymdeithasol, roedd 2 fater yn ymwneud ag adolygu penderfyniadau blaenorol ac roedd y 9 arall yn gwynion a wnaethpwyd yn uniongyrchol i OGCC. O'r 29 o achosion a gyfeiriwyd at OGCC, arweiniodd 3 at setliadau cynnar, gan ddod â'r materion hynny i ben, ac ni ymchwiliwyd i'r 26 cwyn arall.

**10. Cwynion sy'n gysylltiedig ag Iaith**

Ni dderbyniwyd unrhyw gŵyn ffurfiol yn ystod y flwyddyn.

Y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg sy'n delio â chwynion ynghyd ag unrhyw fater arall yn ymwneud â'r Gymraeg ac adroddir yn eu cylch i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn yr https://www.ynysmon.llyw.cymru/documents/Dogfennau-Cy/Cyngor/Iaith/Adroddiad-blynyddol-safonau'r-Gymraeg-2021-i-2022.pdf

Yn ogystal, mae gan y cyhoedd yr hawl i gwyno'n uniongyrchol i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg ond ni chaiff y cwynion hyn eu hanfon yn ôl i'r Cyngor i'w hymchwilio ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Nodir cwynion o'r fath yn yr Adroddiad Blynyddol ar y Safonau Iaith Gymraeg a gyhoeddir ar Wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn:- https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Iaith/Polisi-Iaith-a-Safonau-Iaith-Gymraeg.aspx

**11. Penderfyniad/Argymhellion**

Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod yr adroddiad hwn yn darparu sicrwydd rhesymol bod y Cyngor yn ymdrin â chwynion yn effeithiol ac nid yw'n gwneud unrhyw argymhellion mewn perthynas â gallu'r Cyngor i ymdrin â chwynion yn effeithiol ac yn unol â'i Bolisi Pryderon a Chynion Corfforaethol.

**Atodiad 1**

## Crynodeb o Bryderon, Cwynion a Chanmoliaethau fesul Gwasanaeth ar gyfer 2021 – 2022

| Gwasanaeth | Nifer y pryderon | Nifer y cwynion | Nifer a gadarnhawyd | Nifer a gadarnhawyd yn rhannol | Nifer y cwynion a wrthodwyd | Nifer yr ymatebion hwyr (nifer o ddyddiau yn hwyr) | Canmoliaethau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymunedol** | | | | | | | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol (nid defnyddiwr gwasanaeth) | - | 2 | - | - | 2 | - | - |
| **Busnes y Cyngor** | | | | | | | |
| Cyfreithiol | - | 1 | - | - | 1 | - | 9 |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | | |
| Priffyrdd | 10 | 7 | - | - | 7 | | 27 |
| *Eiddo/Adnoddau/ Iechyd a Diogelwch | - | 1 | - | 1 | - | - | - |
| Gwastraff | 29 | 4 | 1 | - | 3 | - | 21 |
| **Tai** | | | | | | | |
| Tai | 53 | 8 | 2 | 1 | 5 | - | 26 |
| *Tai/Budd-daliadau | - | 2 | 1 | - | 1 | 1 (7 diwrnod) | |
| *Tai/Gwasanaethau Cymdeithasol | - | 1 | - | - | 1 | - | |
| **Dysgu** | | | | | | | |
| Dysgu (ac eithrio ysgolion) | 4 | - | - | - | - | - | 33 |
| **Rheoleiddio ac Economaidd** | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 11 | - | - | - | - | - | 31 |
| Hamdden | 37 | 1 | 1 | - | - | - | 41 |
| Cynllunio | 1 | 14 | 3 | - | 11 | 3 (1, 7 a 19 diwrnod) | 156 |
| Gwarchod y Cyhoedd | - | 1 | - | - | 1 | - | 38 |
| **Adnoddau** | | | | | | | |
| Adnoddau | 43 | 12 | 4 | - | 8 | 7 (1 diwrnod x 3/ 2 diwrnod/5 diwrnod/17 diwrnod a 36 diwrnod) | 34 |
| **Trawsnewid Corfforaethol** | | | | | | | |
| Cyswllt Môn | 1 | - | - | - | - | - | 13 |
| **Cyfansymiau** | **189** | **54** | **12** | **2** | **40** | **11** | **429** |

* Yn ymwneud â mwy nag un gwasanaeth

CC-24096-BJ/717169

# Ffurflen Hysbysu am Gwynion a Gadarnhawyd neu a Gadarnhawyd yn rhannol    Atodiad 2

Mae'r Polisi Pryderon a Chwynion yn rhoi pwyslais ar ddysgu o gamgymeriadau a rhoi mesurau yn eu lle rhag i'r un camgymeriadau gael eu hailadrodd. Darperir Adroddiad Cwynion Blynyddol i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu'r Cyngor ym mis Medi bob blwyddyn. Adroddir ar y gwersi a ddysgwyd yn sgil unrhyw gwynion a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol mewn tabl fel atodiad i'r adroddiad hwnnw. Mae'r tabl yn nodi enw'r gwasanaeth, y camgymeriad a nodwyd a'r camau a gymerwyd i gywiro hynny.

Mae felly'n hanfodol bod y wybodaeth y byddwch yn ei darparu ar ddiwedd pob proses ymchwilio i gŵyn yn nodi'n glir eich canfyddiadau a pha gamau yr ydych wedi eu cymryd / yr ydych yn bwriadu eu cymryd, er mwyn sicrhau nad yw'r camgymeriad a nodwyd yn cael ei ailadrodd. Mae'r Pwyllgor wedi mynegi y gall alw ar Benaethiaid Gwasanaeth i gadarnhau bod camau cywiro wedi eu cymryd o fewn yr amserlenni a nodwyd.   Er mwyn hwyluso'r gwaith o ysgrifennu adroddiadau yn y dyfodol fe anfonir y ffurflen hon atoch i'w llenwi bob tro y byddwch yn cadarnhau cwyn yn llawn neu'n rhannol. Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn cael ei rhannu â'r Pwyllgor mewn cyfarfod cyhoeddus.

| **Canllaw i'r Gwasanaethau ar sut i gwblhau'r ffurflen** | | |
|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r Categori** | **Manylion / Enghreifftiau** | **Enghreifftiau o'r camau a gymerwyd** |
| Camgymeriad syml / dim angen am gamau pellach | Camgymeriad dilys / un tro sydd wedi'i gywiro / materion a brofwyd wrth i system newydd gael ei chyflwyno / cyfnod o bwysau uchel | Wedi siarad â'r aelod perthnasol o staff ac wedi eu hatgoffa o'r angen i fod yn ofalus / i gadw data pan fydd y galw yn uchel. |
| Mater Gofal Cwsmer | Diffyg ymateb i ohebiaeth / heb ffonio rhywun yn ôl yr addewid. | Cyfarwyddiadau clir wedi eu darparu / materion gofal cwsmer wedi eu trafod ym mhob cyfarfod tîm (cofnodion wedi eu cymryd / Gwasanaethau yn cyflwyno ac yn monitro rhai dangosyddion perfformiad allweddol. |
| Angen Hyfforddiant neu Oruchwyliaeth | Materion ymddygiad neu gamgymeriadau wrth ddehongli cyfarwyddiadau | Aelod o staff wedi'i anfon ar gwrs hyfforddiant / goruchwyliaeth gan aelod mwy profiadol o staff. |
| Newid mewn polisi neu broses | Camgymeriadau mewn proses / polisi wedi eu darganfod o ganlyniad i ymchwiliad i gŵyn sydd wedi arwain at gyflwyno newidiadau. | Ffurflenni newydd wedi eu cyflwyno / angen gwahanol dystiolaeth / newidiadau i lwybrau (e.e. casgliadau bin) |

# Ffurflen Hysbysu am Gwynion a Gadarnhawyd neu a Gadarnhawyd yn rhannol    Atodiad 2

| Crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd 2021/22 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhif | Cyf | Gwasanaeth | Camgymeriad(au) a nodwyd | Camau Adferol – nodwch gategori'r camgymeriad (gweler uchod) a nodwch pa gamau sydd wedi eu cymryd neu y bwriedir eu cymryd ac erbyn pryd | Gweithred wedi'i chwblhau |
| **Ar draws y Gwasanaethau** | | | | | |
| 1. | F580 (Cadarnhawyd yn rhannol) | Eiddo, Caffael, Iechyd a Diogelwch | Mater yn ymwneud ag ysgol – aelod o staff wedi cael ei anafu ddwywaith gan y biniau – y Cyngor heb gymryd camau. | Datryswyd y mater erbyn y dyddiad ymateb. | DO<br>Mawrth 2022 |
| **Tai** | | | | | |
| 2. | F543 | Atgyweirio Tai | Diffyg cyfathrebu a'r amser a gymerwyd i gwblhau'r gwaith. | Mater Gofal Cwsmer – cafodd cyfarwyddiadau clir eu hail-anfon i staff ynglŷn â chyfathrebu da gyda thenantiaid. Maent hefyd wedi cael eu hatgoffa i gyfeirio at y polisi Atgyweirio Tai am ganllaw ar yr amser y dylid ei gymryd i gwblhau gwaith. | DO<br>Medi 2021 |
| 3. | F547 | Tai / Atgyweiriadau yr Ailgodir Tâl amdanynt | Gwall yn y Broses. | Newid i Bolisi neu Broses - ar ôl derbyn hysbysiad ymadael neu drosglwyddo, y Swyddog Rheoli Tai perthnasol a'r Archwilydd Technegol ar y safle/eiddo fydd yn archwilio'r eiddo o hyn ymlaen. Bydd y tenantiaid yn trafod unrhyw atgyweiriadau angenrheidiol gyda staff yr Adran Dai cyn i'w tenantiaeth ddod i ben.  Bydd cyfle i'r tenant roi adborth ac un ai ymrwymo i wneud y gwaith neu drafod y swm y bydd yn rhaid iddynt ei dalu'n ôl pan fyddant yn gadael. | DO<br>Rhagfyr 2021 |
| 4. | F576 | Atgyweiriadau Tai | Yr amser a gymerwyd i gwblhau gwaith ar gegin | Mater Gofal Cwsmer – atgoffwyd pawb yn yr Uned Cynnal a Chadw Tai ynglŷn â | DO<br>Mawrth 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ddiffygiol yn dilyn gollyngiad dŵr. | Siarter Gwasanaeth Cwsmer CSYM mewn perthynas ag ymateb i ddefnyddwyr gwasanaeth, ac fe'i hatgoffwyd i ddilyn y canllawiau yn y Polisi Atgyweirio Tai mewn perthynas â'r amser y dylid ei gymryd i gwblhau gwaith. | |
| 5. | F567 (Cadarnhawyd y Rhannol) | Atgyweirio Tai | Diffyg cyfathrebu a'r amser a gymerwyd i gwblhau'r gwaith. | Mater Gofal Cwsmer – mae Covid-19 wedi arwain at oedi oherwydd nad oedd y deunyddiau angenrheidiol ar gael. Mae staff wedi derbyn cyfarwyddiadau clir y dylent gysylltu â'r tenant pan fo oedi neu os caiff gwaith ei ganslo am ba bynnag reswm.<br>Mater Gofal Cwsmer – wedi atgoffa gweithwyr yr adran Atgyweirio Tai i sicrhau eu bod yn glanhau ar eu hôl a sicrhau bod yr eiddo'n dwt a glan ar ôl cwblhau'r gwaith | DO<br>Ionawr 2022<br>DO<br>Ionawr 2022 |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | |
| 6. | F542 | Hamdden | Gwall syml – camgymeriad gwirioneddol wrth drefnu "Llwybr i'r Teulu". Credwyd bod pawb wedi cytuno ar y llwybr fodd bynnag nid oedd hynny'n wir. | Cafodd camau eu cymryd ar unwaith i newid y llwybr ac fe ymddiheurwyd yn llawn. | DO<br>Awst 2021 |
| **Cynllunio** | | | | | |
| 7. | F531 | Cynllunio | Cadarnhawyd – gwall gwirioneddol.<br>Gweithdrefnau anghywir wedi cael eu rhoi ar waith wrth ddelio â chais cynllunio. Deliwyd â'r cais (HHP/2022/278) â phwerau dirprwyedig yn hytrach na thrwy'r Pwyllgor Cynllunio | Paratowyd a chyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i egluro amgylchiadau'r cais. | DO<br>Gorffennaf 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gyda'r swyddogion yn dehongli'r ffurflen fel cais a gwblhawyd gan ymgeisydd/asiant gan roi tic yn y blwch 'na' i gadarnhau nad oedd yr ymgeisydd yn perthyn i swyddog neu aelod o'r Cyngor. Ni fyddai'r swyddogion yn ymwybodol o unrhyw berthynas ag aelod etholedig. | | |
| 8. | F544 | Cynllunio | Cadarnhawyd – mater Gofal Cwsmer ac adolygu canllawiau statudol.<br><br>Diffyg ymateb i nifer o e-byst a gohebiaeth a oedd yn gofyn am wybodaeth ac eglurder ynglŷn ag oedi wrth ryddhau tystysgrif cwblhau oherwydd bod newid defnydd sylweddol posibl wedi dod i'r amlwg yn ystod archwiliad cwblhau. | Anfonwyd ymddiheuriad mewn perthynas â'r oedi a chafodd y dystysgrif ei rhyddhau'n fuan wedi'r trafodaethau gyda'r adran gyfreithiol (ceir gwahaniaeth barn mewn perthynas â'r modd y caiff newid defnydd sylweddol ei ddehongli ledled Cymru).<br>Atgoffwyd y staff i gadw at y Siarter Cwsmeriaid bob amser. | DO<br>Mai 2022 |
| 9. | F571 | Cynllunio | Cadarnhawyd yn rhannol – Mater Gofal Cwsmer.<br><br>Ymateb anfoddhaol yn ogystal â diffyg ymateb i ohebiaeth yn ymwneud ag ymchwiliad gorfodi. | Anfonwyd ymddiheuriad mewn perthynas â'r diffyg ymateb, fodd bynnag roedd y swyddogion wedi delio ac ymchwilio i'r mater yn briodol yn unol â'r dystiolaeth a oedd ar gael ac roeddent wedi gofyn i'r achwynydd rannu unrhyw dystiolaeth bellach.<br>Atgoffwyd y staff i gadw at y Siarter Cwsmeriaid bob amser. | DO<br>Mai 2022 |
| **Adnoddau** | | | | | |
| 10. | F535 | Refeniw | Oedi wrth dynnu'r Premiwm yn dilyn cais gan gwsmer. Cyfnod | Trafodwyd Gwasanaeth Cwsmer yn ystod cyfarfod tîm – cafodd staff asiantaeth eu | DO<br>Gorffennaf 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | o alw mawr oherwydd Covid-19. | penodi i gefnogi'r tîm oherwydd llwyth gwaith uchel. | |
| 11. | F559 | Budd-daliadau | Gwall mewn prosesau ac oedi wrth ymateb oherwydd Covid-19 . | Atgoffwyd staff bod rhaid cynnwys ychwanegiadau i geisiadau am fudd-daliadau. Edrychwyd ar lwyth gwaith yr adran a rhoddwyd gwiriadau yn eu lle. | DO<br>Ionawr 2022 |
| 12. | F562 | Budd-daliadau | Gwall un tro sydd wedi cael ei gywiro. | Darparwyd cyfarwyddiau clir. | DO<br>Chwefror 2022 |
| 13. | F566 | Budd-daliadau | Oedi wrth ymateb ac wedi methu â chynghori'r cwsmer i wneud cais am Ostyngiad yn y Dreth Gyngor cyn gynted ag y bo hynny'n gyfleus. | Er bod y cyfrif yn gywir, cafwyd oedi mewn ymateb oherwydd llwyth gwaith ac fe allai'r cwsmer fod wedi cael ei cefnogi'n well. Rhannwyd enghraifft o wasanaeth cwsmer da gyda'r staff yn ystod cyfarfod tîm. | DO<br>Ionawr 2022 |
| **Gwastraff** | | | | | |
| 14. | F570 | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo – Rheoli Gwastraff | Gwall syml – dod o hyd i broblem wrth gyflwyno gwasanaeth newydd fel rhan o contract casglu gwastraff newydd – amlygwyd bod angen newid prosesau casglu gwastraff ac ailgylchu mewn lleoliad penodol. | Roedd y lleoliad penodol yn anodd i'w gyrraedd oherwydd gosodiad y strydoedd, ffyrdd a thai. Cydlynwyd gyda'r contractwr casglu gwastraff i newid amseroedd casglu a darparu cerbyd llai. Defnyddiodd y contractwr yrrwr mwy profiadol ac nid oes unrhyw broblemau wedi bod ers hynny. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd na fydd problemau pellach yn codi oherwydd lleoliad yr eiddo a'r modd y mae trigolion yn parcio. | DO<br>Ionawr 2022 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith / Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **Dyddiad:** | **27 Medi 2022**<br>**28 Medi 2022** |
| **Pwnc:** | **Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021/2022** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Robin Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Swyddog Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol**<br>**01248 752588**<br>**bjxcs@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i'r holl Aelodau** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

**1. Argymhellion**

Y Pwyllgor a'r Pwyllgor Gwaith i:-

- nodi a derbyn y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 2021/22
- nodi unrhyw adborth i'w rannu â'r OGCC;
- awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i ysgrifennu at OGCC er mwyn cadarnhau bod y Pwyllgor a'r Pwyllgor Gwaith wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i'w Llythyr Blynyddol ac i ddarparu sicrwydd y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion ac felly darparu aelodau â'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn gallu craffu ar berfformiad y Cyngor.

**2. Cefndir**

Ers 2006 mae OGCC wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y gwaith sydd wedi ei ymgymryd ag ef gan ei swyddfa ef/hi dros y 12 mis diwethaf.

Cyhoeddodd yr OGCC yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22 yn ddiweddar a gellir ei weld yn:-

https://www.ombwdsmon.cymru/Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol/

Mae'r OGCC hefyd yn cyhoeddi crynodeb blynyddol ar wahân o berfformiad ar gyfer pob Cyngor; y cyfeirir ato fel y llythyr blynyddol.

Mae Llythyr Blynyddol 2021/22 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM), wedi'i atodi fel **Atodiad 1**.

Yn ei llythyr, mae'r OGCC yn gofyn am y canlynol:-

- *"Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gynorthwyo aelodau yn eu gwaith craffu ar berfformiad y Cyngor a rhannu unrhyw adborth gan y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyda fy swyddfa."*

Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r cais uchod ac, yn ogystal, yn cael ei gyhoeddi i'r holl Aelodau a'r cyhoedd.

- *"Parhau i ymgysylltu â'n gwaith Safonau Cwynion, rhoi hyfforddiant i'ch staff, gweithredu'r polisi enghreifftiol yn llawn a darparu data cwynion."*

Cafodd sesiynau hyfforddiant yr Asiantaeth Safonau Cwynion eu cwblhau ar ddiwedd 2020 ac mae model y polisi yn cael ei weithredu'n llawn. Mae'r Cyngor yn darparu data cwynion chwarterol yn unol â'r amserlen a nodir gan yr Asiantaeth Safonau Cwynion.

- *"Rhoi gwybod imi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn 30 Medi."*

Bydd hyn yn cael ei gwblhau yn dilyn cyfarfodydd y Pwyllgorau hyn a'r Pwyllgor Gwaith.

**3. Y Llythyr Blynyddol**

Mae'r Llythyr yn cyfeirio'n bennaf at gwynion gwasanaeth ond mae hefyd yn cynnwys adran ar gwynion o dan y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau.

**Y Prif Negeseuon:-**

- Cyflwynwyd 29 o gwynion i'r OGCC, yn erbyn CSYM; i fyny o 18 o gwynion yn ystod 2020/2021. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd 26 angen eu hymchwilio iddynt gan swyddfa'r OGCC.
- Cafodd 3 o'r cwynion a gofnodwyd eu delio â nhw drwy ddatrysiad cynnar.
- Cafodd 1 gŵyn Cod Ymddygiad ei gwneud yn erbyn aelod o'r Cyngor ond ni chafodd ei hymchwilio iddi.
- Cafodd 4 o gwynion eu cofnodi yn erbyn cynghorau tref a chymuned; ni ymchwiliwyd i 1 gŵyn ac ni welwyd tystiolaeth o dorri rheolau yn y 3 achos arall.

- Roedd llythyrau blynyddol blaenorol yn graddio pob Cyngor mewn trefn ond nid dyma'r achos bellach. Mae'r perfformiad ar gyfer CSYM i'w weld yn y tablau a ddarperir yn y Llythyr Blynyddol.

**4. Gwybodaeth Ychwanegol.**

Ynghyd â'r Llythyr Blynyddol, cyhoeddir gwybodaeth ar bryderon, cwynion a chanmoliaethau yn fisol ar wefan y Cyngor yn https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cymryd-rhan/Cwynion-swyddogol/Ystadegau-cwynion-y-cyngor.aspx

Darperir y Tîm Arweinyddiaeth Strategol ag Adroddiadau Chwarterol hefyd.

Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiad blynyddol ar gwynion ym mis Medi bob blwyddyn. Bydd/mae'r adroddiad ar gyfer 2021/22 yn/wedi ei adrodd i'r Pwyllgor ar 21 Medi 2022.
https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=125&MId=3729&Ver=4&LLL=1

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Nid oedd unrhyw opsiynau eraill |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; ar gais yr OGCC. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Amherthnasol |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol |

| **E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Pwrpas y Polisi Cwynion Corfforaethol yw dysgu gwersi pan fydd pethau'n |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-** | mynd yn anghywir a gwneud newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth yn ôl yr angen a lle bo hynny'n bosibl.<br><br>Mae'r ffeithiau a gyflwynir yn cyfrannu at adeiladu gwell gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:-** | |
| **5** | **Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.** | Bydd cwynion Iaith Gymraeg yn cael eu delio â nhw ar wahân ac yn cael eu hadrodd yn yr Adroddiad ar Safonau'r Iaith Gymraeg 2021-22. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylwadau |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Fel rhan o'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Awdur yr adroddiad |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Cyhoeddir yr adroddiad hwn i'r holl aelodau etholedig |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Copi o'r Llythyr Blynyddol 2021/22 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| --- |
| Dim |

OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

Gofynnwch am: Cyfathrebu

01656 641150

cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

Dyddiad: Awst 2022

Cyngh. Llinos Medi
Cyngor Sir Ynys Môn
Trwy Ebost yn unig: llinosmedihuws@anglesey.gov.uk

**Llythyrau Blynyddol 2021/22**

Annwyl Cynghorydd Medi

Mae'n falch gennyf gyflwyno'r Llythyr Blynyddol (2021/22) i chi ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn sy'n ymdrin â chwynion yn ymwneud â chamweinyddu a methiant gwasanaeth, cwynion yn ymwneud ag achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr, a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella gwasanaethau cyhoeddus.

Dyma fy llythyr blynyddol cyntaf ers ymgymryd â rôl yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ebrill 2022, ac rwy'n gwerthfawrogi bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn dal i deimlo effeithiau'r pandemig. Ni fu ein swyddfa yn rhydd rhag hyn, gyda mwy o achosion nag erioed yn cael eu cyfeirio atom dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r berthynas waith gref rhwng fy Swyddfa ag Awdurdodau Lleol yn parhau i ddarparu gwelliannau yn y ffordd rydym yn ymdrin â chwynion ac yn sicrhau, pan aiff pethau o chwith, ein bod yn dysgu o hynny ac yn adeiladu gwasanaethau cyhoeddus cryfach.

**Cwynion yn ymwneud â Chamweinyddu a Methiant Gwasanaeth**

Y llynedd, cynyddodd nifer y cwynion a gyfeiriwyd atom yn ymwneud ag awdurdodau lleol o 47% (o gymharu â ffigyrau 20/21) ac rydym bellach yn derbyn llawer mwy o gwynion o gymharu â chyn y pandemig. Mae'n debygol y cafodd cwynion i'm swyddfa, a gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, eu celu yn ystod y pandemig, ac rydym bellach yn dechrau gweld yr effaith 'adlam' ddisgwyliedig.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom ymyrryd (cadarnhau, setlo neu ddatrys yn y cam cynnar) cyfran debyg o gwynion am gyrff cyhoeddus, sef 18%, o gymharu â blynyddoedd diweddar. Arhosodd cyfraddau ymyrryd (lle rydym wedi ymchwilio i gwynion) ar gyfer Awdurdodau Lleol ar lefel debyg hefyd – 14% o gymharu â 13% yn y blynyddoedd diwethaf.



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

**Cwynion yn ymwneud â’r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr**

Cawsom hefyd nifer uchel o gwynion y Cod Ymddygiad y llynedd, yn ymwneud â Phrif Gynghorau a Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned. Cyfeiriwyd y nifer uchaf erioed (20) at naill ai at Banel Dyfarnu Cymru neu bwyllgorau safonau lleol, oherwydd tystiolaeth o dorri’r Cod.

**Cefnogi gwella gwasanaethau cyhoeddus**

Yn ogystal â rheoli’r lefelau uchaf erioed o gwynion, gwnaethom hefyd barhau â’n gwaith gan ddefnyddio ein pwerau rhagweithiol yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Yn benodol, cynnal ein Hymchwiliad ar ein Liwt ein Hunain cyntaf a pharhau â’n gwaith ar yr Awdurdod Safonau Cwynion.

Ym mis Hydref 2021, gwelsom gyhoeddiad yr ymchwiliad ar ei liwt ei hun cyntaf yng Nghymru: Adolygiad Digartrefedd. Roedd yr ymchwiliad yn cynnwys tri Awdurdod Lleol ac yn ceisio craffu ar y ffordd y cafodd asesiadau Digartrefedd eu cynnal. Gwnaeth yr adroddiad argymhellion penodol i’r awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt, ynghyd ag awgrymiadau i bob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Bydd rhai o’r argymhellion hyn yn cyflwyno newidiadau yn syth - er enghraifft, diweddaru taflenni ffeithiau a thempledi llythyr ac asesiad i sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol allweddol yn cael eu gwreiddio’n rheolaidd i brosesau - cynlluniwyd pob argymhelliad i sicrhau newid gwirioneddol i bobl sy’n defnyddio gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru.

Parhaodd yr Awdurdod Safonau Cwynion ei waith â chyrff cyhoeddus yng Nghymru’r llynedd. Mae’r polisi cwynion enghreifftiol eisoes wedi’i fabwysiadu gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru ac rydym bellach wedi ymestyn hyn i gyfran gyntaf o Gymdeithasau tai a Chyfoeth Naturiol Cymru. Y nod yw gweithredu’r gwaith hwn ledled sector cyhoeddus Cymru.

Yn ogystal â hyn, am y tro cyntaf, cyhoeddodd yr Awdurdod Safonau Cwynion wybodaeth am gwynion y mae awdurdodau lleol wedi ymdrin â nhw – cyflawniad allweddol ar gyfer y gwaith hwn. Dengys data ar gyfer 21/22:

- Cofnodwyd dros 15,000 o gwynion gan Awdurdodau Lleol
- 4.88 am bob 1000 o breswylwyr.
- Cadarnhawyd bron i hanner (46%) y cwynion hynny.
- Ymchwiliwyd i oddeutu 75% ohonynt o fewn 20 diwrnod gwaith.
- Yn y pen draw, cyfeiriwyd oddeutu 8% o’r holl gwynion a gaewyd at OGCC.

Mae'r Awdurdod Safonau Cwynion bellach wedi gweithredu polisi cwynion enghreifftiol gyda bron i 50 o gyrff cyhoeddus, ac wedi darparu 140 o sesiynau hyfforddi, yn rhad ac am ddim, yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Bu’r adborth yn ardderchog, ac mae’r hyfforddiant wedi bod yn boblogaidd iawn – felly byddwn yn annog Cyngor Sir Ynys Môn i ymgysylltu cymaint â phosibl.

**Cwynion a wnaed i'r Ombwdsmon**

Mae crynodeb o'r cwynion yn ymwneud â chamweinyddu/methiant gwasanaeth a dderbyniwyd mewn cysylltiad â'ch Cyngor wedi'i atodi, ynghyd â chrynodeb o'r cwynion Cod Ymddygiad yn ymwneud ag aelodau'r Cyngor a Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned eich ardal.

Yn sgil y dyletswyddau newydd ar arweinwyr gwleidyddol a phwyllgorau safonau i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad eu haelodau, edrychwn ymlaen at weithio gyda chi, eich Swyddog Monitro a phwyllgorau safonau i rannu unrhyw ddysgu o'r cwynion a gawn ac i gefnogi gwaith eich awdurdod.

Byddwn hefyd yn croesawu adborth ar adolygiad eich Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ran gallu eich awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol fel y gallwn gymryd hyn i ystyriaeth yn ein gwaith a chefnogi ei waith ar ymdrin â chwynion.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i chi a'ch swyddogion am y ffordd gadarnhaol y mae Awdurdodau Lleol wedi ymgysylltu â'm Swyddfa i'n galluogi i gyflawni'r cyflawniadau hyn yn ystod yr hyn sydd wedi bod yn flwyddyn heriol i bawb. Edrychaf ymlaen yn fawr at barhau â'r gwaith a'r cydweithio hwn i sicrhau ein bod yn gwella gwasanaethau cyhoeddus ymhellach ledled Cymru.

Ymhellach i'r llythyr hwn, a gaf ofyn i'ch Cyngor gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gynorthwyo aelodau yn eu gwaith craffu ar berfformiad y Cyngor a rhannu unrhyw adborth gan y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyda fy swyddfa.
- Parhau i ymgysylltu â'n gwaith Safonau Cwynion, rhoi hyfforddiant i'ch staff, gweithredu'r polisi enghreifftiol yn llawn a darparu data cwynion.
- Rhoi gwybod imi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn 30 Medi.

Mae'r ohebiaeth hon yn cael ei chopïo i Brif Weithredwr eich Cyngor a'ch Swyddog Cyswllt. Yn olaf, bydd copi o'r holl Lythyrau Blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan.

Yn gywir,

**Michelle Morris**
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus**

cc.Dylan Williams, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn.
Trwy Ebost yn unig: dylanwilliams@ynysmon.gov.uk

## **Taflen Ffeithiau**

Atodiad A - Cwynion a Gafwyd

| **Awdurdod Lleol** | **Cwynion a Gafwyd** | **Cwynion a dderbyniwyd fesul 1000 o drigolion** |
|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 14 | 0.20 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 55 | 0.37 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 60 | 0.33 |
| Cyngor Caerdydd* | 182 | 0.50 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 54 | 0.29 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 52 | 0.72 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 27 | 0.23 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 34 | 0.36 |
| Cyngor Sir y Fflint | 99 | 0.63 |
| Cyngor Gwynedd | 39 | 0.31 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 29 | 0.41 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 27 | 0.45 |
| Cyngor Sir Fynwy | 20 | 0.21 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 45 | 0.31 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 40 | 0.26 |
| Cyngor Sir Penfro | 39 | 0.31 |
| Cyngor Sir Powys | 55 | 0.42 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 51 | 0.21 |
| Cyngor Abertawe | 71 | 0.29 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 18 | 0.19 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 61 | 0.46 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 71 | 0.52 |
| **Cyfanswm** | **1143** | **0.36** |

* gan gynnwys 17 Rhentu Doeth Cymru

Atodiad B - Cwynion a Gafwyd yn ôl Pwnc

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Cwynion a Gafwyd** | **% rhannu** |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | 6 | 21% |
| Gweinyddu Budd-daliadau | 0 | 0% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 2 | 7% |
| Cyfleusterau Cymunedol. Adloniant a Hamdden | 1 | 3% |
| Ymdrin â Chwynion | 3 | 10% |
| Covid19 | 0 | 0% |
| Addysg | 0 | 0% |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 1 | 3% |
| Cyllid a Threthiant | 2 | 7% |
| Tai | 5 | 17% |
| Trwyddedu | 0 | 0% |
| Cynllunio a Rheoli Adeiladu | 7 | 24% |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 2 | 7% |
| Amrywiol Eraill | 0 | 0% |
| Cyfanswm | 29 | |





Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

Atodiad C - Canlyniadau Cwynion
(* yn dynodi ymyrraeth)

| | Tu hwnt i Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion eraill wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Datrys yn Gynnar/Setliad Gwirfoddol* | Wedi rhoi'r gorau iddi | Adroddiadau Eraill – Ni Chadarnhawyd | Adroddiadau eraill a gadarnhawyd* | Adroddiadau er Budd y Cyhoedd* | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 8 | 7 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 28 |
| | 29% | 25% | 36% | 11% | 0% | 0% | 0% | 0% | |

Atodiad D - Achosion lle ymyrrodd OGCC

| | **Nifer yr ymyriadau** | **Nifer y cwynion a gaewyd** | **% o ymyriadau** |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 0 | 13 | 0% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 7 | 54 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 7 | 58 | 12% |
| Cyngor Caerdydd | 45 | 159 | 28% |
| Cyngor Caerdydd - Rhentu Doeth Cymru | 1 | 16 | 6% |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 7 | 49 | 14% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 13 | 46 | 28% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 2 | 24 | 8% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 4 | 33 | 12% |
| Cyngor Sir y Fflint | 15 | 94 | 16% |
| Cyngor Gwynedd | 6 | 41 | 15% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3 | 28 | 11% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 2 | 26 | 8% |
| Cyngor Sir Fynwy | 2 | 21 | 10% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 5 | 45 | 11% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 4 | 36 | 11% |
| Cyngor Sir Penfro | 2 | 40 | 5% |
| Cyngor Sir Powys | 7 | 55 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 3 | 45 | 7% |
| Cyngor Abertawe | 10 | 76 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 2 | 20 | 10% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 9 | 62 | 15% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 4 | 67 | 6% |
| **Cyfanswm** | **160** | **1108** | **14%** |



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

## Atodiad E - Cwynion Y Cod Ymddygiad

| | Wedi rhoi'r gorau iddi | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu | Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |

## Atodiad F - Cwynion Cod Ymddygiad Cynghorau Tref/Cyngor Cymuned

| | Wedi rhoi'r gorau iddi | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu | Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Tref Amlwch | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Cymuned Llanddona | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Cymuned Llanddyfnan | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Cymuned Rhosybol | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

Taflen Wybodaeth

Mae Atodiad A yn dangos nifer y cwynion a dderbyniwyd gan OGCC ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2021/2022.  Caiff y cwynion hyn eu rhoi mewn cyd-destun yn seiliedig ar nifer y bobl y mae pob bwrdd iechyd yn eu gwasanaethu yn ôl pob sôn.

Mae Atodiad B yn dangos categori pob cwyn a dderbyniwyd, a pha gyfran o'r cwynion a dderbyniwyd sy'n cynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad C yn dangos canlyniadau'r cwynion a gaeodd OGCC mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol yn 2021/2022. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad D yn dangos Cyfraddau Ymyrru ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2021/2022.  Mae ymyrraeth yn cael ei gategoreiddio naill ai gan gŵyn a gadarnhawyd (naill ai cadarnhawyd er budd y cyhoedd neu cadarnhawyd nid er budd y cyhoedd), penderfyniad cynnar, neu setliad gwirfoddol.

Mae Atodiad E yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas ag Awdurdod Lleol yn 2021/2022. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran, y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad F yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol.  Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150   01656 641199   ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | Gorffennaf 2022 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2021/22 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Christian Branch<br>Pennaeth Gwasanaeth / Head of Service<br>Rheoleiddio a Economaidd / Regulation and Economic<br>ChristianBranch@ynysmon.llyw.uk<br>01248 752491 |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Stephen Nicol<br>Prif Ymgynghordydd Iechyd a Diogelwch Corf./Principal Corporate Health & Safety Advisor<br>Rheoleiddio a Economaidd / Regulation and Economic<br>StephenNicoll@ynysmon.llyw.cymru<br>01248 751884 / 07747 118 402 |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Rhoi gwybod i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am berfformiad yr Awdurdod mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch yn ystod y cyfnod Ebrill 1af 2021 i 31 Mawrth 2022 | |

## Cyflwyniad

1. Mae’r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn nodi y bydd adroddiad blynyddol yn cael ei ysgrifennu mewn perthynas a pherfformiad Iechyd a Diogelwch. Cyflwynir yr adroddiad mewn fformat a nowdwyd gan WLGA i alluogi cynnwys gwybodaeth allweddol. Mae’r adroddiad yn bresennol yn Atodiad A

## Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu:

    - ystyried yr adroddiad a'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys

# Adroddiad Iechyd a Diogelwch 2021 / 22

# Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

## Crynodeb

- **Rheolaeth Gorfforaethol** – sefydlwyd Tîm Ymateb Rheoli Argyfwng (EMRT) i oruchwylio rheolaeth yn ystod argyfwng Covid19. Mae hyn bellach wedi'i ddiddymu ac mae'r rheolwyr wedi dychwelyd yn ôl i'r Uwch Dîm Rheoli.

- **Gwybodaeth Ystadegol** – cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd yn 2020/21 oedd 966 gyda 4 yn cael eu hadrodd i'r HSE fel gofyniad cyfreithiol. Cyfanswm y digwyddiadau staff yn unig oedd 188. Roedd hyn yn cynnwys y 4 adroddiad i'r HSE. Roedd y ddau ffigur hyn yn gynnydd bach ar y flwyddyn flaenorol, a ystyriwyd i fod oherwydd codi cyfyngiadau a mwy o weithgarwch. Roedd y ffigurau hyn yn dal yn is na'r ffigurau cyn-Covid.

- **Hyfforddiant Corfforaethol** – mae hyfforddiant rhithwir ac ar-lein wedi disodli rhai cyrsiau a allai fod wedi'u gwneud wyneb yn wyneb yn flaenorol.
  Lle bu hyfforddiant wyneb yn wyneb yn hanfodol, mae wedi'i gynnal gyda rheolaethau diogelwch ar waith. Bu cynnydd mewn hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn.

  Mae hyfforddiant wedi cynnwys Coronafeirws, Lles Ariannol, Iechyd a Ffitrwydd, Iechyd Meddwl, Diogelu a Lles yn y Gwaith.

  Mae hyn wedi bod er mwyn lleihau effeithiau posibl argyfwng Covid19.

- **Gwaith partneriaeth** – cyfathrebu gyda sefydliadau allanol i gynorthwyo gyda rhannu gwybodaeth a chynorthwyo gweithio effeithiol yn ystod argyfwng Covid19. Mae hyn wedi cynnwys awdurdodau eraill Gogledd Cymru, Prifysgol Leeds ac MSPRAC.

- **Grŵp Iechyd a Diogelwch** – mae cyfarfodydd Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch o fewn y cyngor wedi parhau, wedi'u galluogi gan gyfarfodydd rhithwir. Mae hyn wedi caniatáu ymgynghori ar draws holl Wasanaethau'r Cyngor

- **Iechyd Galwedigaethol** – mae darpariaeth gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol wedi'i gynnal yn ystod y cyfnod 2020/21. Mae hyn wedi'i alluogi gan apwyntiadau rhithwir ac yn bersonol.

- **Cyflawniadau allweddol** –

- Rheolaeth effeithiol gan EMRT

- Bod yn un o'r awdurdodau cyntaf i weithredu monitro CO2 fel mesur rheoli gyda chydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru

- Datblygu rhaglenni (E-ddysgu) ar-lein

- Hyblygrwydd ac ymrwymiad gan yr holl staff

- **Cefnogaeth Iechyd a Diogelwch** – mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi parhau i ddarparu cefnogaeth ar draws yr holl Wasanaethau yn ystod y cyfnod hwn.

- **Gweithredu Strategol** – mae'r Cynllun Gweithredu Strategol yn parhau fel tri phrif bwynt Cynllun, Gwneud, Adolygu.  Cynllunio gwaith ymlaen llaw, Gwneud y gwaith yn unol â chynlluniau ac Adolygu i sicrhau gwaith effeithiol

- **Casgliad** – Mae'r Cyngor wedi addasu i newidiadau sylweddol yn y dulliau o weithio'n ddiogel tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned. Mae hyn wedi galluogi nodi dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau ac o bosibl gweithio mewn modd mwy effeithlon.

CYNNWYS


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 4 |
| 2 | Rheolaeth Gorfforaethol | 4 |
| 3 | Gwybodaeth Ystadegol | 5 |
| 4 | Darpariaeth Hyfforddiant Corfforaethol | 9 |
| 5 | Partneriaethau | 17 |
| 6 | Ymgynghori ar y Cyd | 18 |
| 7 | Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol | 18 |
| 8 | Prif Lwyddiannau | 18 |
| 9 | Perfformiad Diogelwch | 19 |
| 10 | Cynllun Gweithredu Strategol | 20 |
| 11 | Casgliad | 20 |
| 12 | Argymhelliad | 21 |


## 1 Cyflwyniad

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys ymrwymiad i baratoi a chyhoeddi Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi datblygu fframwaith a chanllawiau ar gyfer paratoi Adroddiad Perfformiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol. Mae'r fframwaith a'r canllawiau yn darparu cyfres o benawdau i'w helpu wrth adrodd am berfformiad iechyd a diogelwch. Ni fwriadwyd i'r fframwaith hwn fod yn ddadansoddiad cynhwysfawr o iechyd a diogelwch ond dylai helpu i nodi ymrwymiad, gallu a chyfeiriad y modd y rheolir iechyd a diogelwch galwedigaethol. Mae'r adroddiad yn dilyn y fformat a ddarperir gan CLlLC.

## 2 Rheolaeth Gorfforaethol yn ystod Pandemig COVID 19

Ffurfiwyd Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng (EMRT) yn 2020 i oruchwylio'r modd y rheolwyd gwaith Cyngor Sir Ynys Môn yn ystod argyfwng Covid19. Roedd hyn yn caniatáu trosolwg o'r holl weithgareddau a'r holl waith ymatebol oedd ei angen yn ystod yr argyfwng. Cyfarfu'r EMRT yn rheolaidd i sicrhau bod penderfyniadau rheoli gwybodus ac amserol yn cael eu gwneud ar gyfer gwaith a darparu gwasanaethau.

Ffurfiwyd is-grwpiau er mwyn gallu rhoi mwy o ffocws ar feysydd pwnc penodol fel darparu cyfarpar diogelu personol, cyfathrebu, Profi, Olrhain, Diogelu, brechlynnau, ac ati. Sefydlwyd trefniadau gwaith effeithiol a dibynadwy o gartref ar gyfer gweithwyr swyddfa, tra bod gwasanaethau rheng flaen a gweithwyr yn cael eu llywio gan asesiadau risg penodol a mesurau diogelwch cysylltiedig.

Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio ailddechreuodd mwy o weithgareddau gwaith. Ffurfiwyd Grŵp Agor i asesu asesiadau risg a chynlluniau gweithredu ar gyfer ailddechrau gwaith ac er mwyn gallu "agor" adeiladau a gwasanaethau cysylltiedig. Asesodd y grŵp hwn y rhagofalon diogelwch a oedd yn eu lle i ganiatáu hyn a pharhawyd i wneud gwaith monitro dilynol.

Lluniwyd Polisi Gweithio Hybrid i ganiatáu cydbwysedd rhwng gweithio yn y swyddfa a gweithio gartref.

Parhaodd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) i sicrhau bod gwaith a threfniadau llywodraethu'r cyngor yn parhau o ran rheolaeth gyffredinol a chamau gweithredu, gyda phenderfyniadau'n dal i gael eu gwneud gan y Pwyllgor Gwaith. Cefnogwyd hyn gan gyfarfodydd y Grŵp Penaethiaid er mwyn gallu uwchgyfeirio unrhyw faterion i'r UDA i sicrhau bod modd cymryd camau priodol i ddatrys materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch neu eraill.

Lluniwyd y Cynllun Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2020/21 i fynd i'r afael â'r gofynion presennol a'r rhai oedd yn datblygu yn ystod yr argyfwng. Mae rhai camau gweithredu o gynllun 2020/21 wedi eu cynnwys yng nghynllun 2021/22 yn sgil cydnabod y risgiau parhaus a'r gofynion o ran byw a gweithio, a darparu gwasanaethau tra bod Covid19 yn dal yma.

## 3 Gwybodaeth Ystadegol

Mae'r data a gyflwynir isod yn cynnwys yr holl ddamweiniau a'r digwyddiadau a gofnodwyd yn ystod 2021/22. Mae damweiniau a digwyddiadau wedi eu rhannu'n fewnol i dri chategori - Mân, Difrifol a RIDDOR.

Mân ddamweiniau a digwyddiadau yw damweiniau / digwyddiadau sy'n arwain at anaf neu golled ansylweddol. Mae hyn yn cynnwys damweiniau a digwyddiadau na arweiniodd at unrhyw anaf na cholled ac mae'n bosibl y byddai'r canlyniad yn ansylweddol pe bai anaf neu golled wedi digwydd.

Caiff damweiniau / digwyddiadau difrifol eu dosbarthu fel rhai sy'n arwain at anaf neu golled sylweddol neu lle'r oedd potensial am anaf neu golled sylweddol. Mae hyn yn cynnwys damweiniau a digwyddiadau na arweiniodd at unrhyw anaf na cholled ond mae'n bosibl y byddai'r canlyniad yn sylweddol pe bai anaf neu golled wedi digwydd.

Damweiniau a digwyddiadau RIDDOR yw damweiniau neu ddigwyddiadau sy'n bodloni meini prawf penodol sy'n gofyn am adrodd i'r HSE. Darperir y meini prawf ar gyfer adrodd ynghylch y mathau hyn o ddamweiniau a digwyddiadau o fewn Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus.

Mae'r tabl isod yn cyflwyno nifer y damweiniau a'r digwyddiadau ar gyfer yr awdurdod cyfan. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau'n ymwneud â'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, disgyblion ysgol, contractwyr, cyfleusterau yn ogystal â gweithwyr.

### Adrodd am bob digwyddiad

**Tabl 1 - Pob digwyddiad 2021/22**

<table>
<tr><td rowspan="5">
</td><td>Digwyddiadau a Gofnodwyd yn 2021/22</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm 966</td></tr>
<tr><td>Mân 815</td></tr>
<tr><td>Difrifol 147</td></tr>
<tr><td>RIDDOR 4</td></tr>
</table>

**Tabl 2 - Pob digwyddiad 2020/21**

<table>
<tr><td rowspan="5">
</td><td>Digwyddiadau a Gofnodwyd yn 2021/22</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm 655</td></tr>
<tr><td>Mân 546</td></tr>
<tr><td>Difrifol 108</td></tr>
<tr><td>RIDDOR 1</td></tr>
</table>

**Tabl 3 - Pob digwyddiad 2019/20**

<table>
<tr><td rowspan="5">
</td><td>Digwyddiadau a Gofnodwyd yn 2019/20</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm 1275</td></tr>
<tr><td>Mân 1096</td></tr>
<tr><td>Difrifol 171</td></tr>
<tr><td>RIDDOR 8</td></tr>
</table>

Mae dadansoddiad o Dablau 1, 2 a 3 yn dangos gostyngiad sylweddol yn nifer y digwyddiadau yn 2020/21 (Tabl 2) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (Tabl 3). Ystyrir bod y gostyngiad hwn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r ffaith bod nifer llai o wasanaethau'n gweithredu, gan gynnwys ysgolion. Fel arfer digwyddiadau a gofnodwyd gan ysgolion fyddai'r nifer fwyaf a gofnodid fesul Gwasanaeth. Gan fod ysgolion ar gau am gyfnodau yn ystod 2020/21 byddai hyn yn cyfrif am y gostyngiad yn nifer y digwyddiadau a gofnodwyd.

Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio/codi mae cynnydd wedi bod o ran gwaith. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y digwyddiadau yn 2021/22 (Tabl1).

Dylai cymharu 2019/20 a 2021/22 roi darlun cywirach na chymharu â 2020/21. Yn seiliedig ar y gymhariaeth hon bu gostyngiad yn nifer yr achosion. Mae'n bosibl mai'r rheswm am hyn yw bod mesurau rheoli diogelwch yn parhau i fod mewn grym wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio.

**Achosion gweithwyr yn unig**

Mae'r tablau isod yn cyflwyno nifer y damweiniau a'r digwyddiadau sy'n ymwneud â gweithwyr yn unig.

**Tabl 4 – Digwyddiadau yn ymwneud â gweithwyr yn unig 2021/22**

<table>
<tr><td rowspan="5">
</td><td>Cyfanswm Nifer y Digwyddiadau (Gweithwyr yn unig)</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm 188</td></tr>
<tr><td>Mân 161</td></tr>
<tr><td>Difrifol 23</td></tr>
<tr><td>RIDDOR 4</td></tr>
</table>

**Tabl 5 – Digwyddiadau'n ymwneud â gweithwyr yn unig 2020/21**

<table>
<tr><td rowspan="5">
</td><td>Cyfanswm Nifer y Digwyddiadau (Gweithwyr yn unig)</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm 180</td></tr>
<tr><td>Mân 159</td></tr>
<tr><td>Difrifol 20</td></tr>
<tr><td>RIDDOR 1</td></tr>
</table>

**Tabl 6 – Digwyddiadau'n ymwneud â gweithwyr yn unig 2019/20**

| | |
|---|---|
|  | **Cyfanswm Nifer y Digwyddiadau (Gweithwyr yn unig)** |
| | **Cyfanswm 271** |
| | **Mân 237** |
| | **Difrifol 27** |
| | **RIDDOR 7** |

Mae dadansoddiad o Dablau 4, 5 a 6 yn dangos gostyngiad yn nifer y digwyddiadau yn 2020/21 (Tabl 5) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (Tabl 6 2019/20). Yn 2021/22 (Tabl 4) bu cynnydd bach dros y flwyddyn flaenorol.

Ystyrir mai'r rheswm am y gostyngiad yn 2020/21 oedd bod llai o weithgareddau'n digwydd o dan gyfyngiadau Covid19.

Efallai mai'r rheswm dros y cynnydd bach yn 2021/22 yw bod mesurau rheoli llym yn parhau mewn grym wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen yn sgil argyfwng Covid19. Efallai bod y ffaith bod staff yn fwy ymwybodol o risg oherwydd argyfwng Covid19 wedi cael effaith, gan arwain at ddull mwy gofalus o weithio. Efallai bod mwy o ymwybyddiaeth o'r angen am asesu risg ar gyfer gwaith wedi rhoi mwy o ffocws ar weithio mwy diogel.

## 4 Darpariaeth Hyfforddiant Corfforaethol

Er gwaethaf effaith barhaus y pandemig COVID-19, cynigiwyd mwy o hyfforddiant Iechyd a Diogelwch ac roedd cynnydd yn nifer y staff a fynychodd gyrsiau. Gallai hyn adlewyrchu'r ffaith ei bod yn rhwydd cael mynediad at hyfforddiant ar Zoom neu MS Teams. Oherwydd newidiadau diweddar yn y canllawiau Covid, ailgyflwynwyd dysgu wyneb yn wyneb yn raddol lle bynnag yr oedd hynny'n bosib.

Cynhaliwyd cyfanswm o 52 sesiwn Iechyd a Diogelwch corfforaethol yn llwyddiannus ac roedd hyn yn gynnydd o 300% yn y ddarpariaeth hyfforddiant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, pan fu'n rhaid canslo neu ohirio cyfran uchel o hyfforddiant, yn bennaf oherwydd cyfyngiadau covid/problemau staffio.

O ganlyniad, roedd cynnydd o 289% mewn presenoldeb o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda chyfanswm o 315 unigolyn yn mynychu.

Dylid nodi, pryd bynnag yr oedd yn bosib cynnal hyfforddiant wyneb yn wyneb, y byddai cyfyngiadau ar niferoedd wedi bod ar waith gan olygu fod y grwpiau yn llai fesul sesiwn.

**Tabl 7 – Sesiynau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, Ebrill 2021 – Mawrth 2022**

| Cwrs | Sesiynau a Gynhaliwyd | Nifer a Fynychodd |
|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth Asbestos | 4 | 18 |
| Bancsmon | 3 | 12 |
| Cymorth Cyntaf mewn Argyfwng | 7 | 45 |
| Ymwybyddiaeth Tân yn y Cartref | 2 | 27 |
| Marsialiaid Tân | 1 | 3 |
| Diogelwch Tân | 6 | 52 |
| Cymorth Cyntaf yn y Gwaith | 4 | 23 |
| Hyfforddiant Diweddaru Cymorth Cyntaf | 4 | 15 |
| Hyfforddiant Wagen Fforch Godi | 1 | 4 |
| Sut i gynnal Asesiad Risg | 1 | 7 |
| Rheoli Iechyd a Diogelwch (IOSH) | 1 | 11 |
| Ymwybyddiaeth o Legionella | 2 | 6 |
| Codi a Chario | 4 | 13 |
| P405 Hyfforddiant Diweddaru Asbestos | 1 | 7 |
| Hyfforddiant Tŵr PASMA | 3 | 17 |
| Diogelwch Personol | 6 | 49 |
| Hyfforddiant Peiriant Codi Siswrn | 2 | 6 |

Parhaodd E-ddysgu i fod yn ddull arall o gwrdd ag anghenion hyfforddi yn ystod y pandemig parhaus, gyda chyfanswm o 461 o bobl yn cwblhau hyfforddiant mewn 8 gwahanol fodiwl. Er bod gostyngiad o 33% yn y nifer a oedd yn cwblhau modiwlau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae hyn i'w ddisgwyl oherwydd y defnydd helaeth a welwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol a'r cynnydd yn nifer y sesiynau ystafell ddosbarth eleni.

Mae Tabl 2 isod yn rhoi trosolwg o'r hyfforddiant E-ddysgu a gwblhawyd.

Trefnwyd hyfforddiant E-ddysgu ar Asbestos ac Ymwybyddiaeth Legionella, yn benodol ar gyfer yr Uned Cynnal a Chadw Tai, yn ystod y flwyddyn flaenorol ac roedd hyn yn parhau eleni. Mewn perthynas ag Ymwybyddiaeth Asbestos, cwblhaodd 4 unigolyn ychwanegol y modiwl yn ystod 2021-22, gan ddod â'r cyfanswm a gwblhaodd y modiwl i 59. Trefnwyd y modiwl Ymwybyddiaeth Legionella tuag at ddiwedd y flwyddyn flaenorol, ac fe'i cwblhawyd gan 28 o unigolion yn ystod 2021-22, ac mae cyfanswm o 36 unigolyn wedi cwblhau'r modiwl.

Treialwyd modiwl Gweithio ar Uchder mewnol yn llwyddiannus yn yr Uned Gynnal a Chadw Tai yn ystod y cyfnod hwn, a chwblhawyd y modiwl gan 32. Yn ogystal, gwnaed trefniadau e-ddysgu allanol pellach, yn benodol mewn perthynas â Chodi a Chario. Cafodd y modiwl e-ddysgu Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, ei lansio yn ystod mis Mai 2021 a dyna'r rheswm pam fod y rhan fwyaf o staff wedi ei gwblhau yn ystod y cyfnod hwn.

**Tabl 8 – Modiwlau E-Ddysgu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a Gwblhawyd, Ebrill 2021 – Mawrth 2022**




## Sector Gofal Cymdeithasol

Parhawyd i drefnu cyrsiau Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol, a threfnwyd cyfanswm o 26 digwyddiad yn benodol yn ystod y flwyddyn (gweler Tabl 3 isod) ac roedd cyfanswm o 196 unigolyn wedi mynychu.

Yn yr un modd â'r trefniadau Corfforaethol, roedd cynnydd o 257% yn y ddarpariaeth hyfforddiant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a chynnydd o 243% mewn presenoldeb.

**Tabl 9 – Sesiynau Iechyd a Diogelwch Gofal Cymdeithasol, Ebrill 2021 – Mawrth 2022**

| Cwrs | Sesiynau a Gynhaliwyd | Nifer a Fynychodd |
|---|---|---|
| Lleddfu ac Ymatebion Gofidus | 1 | 11 |
| Meddyginiaeth Gofal Cartref | 1 | 9 |
| Rheoli Heintiau | 3 | 16 |
| Ymwybyddiaeth Rheoli Heintiau | 1 | 11 |
| Ymwybyddiaeth o Feddyginiaeth | 2 | 21 |
| Meddyginiaeth | 1 | 12 |
| Cymorth Cyntaf Pediatrig | 3 | 22 |
| Codi a Chario | 9 | 48 |
| Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch Personol | 3 | 23 |
| Hyfforddiant RESPECT | 2 | 23 |

Unwaith eto, roedd E-ddysgu yn parhau i fod yn agwedd annatod o'r ddarpariaeth hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn, a chwblhawyd 10 o fodiwlau Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Sector Gofal Iechyd a/neu wedi eu lleoli ar y Dangosfwrdd Gofal Cymdeithasol ar y Gronfa Ddysgu 568 o weithiau. Roedd gostyngiad o 34% yn nifer y modiwlau a gwblhawyd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond, unwaith eto, mae'n debygol fod hyn oherwydd bod sesiynau ystafell ddosbarth/wedi eu harwain gan diwtor wedi ailgychwyn eleni.

Mae Tabl 4 isod yn rhoi trosolwg o'r modiwlau E-ddysgu a gwblhawyd. Fodd bynnag, rhaid nodi bod modiwlau Diogelwch Bwyd Lefel 2 a 3, ac Iechyd a Diogelwch Lefel 2 wedi'u trefnu ar gyfer cynulleidfa darged benodol, tra bod gweddill y modiwlau ar gael i'r holl staff, ac yn naturiol felly mae'r cyfraddau cwblhau yn is.

**Tabl 10 – Modiwlau Iechyd a Diogelwch Gofal Cymdeithasol a Gwblhawyd, Ebrill 2021 – Mawrth 2022**




## Iechyd a Llesiant

Lansiwyd y Categori Iechyd a Llesiant ar y Gronfa Ddysgu yn ystod mis Mawrth 2021, sef ailwampiad o'r dudalen Llesiant Gweithio o Gartref a lansiwyd yn wreiddiol yn ystod y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020.

Yn ystod 2021-22, edrychodd 159 o ddefnyddwyr ar y categori Iechyd a Llesiant gyfanswm o 5,409 o weithiau.

Er bod y ffigyrau hyn yn sylweddol is na'r flwyddyn flaenorol, mae'n debygol mai'r rheswm am hyn yw bod llai o fomentwm ar ôl ei lansio'n wreiddiol, yn ogystal â'r ffaith y gwelwyd gweithgarwch digynsail yn ystod y cyfnod blaenorol oherwydd ansicrwydd y pandemig a'r cyfnodau clo ar y pryd.

**Tabl 11 – Tudalennau Iechyd a Llesiant: Nifer o weithiau yr edrychwyd ar y Tudalennau yn erbyn Defnyddwyr Unigryw, Ebrill 2021 – Mawrth 2022**




Wrth arfarnu'r nifer o weithiau yr edrychwyd ar bob tudalen unigol, mae Tabl 6 isod yn dangos fod Coronafeirws yn parhau i fod yn destun pryder a/neu ddiddordeb gan mai'r dudalen hon yr edrychwyd arni amlaf yn y Categori, sef 34% o'r cyfanswm. Hefyd ymysg y tri phwnc mwyaf poblogaidd roedd Diogelu (15%) ac Iechyd Meddwl (15%). Derbyniodd y ddwy dudalen sylw unigryw yn ystod yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol, Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl ac Wythnos Iechyd Dynion.

**Tabl 12 – Nifer o weithiau yr edrychwyd ar dudalennau unigol yn y categori Iechyd a Llesiant, Ebrill 2021 – Mawrth 2022**




Trefnwyd cyfanswm o 38 sesiwn yn ymwneud ag Iechyd a Llesiant e.e. iechyd meddwl, gwydnwch, lles ariannol ac ati, a mynychodd cyfanswm o 409 aelod o staff y sesiynau hyn. Dengys hyn gynnydd o ran y ddarpariaeth hyfforddiant a phresenoldeb o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda chynnydd o 80% yn y ddarpariaeth hyfforddiant a chynnydd o 83% mewn presenoldeb.

**Tabl 13 – Sesiynau Iechyd, Llesiant a Chymorth Personol Corfforaethol, Ebrill 2021 – Mawrth 2022**

| Cwrs | Sesiynau a Gynhaliwyd | Nifer a Fynychodd |
|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o Bryder | 1 | 8 |
| Trechu'r Felan | 1 | 6 |
| Datblygu Gwydnwch a Llesiant yn y Gweithle | 1 | 11 |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu Gwydnwch a Llesiant yn y Gweithle ar gyfer Rheolwyr | 2 | 24 |
| *Cheesy Puffs* a Fi | 1 | 14 |
| Dangos – Dangos Pobl Sut i Helpu Eraill | 1 | 9 |
| Rhesymeg E-bost – Arferion E-bost a Llesiant | 9 | 108 |
| Ymwybyddiaeth Ariannol | 1 | 7 |
| Atal Twyll | 3 | 101 |
| Ymwybyddiaeth Gamblo | 1 | 5 |
| Sut i fod yn Wydn yn y Gweithle | 1 | 11 |
| Menopos yn y Gweithle | 1 | 20 |
| Llesiant Meddyliol yn y Gwaith ar gyfer Rheolwyr | 3 | 20 |
| Cynllunio Ariannol Canol Gyrfa | 2 | 4 |
| Llesiant Corfforol | 1 | 14 |
| Sesiwn Cyn Ymddeol | 7 | 32 |
| Gwydnwch ar gyfer yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth | 1 | 11 |
| Siarad, Dysgu, Gwneud – Gweithdy Dysgu am Arian | 1 | 4 |

Yn ogystal, cynigiwyd cyfanswm o 7 sesiwn yn ymwneud ag Iechyd a Llesiant yn benodol i staff Gofal Cymdeithasol, a mynychodd cyfanswm o 61 y sesiynau hyn. Roeddent yn ymwneud yn bennaf ag Iechyd Meddwl a Gwydnwch. Mae ffigyrau ar gyfer y ddarpariaeth hyfforddiant yn gyson â'r flwyddyn flaenorol a gwelwyd gostyngiad o 2% yn unig mewn presenoldeb.

**Tabl 14 – Sesiynau Iechyd a Llesiant Gofal Cymdeithasol, Ebrill 2021 – Mawrth 2022**

| **Cwrs** | **Sesiynau a Gynhaliwyd** | **Nifer a Fynychodd** |
|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o Bryder ar gyfer Staff | 2 | 16 |
| Sut i fod yn Wydn yn y Gweithle (Rheolwyr) | 1 | 7 |
| Sut i fod yn Wydn yn y Gweithle (Staff) | 1 | 16 |
| Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl | 1 | 8 |
| Ymwybyddiaeth o Ymwybyddiaeth Ofalgar | 2 | 14 |

Unwaith eto, defnyddiwyd E-ddysgu. Fodd bynnag, yn yr un modd ag E-ddysgu Iechyd a Diogelwch, yn naturiol, roedd gostyngiad o 40% yn nifer y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant.

Cwblhawyd 6 gwahanol fodiwl E-ddysgu 449 o weithiau yn 2021-22. Gellir gweld dadansoddiad o'r modiwlau a gwblhawyd, fesul modiwl, yn Nhabl 9 isod. Dylid nodi

fod y niferoedd ar gyfer Gwydnwch ac Ymwybyddiaeth o Bryder yn naturiol yn uwch gan iddynt gael eu lansio tua diwedd y cyfnod diwethaf ym mis Chwefror 2021.

**Tabl 15 – Nifer Modiwlau E-ddysgu Iechyd a Llesiant a Gwblhawyd, Ebrill 2021 – Mawrth 2022**




## 5 Partneriaethau

### Timau Iechyd a Diogelwch Gogledd Cymru

Mae gwaith cyfyngedig wedi'i wneud rhwng Timau Iechyd Corfforaethol a Diogelwch yng Ngogledd yn ystod argyfwng COVID19. Bu peth cyfathrebu o ran ceisiadau am gyngor ar faterion penodol yn ymwneud â COVID19.

### Sefydliadau Allanol

Archwiliwyd mesurau rheoli pellach i fynd i'r afael â'r mesurau rheoli risgiau ar gyfer COVID19 gyda MSPRAC a Phrifysgol Leeds.

### Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Y prif gyswllt gyda'r HSE yn ystod y cyfnod 2021/22 fu ymateb i'r Arolygon yn y Gweithle ynghylch trefniadau COVID-Ddiogel. Hyd yn hyn mae pob un wedi bod yn foddhaol.

## 6 Ymgynghori ar y Cyd

### Grŵp Iechyd a Diogelwch

Cafodd cyfarfodydd Rhithwir y Grŵp Iechyd Corfforaethol a Diogelwch eu cynnal yn ystod 2021/22. Roedd y cyfarfod yn fodd i Gydlynwyr Iechyd a Diogelwch o wasanaethau ar draws y cyngor cyfan rannu gwybodaeth a phrofiad o fesurau rheoli ac addasiadau a weithredwyd i ddelio â'r risgiau gan COVID19.

## 7 Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol

Darperir Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol dwyieithog gan Gyngor Sir Gwynedd, sy'n cael ei reoli gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol. Mae ychydig dros 450 o apwyntiadau ar gael i staff bob blwyddyn. Caiff y rhain eu neilltuo drwy atgyfeiriad gan reolwr llinell neu hunan-atgyfeiriad gan yr aelod o staff. Mae tua 200 o apwyntiadau ar gael i staff sy'n teimlo y byddant yn elwa o gael ffisiotherapi, gwneir yr apwyntiadau hyn trwy atgyfeiriad gan y tîm Iechyd Galwedigaethol yn dilyn ymgynghoriad.

Mae apwyntiadau wedi bod yn cael eu cynnal dros y we lle bo modd yn ystod argyfwng Covid19. Wrth i gyfyngiadau gael eu codi, mae mwy o apwyntiadau wyneb yn wyneb wedi eu cynnal.

## 8 Prif Lwyddiannau

### EMRT

Gallai'r modd y cafodd argyfwng Covid19 ei Reoli gan yr EMRT gael ei ystyried yn llwyddiant allweddol. Roedd EMRT wedi hwyluso cysylltiadau cyfathrebu a gweithio gyda phartneriaid allanol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Rhoddodd y grŵp EMRT drosolwg o'r modd y rheolwyd yr holl weithgareddau yn ystod argyfwng Covid19. Daeth y grŵp EMRT i ben yn swyddogol ym mis Chwefror 2022.

### Cyfarpar Diogelu Personol (PPE-

Dylid ystyried y trefniadau i barhau i gyflenwi a dosbarthu cyfarpar diogelu personol drwy argyfwng Covid19 yn llwyddiant allweddol. Mae hyn wedi cynnwys cyflenwi PPE i sefydliadau y tu allan i'r Cyngor.

### Monitro CO2

Roedd darn sylweddol o waith a wnaed gan Gyngor Sir Ynys Môn yn monitro lefelau CO2 dan do. Gwnaed hyn i gychwyn mewn ysgolion a chartrefi gofal. Adroddwyd ynghylch y gwaith i Lywodraeth Cymru a daeth yn fesur rheoli cydnabyddedig i leihau'r risg o COVID19.

### Cronfa Ddysgu

Dylid ystyried y trefniadau i barhau i ddarparu'r Gronfa Ddysgu fel dull o ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant yn llwyddiant allweddol. Mae hyn wedi galluogi staff a phartneriaid allanol i gael mynediad at wybodaeth berthnasol a ddylai gynorthwyo gyda'u hiechyd a'u diogelwch.

**Staff**

Dylid ystyried hyblygrwydd ac ymrwymiad staff yr holl wasanaethau i ddarparu gwasanaethau parhaus mewn modd diogel trwy'r argyfwng yn llwyddiant allweddol. Mae staff rheng flaen wedi parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i bobl a chymunedau Ynys Môn, er gwaethaf y risgiau personol i'w diogelwch eu hunain.

Dylai hyn gynnwys y parodrwydd i addasu wrth i gyfyngiadau gael eu codi.

## 9 Perfformiad Diogelwch

### Cefnogaeth Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cynnwys tri aelod craidd, Prif Ymgynghorydd, Ymgynghorydd Cynorthwyol ac Ymgynghorydd Dan Hyfforddiant.

Cafwyd 1200 o Geisiadau am Wasanaeth i'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn ystod 2021/22. Roedd angen Cyngor a Chymorth ar 964 o geisiadau, roedd angen Cyngor ar 236 yn unig. Mae Ceisiadau am Wasanaeth yn cynnwys mynychu cyfarfodydd rheoli, adolygu asesiadau risg a gweithdrefnau diogelwch a chyngor cyffredinol.

**Tabl 16 – Dadansoddi Ceisiadau am Wasanaeth Ebrill 2021 – Mawrth 2022**

| Pwrpas y Cais | Nifer |
|---|---|
| Mynychu Cyfarfod EMRT | 21 |
| Mynychu Is-Grwpiau o EMRT | 59 |
| Adroddiad i Benaethiaid | 4 |
| Adroddiad i gyfarfodydd Rheoli Gwasanaeth | 12 |
| Sesiynau Cynefino Iechyd a Diogelwch Athrawon / Llywodraethwyr Ysgol | 3 |
| Adolygu'r drefn Asesu Risg / y Weithdrefn Ddiogelwch | 330 |
| Cyngor Cyffredinol / Ceisiadau am Wybodaeth | 771 |

Mae disgwyl i sefydliadau adrodd ynghylch rhai digwyddiadau i'r HSE. Mae amserlenni ar gyfer adrodd ynghylch y math yma o ddigwyddiadau, ac ymateb iddynt. Un dangosydd perfformiad ar gyfer y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yw ymateb i ddigwyddiadau RIDDOR o fewn pum diwrnod.

Cafodd tri digwyddiad RIDDOR eu hadrodd yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Cafodd y rhain eu hadrodd o fewn yr amserlen gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

Mae'n ofynnol rhoi gwybod am ddigwyddiadau am achosion o ddal COVID19 yn uniongyrchol oherwydd gweithgaredd gwaith. Dim ond un achos o hyn fu yn ystod argyfwng COVID19 a digwyddodd hyn yn ystod y flwyddyn 2021/22

## 10 Cynllun Gweithredu Strategol

| Cynllun Gweithredu Strategol | |
|---|---|
| **CYNLLUN** | Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (CHSAP)<br>Datblygwyd y CHSAP i fynd i'r afael â meysydd lle gwyddom fod angen gwelliant parhaus.<br><br>Cynlluniau Gweithredu Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth (SHSAP) – Bydd yr UDA a Phenaethiaid yn cytuno ar y rhain.<br><br>Dylid cynllunio SHSAPs i fynd i'r afael â meysydd lle gwyddom fod angen gwelliant parhaus i'r Gwasanaeth perthnasol. Dylai SHSAP ystyried rheolaeth barhaus "busnes fel arfer" y Gwasanaeth. Bydd y Cyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth perthnasol yn cytuno ar y SHSAP.<br><br>Bydd Cynlluniau ac Asesiadau Risg yn cael eu datblygu gan y Gwasanaeth perthnasol sy'n ymwneud â'r gwaith. |
| **CAMAU** | Gweithredir CHSAP gan Bob Gwasanaeth - bydd camau o'r CHSAP yn cael eu cwblhau yn ôl y gofyn. Bydd y gwaith o fonitro cynnydd yn cael ei wneud drwy gyfrwng gwasanaethau sy'n adrodd ynghylch cynnydd i'r Grŵp Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.<br><br>Gweithredir CHSAP gan y Gwasanaethau Perthnasol – bydd camau gweithredu o'r SHSAP yn cael eu cwblhau yn ôl y gofyn. Bydd y gwaith o fonitro cynnydd yn cael ei wneud a'i adrodd yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli Gwasanaeth perthnasol neu'r Grŵp Iechyd a Diogelwch. Bydd y gwasanaethau yn adrodd ynghylch cynnydd ar eu SHSAP i'r Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. |
| **ADOLYGU** | Bydd adolygiadau chwarterol yn cael eu cynnal ar gynnydd y CHSAP gan y Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.<br>Bydd yr adolygiad yn ystyried cynnydd camau gweithredu, effeithiolrwydd camau a weithredwyd a chamau posibl.<br><br>Bydd adolygiadau chwarterol yn cael eu cynnal ar gynnydd yr SHSAPs gan y Tîm Rheoli Gwasanaethau perthnasol neu Grwpiau Iechyd a Diogelwch<br>Bydd yr adolygiad yn ystyried cynnydd camau gweithredu, effeithiolrwydd camau a weithredwyd a chamau posibl. |

## 11 Casgliad

Mae argyfwng COVID19 wedi parhau i gael dylanwad mawr ar y gwaith a wnaed gan y cyngor yn ystod y flwyddyn. Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Tîm Penaethiaid oedd mwyafrif aelodau'r Grŵp EMRT. Rhoddodd y Grŵp EMRT a'r Is-grwpiau drosolwg o drefniadau i sicrhau bod mesurau rheoli priodol ar waith wrth i'r cyfyngiadau lacio.

Bydd y gwaith o gynnal trosolwg o Reolaeth Iechyd a Diogelwch yn cael ei drosglwyddo i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid. Dylai hyn ganiatáu rheolaeth debyg i'r hyn a wnaed gan yr EMRT.

Mae'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2022/23 yn cynnwys camau sy'n dal i fod yn berthnasol o gynlluniau blynyddoedd blaenorol. Mae hyn o bosibl oherwydd bod COVID19 yn dal yma a gan fod prosesau gwaith yn cael eu haddasu mewn amgylchedd gwaith sy'n newid.

Mae rhai o'r ffrydiau gwaith a ddatblygwyd oherwydd yr argyfwng wedi dangos manteision ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2022/23.

## 12 Argymhelliad

Dylai'r Cyngor ddilyn y cynllun strategol ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch a gweithredu'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 28 Medi 2022 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-22 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:** Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth archwilio mewnol arfarnu'r posibilrwydd y bydd twyll yn digwydd a sut mae'r sefydliad yn rheoli'r risg o dwyll (Safon 2120). | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r gweithgaredd a gynhaliwyd yn ystod 2021-22 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd rhag digwydd o fewn y Cyngor ac yn ei erbyn.

1.2. Mae hyn yn cefnogi gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, 2018, sydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth archwilio mewnol arfarnu'r posibilrwydd y bydd twyll yn digwydd a sut mae'r sefydliad yn rheoli'r risg o dwyll (Safon 2120).

1.3. Hefyd, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sydd yn datgan bod rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y Cyngor (Swyddog Adran 151) sicrhau bod ei systemau rheolaeth cyfrifeg yn cynnwys mesurau sy'n caniatáu i wallau a thwyll gael eu hatal a'u canfod.

1.4. Mae'r adroddiad yn amlygu rhai o'r meysydd risg twyll cyfredol a rhai sy'n esblygu, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â'r pandemig Covid-19, ac mae'n dod i gasgliad ynghylch effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer lleihau'r risg o dwyll.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a yn ystyried ac yn cynnig sylwadau ar gweithgaredd a gynhaliwyd yn ystod 2021-22 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd rhag digwydd o fewn y Cyngor ac yn ei erbyn.




# ADRODDIAD BLYNYDDOL ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD 2021-22

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Pennaeth Archwilio a Risg**

MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru

**Medi 2022**

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **RHAGARWEINIAD** | **3** |
| **BETH YW TWYLL?** | **4** |
| **BETH YW LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD?** | **5** |
| **PAM FOD ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD YN BWYSIG?** | **6** |
| **Y CYD-DESTUN CYFREDOL** | **7** |
| Trefniadau Cymru gyfan ar gyfer atal twyll | 7 |
| **RISGIAU TWYLL CYFREDOL A RISGIAU SY'N ESBLYGU** | **8** |
| **ASESIAD O DREFNIADAU ATAL TWYLL YNG NGHYNGOR SIR YNYS MÔN** | **9** |
| Cydnabod cyfrifoldeb | 9 |
| Nodi risgiau o dwyll a llygredd | 10 |
| Strategaeth atal twyll a llygredd | 11 |
| Darparu adnoddau | 11 |
| Gweithredu | 12 |
| **ACHOSION O GEISIO TWYLLO'R CYNGOR YN YSTOD 2021-22** | **13** |
| **CASGLIAD** | **14** |
| **HERIAU A CHYFLEOEDD YN Y DYFODOL** | **15** |
| **ATODIAD 1 – TUEDDIADAU TROSEDDAU TWYLL Y NFIB** | **16** |
| **ATODIAD 2 - RHYBUDDION Y RHWYDWAITH GWRTH-DWYLL CENEDLAETHOL (NAFN)** | **17** |

# RHAGARWEINIAD

Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno’r gweithgaredd a gynhaliwyd yn ystod 2021-22 i leihau’r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd rhag digwydd o fewn y Cyngor ac yn ei erbyn.

Mae hyn yn cefnogi gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, 2018, sydd yn ei gwneud yn ofynnol i’r gwasanaeth archwilio mewnol arfarnu’r posibilrwydd y bydd twyll yn digwydd a sut mae’r sefydliad yn rheoli’r risg o dwyll (Safon 2120).

Hefyd, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sydd yn datgan bod rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y Cyngor (Swyddog Adran 151) sicrhau bod ei systemau rheolaeth cyfrifeg yn cynnwys mesurau sy’n caniatáu i wallau a thwyll gael eu hatal a’u canfod.

Mae’r adroddiad yn amlygu rhai o’r meysydd risg twyll cyfredol a rhai sy’n esblygu, gan gynnwys y rhai hynny sy’n gysylltiedig â’r pandemig Covid-19, ac mae’n dod i gasgliad ynghylch effeithiolrwydd trefniadau’r Cyngor ar gyfer lleihau’r risg o dwyll a’r heriau a chyfleoedd i’r dyfodol.

# BETH YW TWYLL?

Mae twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn golygu ymddygiad sy’n sicrhau mantais annheg neu anghyfreithlon.  Gellir diffinio twyll fel ymddygiad troseddol sy’n sicrhau mantais annheg, anghyfiawn neu anghyfreithlon ac mae fel arfer yn disgrifio gweithgareddau megis lladrata, llygredd, gwyngalchu arian, cynllwyn, llwgrwobrwyo ac ecstorsiwn.

Cyn ei ddeddfu o fewn y gyfraith, derbyniwyd yn gyffredinol bod twyll yn gysyniad cyfreithiol eang a oedd yn cyfeirio’n gyffredinol at weithred ryngwladol a oedd yn cael ei chyflawni i sicrhau mantais annheg neu anghyfreithlon ac roedd yn cael ei gynnwys mewn deddfwriaeth droseddol amrywiol eraill megis Deddf Lladrata 1968.

Fodd bynnag, ers hynny, mae twyll wedi dod yn drosedd ynddo’i hun. Mae Deddf Twyll 2006 yn amlinellu tair ffordd y gellir cyflawni’r drosedd:




Mae Canolfan Atal Twyll CIPFA yn argymell y diffiniad a ganlyn:

**Mae twyll yn drosedd caffaelgar sy'n golygu dwyn (lladrata) drwy ryw fath o ddichell neu gamliwio.**

# BETH YW LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD?

Daeth Deddf Llwgrwobrwyo 2010 i rym yn 2011. Nod y Ddeddf oedd diwygio a chyfuno'r deddfwriaethau llwgrwobrwyo a oedd mewn bodolaeth. Y mae hefyd wedi symleiddio ac ehangu'r ystod o droseddau y gall unigolion a sefydliadu gael eu herlyn am eu cyflawni

Mae'r troseddau hyn yn cynnwys:

- Llwgrwobrwyo naill ai'n uniongyrchol neu trwy drydydd parti
- Derbyn llwgrwobr
- Llwgrwobrwyo swyddog tramor
- Methiant gan sefydliad masnachol i atal llwgrwobrwyaeth (trosedd gorfforaethol)

Yn gyffredinol mae llwgrwobrwyo yn cynnwys cynnig, addo neu roi mantais ariannol neu fantais arall er mwyn cymell rhywun i gyflawni swyddogaeth gyhoeddus neu weithgarwch busnes mewn modd amhriodol neu eu gwobrwyo am wneud hynny. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi ystyriaeth arbennig i feysydd gweithgarwch penodol, yn cynnwys lletygarwch a rhoddion.

Mae llygredd yn golygu diffyg uniondeb neu onestrwydd (ac fe all gynnwys llwgrwobrwyo) neu gamddefnyddio statws i sicrhau mantais anghyfreithlon. O bersbectif cyfreithiol, mae llygredd yn anoddach i'w ddiffinio, gan fod ymddygiadau a ystyrir yn rhai llwgr mewn rhai gwledydd yn cael eu diogelu gan fframwaith cyfreithiol mewn gwledydd eraill. Mae hyn yn arbennig o wir mewn achosion yn gysylltiedig â llwgrwobrwyaeth.

Rydym ni'n dehongli llygredd fel naill ai ymddygiad twyllodrus neu weithgareddau yn ymwneud â llwgrwobrwyaeth.

# PAM FOD ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD YN BWYSIG?

Gall twyll effeithio ar ei enw da'r sector cyhoeddus ac arallgyfeirio cyllid oddi wrth wasanaethau cyhoeddus holl bwysig, gan danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd, cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd sefydliadol. Mae twyll, gwyngalchu arian a chyllido terfysgaeth, yn ogystal â llwgrwobrwyo a llygredd, wedi tyfu'n aruthrol i fod yn aflwydd rhyngwladol sy'n herio llywodraethau cenedlaethol a diwydiannau preifat fel ei gilydd.

Mae CIPFA, yn ei adroddiad tracio twyll a llygredd diweddaraf, sef y *National Fraud and Corruption Tracker* (2020), yn cydnabod bod pob punt a gollir oherwydd twyll yn golled i'r pwrs cyhoeddus ac mae'n lleihau gallu'r sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau i bobl sydd eu hangen.

Mae llawer mwy i weithgaredd atal twyll llwyddiannus nag arbed arian yn unig. Gall y gweithgareddau anghyfreithlon hyn danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd. Pan fydd cynghorau'n cymryd camau atal twyll effeithiol byddant yn ailadeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd, ac yn sicrhau bod arian prin yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

Yng Nghymru, roedd adroddiad diweddar yr Archwiliwr Cyffredinol (2019) yn tynnu sylw at y ffaith y gallai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fod yn colli hyd at £1 biliwn y flwyddyn o ganlyniad i dwyll. Mewn cyfnod o gynni, mae'n bwysicach nac erioed bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru'n ceisio lleihau'r risg o golledion oherwydd twyll.

Mae CIPFA yn dadlau

> "mae cyfrifoldeb ar arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i wreiddio safonau effeithiol ar gyfer atal twyll a llygredd yn eu sefydliadau. Mae hyn yn cefnogi llywodraethiant da ac yn arddangos stiwardiaeth ariannol effeithiol a rheolaeth ariannol gyhoeddus effeithiol".

# Y CYD-DESTUN CYFREDOL

## Trefniadau Cymru gyfan ar gyfer atal twyll

Yn dilyn trosglwyddo ymchwilwyr twyll o Lywodraeth Leol i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn 2014, nid oes gan y mwyafrif o gynghorau yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, adnodd atal twyll pwrpasol ar draws y cyngor mwyach, ac yn lle hynny dynodwyd y rôl atal twyll yn y Cyngor i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Yn 2019 adroddodd adolygiad gan yr Archwiliwr Cyffredinol o drefniadau atal twyll ar draws y sector cyhoeddus bod yr adnoddau a glustnodir i weithgaredd atal twyll yn amrywio'n fawr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Ar draws llywodraeth leol yng Nghymru, mae trefniadau atal twyll yn amrywio'n fawr o gyngor i gyngor ac nid oes unrhyw dîm Cymru gyfan yn gyfrifol am weithgareddau atal twyll mewn llywodraeth leol nac unrhyw strategaeth gyffredinol neu fframwaith polisi.

Er mwyn llenwi'r bwlch, yng Ngogledd Cymru'n, yn ddiweddar ffurfiwyd is-grŵp o Bartneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru i rannu a gyrru arfer da mewn perthynas ag atal twyll. Mae'r grŵp yn parhau i gwrdd yn chwarterol ac mae'n cydweithio i ddatblygu gwaelodlin ar gyfer trefniadau gwrth-dwyll ar draws y saith awdurdod lleol yng ngogledd a chanolbarth Cymru.

# RISGIAU TWYLL CYFREDOL A RISGIAU SY'N ESBLYGU

Pan darodd y pandemig gorfodwyd pawb i fynd ar-lein, ac roedd yr un peth yn wir am droseddwyr. Yn ôl y ffigurau diweddaraf ar dueddiadau ym maes twyll gan y Swyddfa Gwybodaeth Twyll Genedlaethol (NFIB), yn 2020-21, roedd 80% o'r achosion o dwyll a adroddwyd yn eu cylch wedi eu seiber-alluogi. Yn sgil y rhyfel yn Wcráin, cyfraddau chwyddiant uwch nag erioed a'r argyfwng costau byw, ynghyd â risgiau busnes-gritigol eraill megis diffyg yn y gadwyn gyflenwi, cadw staff, a bygythiadau seiber, mae'r risg o dwyll wedi cynyddu, ac mae twyllwyr yn cymryd mantais o'r sefyllfa ac yn defnyddio offer soffistigedig i gyflawni twyll.

Mae Baromedr Twyll y KPMG ar gyfer 2021[1] yn awgrymu y bydd bygythiadau mewnol yn dod yn fwy cyffredin a bod hynny'n gysylltiedig â gwendid mewn dulliau rheoli mewnol o ganlyniad i effaith COVID-19, wrth i sefydliadau barhau i ymdopi â ffyrdd newydd o weithio o bell. Yn sgil y pryder cyffredinol ynglŷn â'r cynnydd sylweddol mewn costau byw, mae'r KMPG yn darogan y bydd hyn yn ysgogi ychwaneg o achosion o dwyll drwy 'fygythiadau mewnol' yn 2022.

Mae twyll yn dal i fod yn her sylweddol i awdurdodau lleol ac er nad yw'r ffigyrau swyddogol ar gyfer y sector yn gyfredol, yr un yw'r dadleuon dros amddiffyn cronfeydd a phobl fregus. O'r holl achosion tybiedig o dwyll yn y sector cyhoeddus yn y DU yn 2019-2020 roedd twyll y dreth gyngor, gwerth tua £35.9m, i gyfrif am bron i ddau draean (65%) o'r achosion o dwyll a ganfuwyd, ac yna twyll consesiynau parcio i'r anabl a thwyll tai, a oedd i gyfrif am 17% a 11% o'r achosion yn y drefn honno.

Yn y DU y maes twyll sy'n tyfu gyflymaf ydi twyll tenantiaeth tai, gyda thua £60.1m yn cael ei golli yn 2019-2020 o'i gymharu â £47.7m yn 2018-19. Yr ail faes ydi'r gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd unigol (y gostyngiad person sengl), gyda chynnydd o tua £9.6m ar ben yr achosion a ganfuwyd/ataliwyd yn 2018-19 sy'n dod â'r cyfanswm i tua £29.0m. Yn fwy diweddar, mae Cifas[2] yn adrodd bod ymosodiadau ar awdurdodau lleol yn parhau gydag unigolion yn defnyddio cwmnïau sydd wedi mynd i'r wal, sydd wedi'u diddymu neu sydd ddim yn bodoli i hawlio grantiau COVID; camddefnyddio tai gwag i ymgeisio am grantiau a chwmnïau'n cael grantiau drwy ddefnyddio dogfennau ffug.

[1] Baromedr Twyll KPMG 2021: Cipolwg ar Dwyll yn y DU, Chwefror 2022
[2] Gwybodaeth Allweddol, System Osgoi Twyll y Diwydiant Credyd (Cifas), Ionawr 2022

# ASESIAD O DREFNIADAU ATAL TWYLL YNG NGHYNGOR SIR YNYS MÔN

Mae CIPFA yn cymeradwyo set gyffredin o egwyddorion ar draws y gwasanaethau cyhoeddus er mwyn gwella arfer atal twyll, sy'n cael eu nodi yn ei ddogfen, **Code of Practice on Managing the Risk of Fraud and Corruption** (2014). Gan ddefnyddio'r cod hwn fel meincnod cynhaliwyd asesiad yn erbyn y pum egwyddor a gellir gweld crynodeb lefel uchel o'r canlyniadau isod.

## Cydnabod cyfrifoldeb

Mae egwyddor gyntaf y Cod yn argymell y dylai'r corff llywodraethu gydnabod ei gyfrifoldeb am sicrhau fod yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll a llygredd yn cael eu rheoli'n effeithiol ar draws pob rhan o'r sefydliad.

Mae'r dogfennau a ddisgwylir fel rhan o ymateb atal twyll cyngor ar gael ar fewnrwyd y Cyngor, er nad ydynt wedi cael eu hyrwyddo yn benodol o fewn y sefydliad. Mae fframwaith o bolisïau'n bodoli, fel yr argymhellir yn y canllawiau, ac mae meddalwedd derbyn polisïau yn monitro a yw staff yn deall ac yn derbyn y polisïau. Cyflwynwyd y polisïau a ganlyn i staff er mwyn iddynt gadarnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ohonynt:

| Polisi | Fel ar | Cyfradd Cydymffurfio | Statws Presennol |
|---|---|---|---|
| **Cod Ymddygiad Swyddogion a Chanllawiau Lleol** | 20/09/2022 | 92% (997 o 1,078) | Byw |
| **Polisi a Chanllawiau Chwythu'r Chwiban** | 20/09/2022 | 93% (998 o 1,078) | Byw |

Fodd bynnag, er bod Cod Ymddygiad y Cyngor yn rhoi cyfarwyddyd ar ddatgan gwrthdaro rhwng buddiannau, ynghyd â chyngor ychwanegol yn y Canllaw Lleol ar y Cod Ymddygiad i Swyddogion a'r ffurflen Datgan Buddiannau Personol, nid yw'n datgan yn glir pryd a chyda pwy y dylid datgan buddiant. Mae'n ddibynnol ar ymwybyddiaeth, disgresiwn a barn yr unigolyn. Hefyd, nid yw'r Cyngor yn cofnodi a monitro datganiadau'n ganolog, ac felly nid oes ffordd o oruchwylio unrhyw wrthdaro posib rhwng buddiannau ar lefel gorfforaethol. Hefyd, nid oes rhaid i aelodau o baneli sy'n rhan o ymarferion caffael ddatgan p'un ai a oes ganddynt unrhyw sy'n gwrthdaro ai peidio.

Byddai hyn yn helpu i wella a hyrwyddo diwylliant sy'n ymwybodol o dwyll ledled y Cyngor.

Fel rhan o Strategaeth Gwrth-dwyll 2022-2025 yn ystod 2022-23 bydd rhaglen gynhwysfawr yn cael ei chyflawni er mwyn diweddaru'r polisi, codi ymwybyddiaeth o brosesau gwrth-dwyll a chyflwyno pecyn e-ddysgu. Bydd adolygiad archwilio mewnol o'r broses ar gyfer datgan buddiannau yn cael ei gynnal yn ogystal.

## Nodi risgiau o dwyll a llygredd

Mae'r ail egwyddor yn argymell bod adnabod y risg o dwyll yn hanfodol er mwyn deall achosion penodol o fod yn agored i risg, newid ym mhatrymau'r bygythiad o dwyll a llygredd, a'r canlyniadau posib i'r sefydliad a'i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r Cod yn cefnogi ystyried risgiau o dwyll a llygredd fel risgiau busnes ac iddynt gael eu rheoli fel rhan o broses rheoli risg y sefydliad. Mae gan y Cyngor broses rheoli risg aeddfed, ac mae'r risg o dwyll wedi cael ei ystyried a'i asesu'n ffurfiol fel rhan o'r broses hon.

Yn 2021-22 daeth adolygiad archwilio mewnol o'r trefniadau ar gyfer rheoli risg a llygredd i'r casgliad bod gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau i'w ddiogelu rhag y risg o dwyll a llygredd mewn perthynas â gweithgareddau caffael. Fodd bynnag, roedd cyfleoedd i wella'r trefniadau hyn drwy ddiweddaru dogfennau, creu diwylliant sy'n ymwybodol o risg o fewn y gweithlu a datblygu mesurau atal twyll rhagweithiol o fewn y swyddogaeth caffael. Eir i'r afael â'r rhain yn ystod 2022-23 a chânt eu cynnwys yn Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd diwygiedig y Cyngor ar gyfer 2022-2025.

Mae Cyfansoddiad y Cyngor, ei Bolisi Twyll a Llygredd a'i Gynllun Ymateb i Dwyll yn datgan yn glir bod rhaid hysbysu'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Archwilio a Risg os tybir bod twyll neu lygredd yn cael ei gyflawni. Er hyn, nid yw hyn wedi'i nodi yn y weithdrefn Ddisgyblu na'r weithdrefn Chwythu'r Chwiban. O ganlyniad mae'n bosib na fydd y tîm Adnoddau Dynol yn hysbysu'r Pennaeth Archwilio a Risg pan fydd ymchwiliad disgyblu i achos posib o dwyll. Mae risg felly na fydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymwybodol o bob achos o dwyll ac

anghysondebau posib, ac o ganlyniad mae'n bosib na fydd ymchwiliad archwilio mewnol yn cael ei gynnal ac na fydd camau ffurfiol yn cael eu cymryd.

Canfuwyd yn ystod yr adolygiad nad oedd y gofrestr contractau wedi cael ei diweddaru, ac er mai'r swyddog unigol a'r tîm sy'n gyfrifol am y contract fydd yn penderfynu sut i fynd ati i fonitro'r contract (mae'r trefniadau'n amrywio o un adran i'r llall), nid oes unrhyw fonitro'n cael ei wneud yn ganolog, drwy adrodd ar berfformiad a dadansoddi data, er mwyn canfod twyll, llwgrwobrwyo a llygredd. Mewn ymchwiliad diweddar amlygwyd pwysigrwydd monitro contractau ariannol ac mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 wedi ymrwymo i sefydlu cofrestr o fewn y Tîm Taliadau.

Fe wnaeth yr adolygiad mewnol hefyd amlygu y byddai hyfforddiant gwrth-dwyll i swyddogion sy'n rhan o brosesau caffael ar ran y Cyngor yn helpu i gynyddu eu hymwybyddiaeth o'r risg o dwyll yn y maes hwn. Cytunwyd ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwyr i fynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn rheoli'r risg o dwyll a llygredd yng ngweithgareddau caffael y Cyngor, a bydd y camau hyn yn cael eu monitro yn ystod 2022-23.

## Strategaeth atal twyll a llygredd

Mae'r drydedd egwyddor yn argymell bod angen strategaeth atal twyll ar sefydliadau sydd yn nodi ei ddull ar gyfer rheoli risgiau ac yn diffinio cyfrifoldebau am weithredu.

Mae gan y Cyngor strategaeth sydd wedi'i diffinio'n glir, a gymeradwywyd ar y lefel uchaf (gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ym mis Rhagfyr 2021), sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan helpu i sicrhau bod y Cyngor yn cymryd y risg o dwyll o ddifrif.

Hefyd, mae gan y Cyngor Bolisi Atal Twyll a Llygredd sy'n cael ei adolygu a'i gymeradwyo bob blwyddyn fel rhan o'r Cyfansoddiad.

## Darparu adnoddau

Mae'r bedwaredd egwyddor yn argymell y dylai sefydliadau wneud trefniadau ar gyfer adnoddau priodol i gefnogi'r strategaeth atal twyll. Yn y gorffennol, bu diffyg o ran buddsoddi a defnyddio adnoddau o fewn y Cyngor mewn perthynas â threfniadau atal twyll.

Oherwydd problemau staffio yn y tîm Archwilio Mewnol o ganlyniad i absenoldeb tymor hir, secondiad ac ymateb i'r pandemig COVID-19, cafodd y rhaglen gwrth-dwyll arfaethedig, a nodwyd yn y Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2021-2024, ei hail flaenoriaethu. O ganlyniad, ni sefydlwyd Gweithgor Gwrth-dwyll yn ystod 2021-22 a hyd yma nid oes unrhyw ffordd o adrodd yn ddienw ar achosion posib o dwyll. Fodd bynnag, penodwyd aelod o'r tîm Archwilio Mewnol a Rheoli Risg i fod yn gyfrifol am y canlynol:

- Cydlynu'r data y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddarparu i'r Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer yr ymarfer paru data a gynhelir bob dwy flynedd
- Ymchwilio i achosion risg uchel a ganfyddir yn ystod yr ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol
- Rhannu rhybuddion gan y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol gyda'r swyddogion perthnasol
- Cadeirio'r Grŵp Gwrth-dwyll o fewn y Cyngor
- Mynychu Gweithgor Gwrth-dwyll Partneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru

## Gweithredu

Mae'r egwyddor derfynol yn argymell bod sefydliadau yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r strategaeth atal twyll a llygredd ac i gymryd camau i atal, canfod ac ymchwilio twyll. Mae'n sefydlu y bydd y gallu i weithredu'n ddibynnol ar faint a natur sefydliad a maint ei gapasiti atal twyll. Fodd bynnag, beth bynnag yw maint gweithgareddau sefydliad, mae angen i'r sefydliad gymryd camau priodol ac adrodd ar y camau hynny i'w gorff llywodraethu.

Y ffordd orau o ymladd twyll yw drwy ei atal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Gellir cyflawni hyn drwy rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth. Yn ystod 2021-22:

- darparwyd tri sesiwn ymwybyddiaeth twyll i 90 aelod staff gan y Tîm Hyfforddi a Datblygu
- pwysleisiodd y Prif Weithredwr ei bod hi'n bwysig bod staff yn cwblhau'r modiwl Ymwybyddiaeth Seiber ar y Gronfa Ddysg
- rhannodd y tîm Archwilio Mewnol rybuddion gan y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol gydag adrannau perthnasol (gweler Atodiad 2)
- ymchwiliodd y tîm Archwilio Mewnol i ymgais i dwyllo drwy ailgyfeirio i barth maleisus.

# ACHOSION O GEISIO TWYLLO'R CYNGOR YN YSTOD 2021-22

Yn ystod 2021-22, daeth y tîm Archwilio Mewnol yn ymwybodol o dwyll mandad posib (pan fydd rhywun yn dynwared trydydd parti megis cyflenwr) yn dilyn ymgais i ddargyfeirio taliad gwerth £16,500.

Codwyd ymwybyddiaeth am y math yma o dwyll ledled y Cyngor drwy ddosbarthu rhybuddion gan y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol a sesiynau hyfforddi wedi'u targedu. O ganlyniad llwyddodd y Tîm Taliadau i ddarganfod y twyll a hysbysu'r tîm Archwilio Mewnol.

Yn dilyn ymchwiliad, cadarnhaodd y tîm Archwilio mewnol bod twyllwyr wedi llwyddo i fynd i mewn i system e-bost y cyflenwr ac fe wnaethant ei rybuddio.  Fe wnaeth Tîm Diogelwch adran TG y Cyngor flocio e-byst o'r parth hwn hyd nes y gallai'r cyflenwr roi sicrwydd iddynt ei fod wedi cymryd camau priodol i ddiogelu'r system e-bost.

Cafodd y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol ei hysbysu ynglŷn â'r digwyddiad.

# CASGLIAD

Mae rhyw lefel o dwyll yn debygol yn y sector cyhoeddus, hyd yn oed ystod cyfnodau arferol, ond roedd 2021221 yn flwyddyn o heriau heb eu tebyg wrth i'r pandemig Covid-19 barhau i drawsnewid gwaith y Cyngor a bywydau ei staff, a chafodd cyfyngiadau'r cyfnodau clo effaith sylweddol ar yr economi.

O wybod bod holl elfennau'r triongl twyll delfrydol sy'n caniatáu i dwyll ffynnu (cymhelliant, cyfle a rhesymoli) wedi cynyddu, rhagwelir y bydd twyll yn parhau i fod yn fygythiad ariannol sylweddol i gynghorau, ac nad oes unrhyw arwydd ei fod yn arafu.

Roedd Ynys Môn, a Chymru gyfan, mewn sefyllfa ffafriol o gymharu â'u cymdogion o ran achosion o dwyll, er hynny fe dderbyniodd Heddlu Gogledd Cymru rhwng tri a chwe mil o adroddiadau yn ystod y cyfnod adrodd. (Cyfeirir at hyn yn Atodiad 1)

Dioddefodd y Cyngor ei hun dwyll mandad, ond oherwydd ymyrraeth gyflym y Tîm Taliadau llwyddwyd i atal ail ymgais.

Mae sefydliadau sector cyhoeddus yn gyfrifol am reoli adnoddau cyhoeddus ac felly mae ganddynt gyfrifoldeb i ymladd twyll a llygredd. Mae sefydliadau sy'n mynd ati'n llwyddiannus i atal, canfod a rheoli pob math o dwyll nid yn unig yn rhoi cyllid cyhoeddus mewn sefyllfa gadarnach, ond maent hefyd yn lliniaru'r risg o golli morâl a rhoi enw drwg i'r sector cyhoeddus yn gyffredinol.

Mae rheoli'r risg o dwyll a llygredd yn effeithiol yn rhan hanfodol o unrhyw gyngor modern, effeithiol sy'n mynd ati i reoli ei adnoddau'n effeithlon er mwyn sicrhau gwerth am arian.

# HERIAU A CHYFLEOEDD YN Y DYFODOL

Yn genedlaethol, capasiti, neu adnoddau atal twyll digonol, yw’r prif fater canfyddedig y mae angen rhoi sylw iddo er mwyn mynd i’r afael yn effeithiol â’r risg o dwyll a llygredd. Hefyd, mae Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol yn rhybuddio sefydliadau sydd heb ystyried twyll fel blaenoriaeth yn draddodiadol i ail-werthuso’r modd y maent y rheoli a chyfathrebu risg.

Mae cynnydd enfawr yn nifer y bobl sy’n gweithio o bell yn rhoi cyfle i droseddwyr gyflawni twyll, pa un ai yw’n ymwneud â chynnig trwsio dyfeisiau fel y gallant gael mynediad i rwydwaith y Cyngor, neu drwy ddynwared neu hacio er mwyn ailgyfeirio taliadau yn faleisus.

Mae’r llywodraeth, asiantaethau gorfodi’r gyfraith, asiantaethau diogelwch, rheoleiddwyr a’r sector preifat yn parhau i weithio gyda’i gilydd i warchod y cyhoedd a busnesau rhag bob math o dwyll. Mae twyll yn hynod o anodd i’w ddarogan ac er eu bod yn monitro tueddiadau mewn troseddau yn ofalus, y peth pwysicaf yw cyfleu’r neges i staff ac i’r cyhoedd i fod yn ymwybodol ac yn effro.

Yn ogystal, mae angen amlwg am ymagwedd gadarn sy’n cael ei chefnogi gan aelodau etholedig, prif weithredwyr a’r rhai hynny sy’n gyfrifol am lywodraethiant. Bydd yn holl bwysig cael trefniadau cadarn a chefnogaeth gan y pwyllgor gwaith er mwyn sicrhau bod mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o’r sefydliad.

Yn olaf, mae gan ymddygiadau a gweithredoedd unigolion rôl holl bwysig wrth fynd i’r afael â risgiau twyll. Mae’n rhaid i bob un ohonom, yn staff ac aelodau fel ein gilydd, chwarae ein rhan i greu diwylliant sy’n elyniaethus i’r risgiau o dwyll a llygredd, a thynnu llinell glir rhwng ymddygiad derbyniol ac annerbyniol o fewn y Cyngor.

# ATODIAD 1 – TUEDDIADAU TROSEDDAU TWYLL Y NFIB

## FRAUD CRIME TRENDS

### REPORTING VOLUMES

**VOLUME**

875,622 reports received

Action Fraud: 413,945

Cifas: 318,379

UK Finance: 143,298

**TOP THREE FRAUD TYPES (EXCLUDING "OTHER FRAUD")**

1. Cheque, Plastic Card & Bank Account – 336,707 reports
2. Online Shopping and Auctions Fraud – 103,254 reports
3. Application Fraud (excluding mortgages) 91,593 reports

### LOSSES

**LOSS**

£2.35bn reported losses

**TOP THREE FRAUD TYPES (EXCLUDING NONE OF THE ABOVE)**

1. Other Financial Investment - £318m
2. Cheque, Plastic Card and Online Bank Accounts – £184m
3. Share Sales or Boiler Room Fraud - £171m

**DISSEMINATIONS**

58,210
reports disseminated
PURSUE: 35,209
PROTECT: 9,472
OTHER: 13,529

**OUTCOMES**

59,838
total outcomes received
11.5%
of all outcomes were Judicial

### GEOGRAPHICAL SPREAD




### KEY THREATS

The highest harm threats for 2021/22 are Courier, Romance, Payment Diversion, Investment, Computer Software Service and frauds linked to Card and Online Bank Accounts

80% of reported fraud is cyber enabled

Money mules persistently feature across most fraud types

Cloned investment companies are a threat to investment fraud

Social media and encrypted messaging services as an enabler is increasing throughout all aspects of fraud

Search engine optimisation is used by fraudsters to target victims

### HIGH RISK VICTIM INDICATORS

Volume:
20 - 39 years
Loss:
50 - 69 years

90%
Individuals

Gender
(Self-Defined)
Female – 51%
Male – 49%

OFFICIAL - NFIB FRAUD ASSESSMENT (PARTNERS) 2020/21

# ATODIAD 2 - RHYBUDDION Y RHWYDWAITH GWRTH-DWYLL CENEDLAETHOL (NAFN)

Mae NAFN yn sefydliad sector cyhoeddus sy'n darparu gwasanaeth data a gwybodaeth ac ar hyn o bryd mae'n cael ei gynnal gan Gyngor Bwrdeistref Fetropolitanaidd Tameside. Sefydlwyd NAFN yn 1997 gan grŵp o awdurdodau lleol craidd ar draws Cymru a Lloegr er mwyn cydweithio i gyfnewid gwybodaeth er mwyn mynd i'r afael â thwyll ar hyd a lles y wlad. Ar hyn o bryd mae bron i 90% o awdurdodau lleol yn aelodau, ynghyd ag awdurdodau cyhoeddus cysylltiedig, yn cynnwys darparwyr tai cymdeithasol.

Mae NAFN yn darparu pob math o wasanaethau data a gwybodaeth ac fe'i hystyrir yn ganolfan rhagoriaeth ar gyfer data a gwybodaeth sector cyhoeddus. Ynghyd â'n cydweithwyr yn yr adran Safonau Masnachu, rydym yn defnyddio NAFN at bob math o ddibenion. Mae gwasanaeth data a gwybodaeth NAFN yn darparu pwynt mynediad unigol diogel lle gallwn gael gafael ar bob math o ddarparwyr drwy byrth cyfreithiol cadarn a phrosesau sy'n bodloni'r safonau cydymffurfiaeth gyfreithiol uchaf.

Yn benodol, rydym yn defnyddio gwasanaeth NAFN i rybuddio cydweithwyr ynglŷn ag achosion o dwyll ar draws y sector yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhybuddion hyn wedi bod yn allweddol o ran cynyddu ymwybyddiaeth swyddogion, yn benodol y Tîm Taliadau, ynglŷn ag achosion o dwyll yn y sector. Mae'r graff isod yn dangos amrywiaeth a chwmpas y rhybuddio a dderbyniwyd ac a ddosbarthwyd ledled y Cyngor:



| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **21 MEDI 2022** |
| **PWNC:** | **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2021/22** |
| **AELOD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **R MARC JONES** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **JEMMA ROBINSON** |
| **Natur a rheswm am adrodd**<br><br>Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a gyda Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2021/22 (Atodiad 8 o Ddatganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2021/22). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac yna'r Cyngor Llawn ar ôl i'r Pwyllgor hwn graffu arno. | |

**1. Cyflwyniad**

Yn unol â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio adolygiad rheoli trysorlys blynyddol o'i weithgareddau a'r dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2021/22. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côd) a Chôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Côd Darbodus).

Yn ystod 2021/22, y gofynion adrodd sylfaenol oedd y dylai'r Cyngor llawn dderbyn yr adroddiadau a ganlyn:-

- strategaeth flynyddol ar gyfer y trysorlys cyn i'r flwyddyn gychwyn (derbyniwyd ar 9 Mawrth 2021);
- adroddiad diweddaru canol blwyddyn ar y trysorlys (derbyniwyd ar 10 Mawrth 2022);
- adolygiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ddod i ben yn disgrifio'r gweithgareddau o gymharu â'r strategaeth (yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddio yn gosod cyfrifoldeb ar Aelodau i adolygu a chraffu ar bolisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn bwysig yn hynny o beth gan ei fod yn darparu manylion am y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys ac mae'n tynnu sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan Aelodau.

Mae'r Cyngor hwn yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofyniad o dan y Côd bod rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu ymlaen llaw ar bob un o'r adroddiadau rheoli trysorlys uchod cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn. Rhoddwyd hyfforddiant i Aelodau yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 er mwyn cefnogi rôl sgriwtini yr aelodau a darperir hyfforddiant pellach yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.

Mae'r Swyddog Adran 151 yn cadarnhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y benthycwyd ac na aethpwyd y tu hwnt i'r terfyn benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig).

Yn ogystal, mae'r adroddiad yn nodi'r canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2020/21:-

- Ffactorau allanol – gan gynnwys adolygiad o'r economi, perfformiad cyfraddau llog yn ystod y flwyddyn ac effaith Covid 19;
- Ffactorau mewnol – gan gynnwys perfformiad gwariant cyfalaf, yr effaith ar y cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod, archwaeth risg o ran buddsoddiadau, y benthyciadau a gymerwyd gan y Cyngor a'r effaith ar y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC);

- Y Strategaeth Rheoli Trysorlys yn 2021/22 – gan gynnwys rheoli dyledion y Cyngor, gweithredu'r polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) newydd, a benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn;
- Rheoli'r Trysorlys – beth yw'r Dangosyddion Darbodus a sut y cânt eu mesur;
- Cymharu'r Dangosyddion Darbodus – cymharu'r Dangosyddion Darbodus gwirioneddol gyda'r rhagolygon ar ddechrau'r flwyddyn;
- Edrych ymlaen at 2022/23 a thu draw i hynny; a
- Casgliad.

## 2. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Allanol

**2.1 Cyfraddau Llog –** Ar ôl i Fanc Lloegr gymryd camau brys ym mis Mawrth 2020 i ostwng y Gyfradd Banc i 0.10%, gadawodd y Gyfradd Banc ar yr un lefel yn y cyfarfodydd a ddilynodd cyn ei godi i 0.25% yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2021, i 0.50% yn ei gyfarfod ar 4 Chwefror 2022 ac yna i 0.75% ym mis Mawrth 2022.

**2.2 Yr Economi -** Y Deyrnas Unedig - Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r pandemig coronafeirws wedi achosi difrod enfawr i economi'r DU ac economïau o gwmpas y byd. Mae economi'r DU wedi gweld sawl gwawr ffug drwy 2021/22 ond, gan fod y rhan fwyaf o'r economi wedi agor a bron â dychwelyd i fusnes fel arfer, mae'r ffigyrau cynnyrch domestig gros (GDP) wedi bod yn gadarn (9% blwyddyn ar flwyddyn Ch1 2022) ac maent yn ddigonol i'r Pwyllgor Polisi Ariannol ganolbwyntio ar daclo effeithiau ail rownd chwyddiant yn awr bod y mesur mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) wedi codi'n barod i 6.2% ac mae'n debygol o fod yn uwch na 8% ym mis Ebrill.

Disgynnodd enillion giltiau ar ddiwedd 2021 ond, er gwaetha'r rhyfel yn Wcráin, cododd enillion giltiau yn gynnar yn 2022. Ar 1.38%, mae enillion 2 flynedd yn parhau i fod yn agos at y lefel uchaf mewn 11 mlynedd a welwyd yn ddiweddar ac mae enillion 10 blynedd o 1.65% yn agos at y lefel uchaf mewn 6 blynedd a welwyd yn ddiweddar. Mae'r cynnydd hwn yn rhan o duedd byd eang gan fod banciau canolog wedi awgrymu y byddant yn parhau i godi cyfraddau llog i reoli chwyddiant.

Yn hanesyddol, bydd cynnydd pellach yn enillion Trysorlys yr Unol Daleithiau yn golygu bod enillion giltiau'r DU yn codi'n uwch. Mae cydberthynas gref rhwng y ddau ffactor. Serch hynny, mae'r wasgfa ar incwm gwario gwirioneddol aelwydydd oherwydd y cynnydd o 54% ym mhrisiau cyfleustodau ym mis Ebrill, yn ogystal â chynnydd yn y dreth gyngor, prisiau dŵr a phrisiau nifer o gontractau ffôn, yn rhwystrau grymus i unrhyw economi ymdopi â nhw. Yn ogystal, o 1 Ebrill 2022, bydd cyflogeion yn talu 1.25% fwy o dreth Yswiriant Gwladol. O ganlyniad, bydd chwyddiant yn fwy o lyffethair ar incwm gwirioneddol yn 2022 nag mewn unrhyw flwyddyn ers 1955, pan ddechreuwyd cadw cofnodion.

Targedu chwyddiant cyfartalog – Dyma'r newid mawr a fabwysiadwyd gan Fanc Lloegr yn 2020/21 o ran gweithredu ei darged chwyddiant o 2%. Yr ychwanegiad allweddol at flaen ganllawiau'r Banc ym mis Awst 2020 oedd ymadrodd newydd yn y datganiad polisi, sef "nid yw'n bwriadu tynhau polisi ariannol hyd nes bydd tystiolaeth glir fod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud i gael gwared â chapasiti dros ben a chyflawni'r targed o 2% yn gynaliadwy". Mae'r fantra honno'n ymddangos yn hen ffasiwn iawn erbyn hyn. Chwyddiant yw'r ysbryd sydd wedi dianc o'r botel, ac mae storm berffaith o brinder cyflenwadau, prinder gweithwyr, chwyddiant mewn prisiau nwyddau, effaith ymosodiad Rwsia ar Wcráin a'r sancsiynau a osodwyd gan y Gorllewin wedi hynny, oll yn awgrymu y bydd lefel chwyddiant yn uchel ymhell i 2023.

## 3. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Mewnol

**3.1 Gwariant a Chyllid Cyfalaf 2021/22 –** Mae'r Cyngor yn mynd i wariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Gellir cyllido'r gweithgareddau hyn naill ai:-

- Ar unwaith trwy adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati), nad yw'n cael unrhyw effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu

- Trwy fenthyca: os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os penderfynir peidio â defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn arwain at yr angen i fenthyca.

Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn un o'r dangosyddion darbodus angenrheidiol. Mae'r tabl isod yn dangos y gwir wariant cyfalaf a sut y cyllidwyd hyn:-

| | Amcangyfrif 2021/22 (£'m) | Gwirioneddol 2021/22 (£'m) |
|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol | 41 | 23 |
| Gwariant Cyfalaf o'r CRT | 22 | 10 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **63** | **33** |
| Cronfa Gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau | 24 | 17 |
| CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau | 3 | 5 |
| Cronfa Gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor | 4 | 2 |
| CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor | 18 | 4 |
| **Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol a gyllidwyd trwy fenthyca** | **12** | **5** |
| **Gwariant cyfalaf o'r CRT a gyllidwyd trwy fenthyca** | **2** | **0** |

Y prif reswm am y tanwario oedd y tanwariant mawr yn erbyn y prosiectau a restrir isod:-

| Cynllun | Tanwariant £'m | Sylwadau |
|---|---|---|
| Adnewyddu adeiladau ysgol | 1.847 | Yn ystod rhan olaf 2021/22, dyfarnwyd £1.236m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cynnal a chadw Cyfalaf mewn ysgolion. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf y penderfynwyd arnynt yn lleol yn 2021/22, yn hytrach na defnyddio adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod o'r grant hwn yn cael ei ddefnyddio yn awr i gyllido gwaith Cyfalaf mewn ysgolion yn 2022/23. |
| Prydau Ysgol am Ddim | 0.547 | Yn ystod rhan olaf 2021/22, dyfarnwyd £0.588m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer ysgolion er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno prydau ysgol am ddim. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf y penderfynwyd arnynt yn lleol yn 2021/22, yn hytrach na defnyddio adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod o'r grant hwn yn cael ei ddefnyddio yn awr i gyllido gwaith cynnal a chadw Cyfalaf mewn ysgolion yn 2022/23. |
| Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 2.864 | Mae'r cynllun Band A olaf yn gyrru yn ei flaen erbyn hyn ac mae gwaith ar y safle'n datblygu'n dda. Ail-wahoddwyd tendrau ar gyfer yr Uned Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig. Derbyniwyd matrics cyllido wedi'i ddiweddaru a bydd cyllidebau 2022/23 yn adlewyrchu hyn. |
| Tô Canolfan Addysg y Bont | 0.991 | Oherwydd oedi wrth benodi contractwr i gychwyn gwaith ar y to cyn diwedd y flwyddyn, bydd y cynllun hwn yn llithro i flwyddyn ariannol 2022/23. Rhagwelwyd hyn yn yr adroddiad monitro cyfalaf ar gyfer chwarter 3. |

| Cynllun | Tanwariant £'m | Sylwadau |
|---|---|---|
| Porth Twristiaeth | 1.340 | Cafodd gwaith ar Ganolfan Ymwelwyr Parc y Morglawdd ei ail-dendro yn llwyddiannus gan ddefnyddio fframwaith rhanbarthol ac mae contractwr wedi'i benodi yn awr, ac mae gwaith uwchraddio ar y toiledau a'r ciosg wedi cael eu comisiynu yn awr hefyd. Mae hwn yn gynllun sy'n parhau ac mae dyraniad cyllideb newydd ar ei gyfer yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2022/23. |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd Amrywiol | 2.262 | Mae rhai cynlluniau'n mynd rhagddynt ac maent yn pontio gwahanol flynyddoedd ariannol. Bu oedi mewn cynlluniau eraill a chytunwyd ar estyniad amser gyda Llywodraeth Cymru i gwblhau'r gwaith a dwyn y cyllid ymlaen. |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol – gwelliannau Isadeiledd | 0.673 | Oherwydd natur y gwaith a'r amser aros ar gyfer cyflenwi isadeiledd, cytunwyd ar estyniad amser hyd at fis Gorffennaf 2022. |
| Adfywio Caergybi (Cam II Menter Treftadaeth Treflun (THI)) | 0.673 | Oherwydd sawl achos o oedi drwy gydol y flwyddyn, ni ddatblygodd prosiectau ar y cyflymder a fwriadwyd yn wreiddiol, a dyna pam fod yr amrywiad yn y gyllideb mor fawr. Dyrannwyd cyllideb newydd ar gyfer 2022/23. |
| Penrhos Cam 2 | 1.130 | Mae gwaith ar y safle'n mynd rhagddo a bydd y cynllun yn llithro i flwyddyn ariannol 2022/23. |
| Unedau Porth Llangefni | 0.872 | Mae gwaith ar y safle'n mynd rhagddo a bydd y cynllun yn llithro i flwyddyn ariannol 2022/23. Rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn chwarter 1. |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 0.491 | Roedd y prisiau tendr gwreiddiol a dderbyniwyd yn uwch na'r cyllid sydd ar gael. Mae'r cynllun yn cael ei ail-ddylunio i leihau costau er mwyn cyd-fynd â'r cyllid sydd ar gael. |
| Prosiectau TG | 0.281 | Tanwariant bwriadol oherwydd yr angen i adnewyddu'r brif system storio *flash* yn 2022/23. |
| Gwaith cyfalaf ar asedau cyfredol | 0.369 | Bu oedi ym mhrosiectau Plas Arthur oherwydd fod Ysgol y Bont yn defnyddio'r safle. |
| Gwelliannau Hamdden | 0.189 | Mae prosiectau ar y gweill a bwriedir i'r gwaith barhau yn 2022/23, yn benodol ym Mhlas Arthur. |
| Cerbydau | 0.274 | Mae cynllun yn cael ei lunio i ddarparu mannau gwefru cerbydau trydan yn y lloc cerbydau, ond nid yw'r gwaith wedi'i gwblhau, ac ni fydd cerbydau trydan yn cael eu harchebu nes bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau. Archebwyd cerbydau eraill cyn diwedd y flwyddyn ond, oherwydd yr amser aros ar gyfer eu cyflenwi, ni fyddant yn cyrraedd cyn diwedd y flwyddyn, felly, bydd angen i'r gyllideb lithro i flwyddyn ariannol 2022/23. |

**3.2 Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau Arian Parod** – mae balansau arian parod y Cyngor yn cynnwys adnoddau refeniw a chyfalaf a chyllid ar gyfer llif arian. Roedd adnoddau arian parod craidd y Cyngor fel a ganlyn:-

| **Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau y gellir eu defnyddio** | **Drafft 31 Maw 22 £'m** | **Terfynol 31 Maw 21 £'m** |
|---|---|---|
| Cronfa wrth gefn gyffredinol Cronfa'r Cyngor | 12.050 | 11.437 |
| Cronfeydd wrth gefn clustnodedig | 23.181 | 14.079 |
| Cronfa wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 12.333 | 9.723 |
| Cronfeydd wrth gefn ysgolion | 7.827 | 3.974 |
| Cronfeydd wrth gefn derbyniadau cyfalaf | 2.381 | 0.767 |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio** | **57.633** | **39.980** |
| | | |
| **Darpariaethau** | **5.143** | **5.047** |
| | | |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio a'r darpariaethau** | **62.915** | **45.027** |

**3.3 Allanoli benthyca –** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r GCC yn deillio o weithgareddau cyfalaf y Cyngor a'r adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2021/22 a gyllidwyd drwy fenthyca, a gwariant cyfalaf a gyllidwyd drwy fenthyca yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei ad-dalu gyda refeniw neu adnoddau eraill. Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido ar gyfer yr angen benthyca hwn. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae'r Gwasanaeth Trysorlys yn trefnu arian parod y Cyngor er mwyn sicrhau bod arian parod digonol ar gyfer y cynlluniau cyfalaf a'r gofynion llif arian. Gallai hyn gael ei gyllido drwy fenthyca gan gyrff allanol (megis y Llywodraeth, drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu drwy ddefnyddio adnoddau arian parod dros dro o fewn y Cyngor. Ni fenthycwyd unrhyw arian allanol yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

**3.3.1 Benthyca Gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) -** Er mwyn sicrhau bod y lefelau benthyca'n ddarbodus dros y tymor canol ac y benthycir at ddibenion cyfalaf yn unig, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrif o unrhyw ofynion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn benthyca er mwyn cefnogi gwariant refeniw.

Mae'r strategaeth fenthyca fewnol bellach wedi bod ar waith yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r benthyca gros o £125.3m ar 31 Mawrth 2022 yn llai na'r GCC a ragwelir ar gyfer y ddwy flynedd nesaf:-

| | **Gwirioneddol 2021/22 £'m** | **Amcangyfrif 2022/23 £'m** | **Amcangyfrif 2023/24 £'m** |
|---|---|---|---|
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 137.8 | 151.5 | 161.2 |

**3.3.2 Benthyca mewnol** - yw pan, dros y tymor canol, y disgwylir i'r cyfraddau buddsoddi barhau i fod yn is na'r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hyn yn golygu y byddai ystyriaethau gwerth am arian yn dangos y gellid cael gwerth am arian drwy osgoi cymryd benthyciadau allanol newydd a drwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyledion allanol sy'n aeddfedu. Byddai hyn yn sicrhau'r arbedion tymor byr gorau. Y ffigwr benthyca mewnol yw'r gwahaniaeth rhwng y GCC a'r Sefyllfa Benthyca Gros. Fel y gwelir o'r tabl isod, ar ddechrau'r flwyddyn, y sefyllfa fenthyca fewnol oedd £12.1m. Nid oedd unrhyw fenthyciadau PWLB newydd yn ystod y flwyddyn ac nid oedd angen ad-dalu unrhyw fenthyciad, a derbyniwyd benthyciad di-log o £0.991m yn ystod y flwyddyn (yn unol â 3.4 a 3.5 isod). Mae hyn yn golygu bod y sefyllfa benthyca mewnol ar 31 Mawrth 2022 yn £12.5m:-

| | 31 Mawrth 2021 Gwirioneddol £'m | 31 Mawrth 2022 Gwirioneddol £'m |
|---|---|---|
| Sefyllfa fenthyca gros | 124.5 | 125.3 |
| GCC | 136.6 | 137.8 |
| (Tan)gyllido / Gorgyllido'r GCC | (12.1) | (12.5) |

**3.4** **Benthyciadau eraill** - Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth y Cyngor gymryd unrhyw fenthyciadau tymor byr eraill. Derbyniwyd benthyciad di-log o £0.991m yn ystod 2021/22 i gyllido gwariant cyfalaf ar brosiectau arbed ynni a bydd yn cael ei ad-dalu mewn rhandaliadau blynyddol.

**3.5** **Ad-dalu Dyledion** – Nid oedd unrhyw fenthyciadau gan y PWLB yn adeddfedu yn ystod y flwyddyn. Nid oes unrhyw fenthyciadau tymor byr yn ddyledus.

**3.6** **Buddsoddiadau –** Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod), er y cedwid y gallu i fuddsoddi am gyfnodau hwy. Roedd disgwyl i falansau arian parod fod hyd at £52m, yn amrywio rhwng £25m a £52m. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer llog ar £0.036m, ar ôl addasu ar gyfer gostyngiad posib yn y gyfradd yn 2021/22 a amcangyfrifwyd ar adeg paratoi'r gyllideb. Fel y digwyddodd, dychwelodd y balansau cyfartalog o £42.3m log o £0.019m, ar gyfradd llog cyfartalog o 0.046%. Mae buddsoddiadau cyfyngedig mewn Awdurdodau Lleol eraill a chyfraddau llog yn gostwng yn is na'r hyn a ragwelwyd pan luniwyd y gyllideb wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn yn y llog a dderbyniwyd. Arhosodd enillion ar fuddsoddiadau yn agos at sero bron trwy gydol 2021/22. Llwyddodd y rhan fwyaf o fenthyciadau rhwng awdurdodau lleol i osgoi cyfraddau negyddol ac roedd twf parhaus mewn benthyca rhwng awdurdodau yn un o nodweddion y flwyddyn. Y disgwyliad ar gyfer cyfraddau llog yn y strategaeth rheoli trysorlys ar gyfer 2021/22 oedd y byddai'r Gyfradd Banc yn aros ar 0.1% nes y byddai'n glir i Fanc Lloegr nad oedd gofyn mwyach am y lefel cyfraddau brys a gyflwynwyd ar ddechrau'r pandemig Covid-19.

Ar 18 Mehefin 2021 aeddfedodd buddsoddiad o £5.0m gyda Chyngor Sir y Fflint, ac fe'i ad-dalwyd i Gyngor Sir Ynys Môn. Ar 23 Mehefin 2021, buddsoddodd Cyngor Sir Ynys Môn £5m gyda Chyngor Sir y Fflint gyda chyfradd llog o 0.03%. Aeddfedodd hwn ar 23 Medi 2021 ac fe'i ad-dalwyd i Gyngor Sir Ynys Môn.

Roedd rhai o adneuon y Cyngor mewn cyfrifon nad oes angen rhoi rhybudd ar gyfer tynnu arian allan ac maent yn talu llog ar gyfraddau sy'n agos i'r gyfradd sylfaenol ar y pryd, £38.616m ar 0.05% ar 31 Mawrth 2022 (31 Mawrth 2021 £20.066m ar 0.03%). Roedd un buddsoddiad tymor byr arall ar 31 Mawrth 2022 - £7.5m ar gyfradd llog o 0.77% (£5m ar 0.15% ar 31 Mawrth 2021). Roedd pob buddsoddiad am lai na blwyddyn.

**3.7** **Sefyllfa'r Trysorlys ar 31 Mawrth 2022** – Mae sefyllfa dyledion a buddsoddi'r Cyngor yn cael ei threfnu gan y Gwasanaeth Rheoli Trysorlys er mwyn sicrhau hylifedd digonol ar gyfer y gweithgareddau refeniw a chyfalaf, diogelwch ar gyfer buddsoddiadau ac i reoli risgiau o fewn yr holl weithgareddau rheoli trysorlys. Mae gweithdrefnau a rheoliadau er mwyn cyflawni'r amcanion hyn wedi eu hen sefydlu drwy gyflwyno'r adroddiadau a nodir yn y crynodeb i Aelodau, a thrwy weithgareddau swyddogion yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021/22. Nid aethpwyd tu hwnt i'r terfynau uchaf ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiol yn ystod y flwyddyn. Mae ffigyrau benthyca a buddsoddi'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2020/21 a 2021/22 fel a ganlyn:-

| | 31 MAWRTH 2021 | | | 31 MAWRTH 2022 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'m | Cyfradd Gyfartalog (%) | Aeddfedrwydd Cyfartalog (blynyddoedd) | £'m | Cyfradd Gyfartalog (%) | Aeddfedrwydd Cyfartalog (blynyddoedd) |
| Dyled i'r PWLB<br>Dyledion Eraill<br>**Cyfanswm** | 121.9<br>2.6<br>**124.5** | 4.59<br>0 | 30.57<br>3.93 | 121.9<br>3.4<br>**125.3** | 4.58<br>0 | 29.58<br>4.03 |
| GCC | 136.6 | | | 137.8 | | |
| Gor / (tan) fenthyca | (12.1) | | | (12.5) | | |
| Buddsoddiadau tymor sefydlog (pob un < 1 blwyddyn, wedi eu rheoli yn fewnol ac ar gyfradd sefydlog)<br><br>Buddsoddiadau di-rybudd (pob un wedi ei reoli yn fewnol) | 5.000<br><br>20.066 | 0.15<br><br>0.03 | | 7.500<br><br>38.616 | 0.765<br><br>0.05 | |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **25.066** | **0.06** | | **46.116** | **0.17** | |

Dadansoddiad pellach o'r benthyca yn ôl y cyfnod aeddfedu:-

| | 31 MAWRTH 2021 | | 31 MAWRTH 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | £'m | % o'r cyfanswm | £'m | % o'r cyfanswm |
| Cyfanswm benthyca | 124.5 | 100 | 125.3 | 100 |
| Llai na 12 mis | 0.3 | 0.2 | 2.7 | 2.2 |
| 1 – 3 blynedd | 5.1 | 4.1 | 3.4 | 2.7 |
| 4 – 6 mlynedd | 4.5 | 3.6 | 4.5 | 3.6 |
| 7 – 10 mlynedd | 4.8 | 3.9 | 4.9 | 3.9 |
| 10 mlynedd a mwy | 109.8 | 88.2 | 109.8 | 87.6 |

Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau newydd yn ystod y flwyddyn (tymor hir na thymor byr) a disgrifiwyd y dyledion a ad-dalwyd ym mhwynt 3.5 uchod. Felly, mae'r symudiadau yn y categorïau uchod yn unol â dyddiadau aeddfedu'r benthyciadau yn unig.

## 4. Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor 2021/22

**4.1 Aildrefnu Dyledion** – Ni chafodd unrhyw ddyledion eu haildrefnu yn ystod y flwyddyn gan fod y gwahaniaeth o 1% ar gyfartaledd rhwng cyfraddau benthyca newydd y PWLB a chyfraddau ad-dalu cynamserol yn golygu nad oedd yn werth aildrefnu.

**4.2 Benthyca cyn bod angen** – Yn ystod y flwyddyn, ni chymerodd y Cyngor fenthyg mwy nag yr oedd ei angen, na chyn bod angen, dim ond er mwyn elwa ar fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycwyd.

**4.3 Polisi Buddsoddi** – Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cael ei reoli gan ganllawiau buddsoddi Llywodraeth Cymru a roddwyd ar waith yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys blynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 9 Mawrth 2021. Mae'r polisi hwn yn nodi'r dull ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi, ac mae'n seiliedig ar statws credyd a ddyfarnwyd gan y tair prif asiantaeth statws credyd ac ar ddata ychwanegol mewn perthynas â'r farchnad (megis rhagolygon ar gyfer cyfraddau, cyfnewidiadau diffyg credyd, prisiau cyfranddaliadau banc ac ati). Roedd y gweithgareddau buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth a gymeradwywyd ac nid oedd gan y Cyngor unrhyw anawsterau hylifedd. Pan fydd y Cyngor yn buddsoddi ei arian dros ben, yr elfen bwysicaf yw diogelwch y buddsoddiad, ac yna pa mor hawdd yw cael gafael ar arian parod pe bai'r Cyngor ei angen ac wedyn canran y llog y bydd y Cyngor yn ei dderbyn am y buddsoddiad. Y strategaeth ar fuddsoddi arian parod dros ben fyddai benthyca tymor byr gydag Awdurdodau Lleol eraill i sicrhau'r enillion mwyaf mewn ffordd ddiogel.

**4.4 Strategaeth fenthyca a rheoli risg cyfraddau llog** – Yn ystod 2021/22, cynhaliodd y Cyngor sefyllfa o danfenthyca. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr angen benthyca cyfalaf (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) wedi'i gyllido'n llawn â dyled benthyciadau, gan fod arian pariod a oedd yn cefnogi cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor yn cael ei ddefnyddio fel cam dros dro. Roedd y strategaeth hon yn un ddarbodus gan fod enillion ar fuddsoddiadau yn isel iawn ac roedd angen ystyried lleihau risg gwrthbartïon wrth fuddsoddi hefyd.

**4.5 Polisi Darpariaeth Isaf Refeniw (MRP)** – Yn 2018/19, rhoddodd y Cyngor bolisi (MRP) newydd ar waith ar ôl gofyn am gyngor gan ei gynghorwyr Trysorlys ac ymgynghori â'r Archwilwyr Allanol. Mae'r polisi newydd yn ddull mwy darbodus o godi ar Refeniw am gostau Cyllido Cyfalaf. Gellir gweld y polisi newydd yn Atodiad 6 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2021.

## 5. Rheoli'r Trysorlys

Mae'r dangosyddion Darbodus canlynol wedi'u cynnwys yn Atodiad 11 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Gweler isod esboniad byr o beth yw'r dangosyddion a sut y byddant yn cael eu cyfrifo. Bydd Adran 6 yr adroddiad hwn yn dadansoddi'r gwahaniaethau rhwng y Dangosyddion Darbodus gwirioneddol a'r rhai a ragwelwyd ar gyfer 2021/22.

- **Gwariant Cyfalaf – Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf –** Dyma'r rhagolwg o'r Gwariant Cyfalaf rhwng 2021/22 a 2024/25, ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2022/23.

- **Angen y Cyngor i Fenthyca (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)** - Dangosydd darbodus arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol sy'n weddill na thalwyd amdano eto, naill ai o adnoddau refeniw neu cyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n cyfateb i angen benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf uwch na hynny, ac na thalwyd amdano'n uniongyrchol drwy adnoddau refeniw neu gyfalaf, yn cynyddu'r GCC. Nid yw'r GCC yn cynyddu am gyfnod amhenodol, gan fod y ddarpariaeth refeniw isaf (MRP) yn dâl refeniw blynyddol statudol sydd, yn fras, yn lleihau'r angen i fenthyca yn unol â hyd bywyd pob ased ac, felly, codir tâl am yr asedau cyfalaf fel y byddant yn cael eu defnyddio.

- **Doethineb Ariannol – Dyledion Gros a'r GCC –** Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw ei ddyledion gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y GCC yn y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r amcangyfrif o unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2021/22 a'r ddwy flynedd ariannol ganlynol. Mae hyn yn golygu bod peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca cyfyngedig cynnar ar gyfer y blynyddoedd i ddod, ond mae'n sicrhau na fyddir yn benthyca at ddibenion refeniw.

- **Dyledion Allanol – Y trothwy awdurdodedig ar gyfer dyledion allanol –** Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn cyfyngu lefel y benthyca i uchafswm penodol. Mae'n uchafswm na fedrir benthyca'n allanol y tu draw iddo ac mae angen i'r uchafswm hwn gael ei osod neu ei adolygu gan y Cyngor llawn. Mae'n adlewyrchu lefel y ddyled allanol, er nad yn ddelfrydol, y gellir ei gynnal yn y tymor byr, ond nad yw'n gynaliladwy yn y tymor hwy. Dyma'r cyfyngiad statudol y penderfynir arno o dan Adran 3 (1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai cynlluniau'r holl gynghorau, neu gynlluniau cyngor penodol, er nad yw'r pŵer hwn wedi'i roi ar waith hyd yma. Mae'r Swyddog Adran 151 yn adrodd fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r dangosydd hwn yn ystod y flwyddyn gyfredol ac nad yw'n rhagweld anawsterau ar gyfer y dyfodol. Mae'r safbwynt hwn yn ystyried yr ymrwymiadau presennol, y cynlluniau presennol a'r cynigion yn yr ardroddiad ar y gyllideb. Mae'r Uchafswm Awdurdodedig yn cael ei osod yn flynyddol yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

- **Y terfyn gweithredol** – Dyma'r terfyn na ddisgwylir i ddyledion allanol fod yn uwch nag ef fel arfer. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai hwn yn ffigwr tebyg i'r GCC, ond gallai fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r dyledion gwirioneddol a'r gallu i gyllido tanfenthyca drwy adnoddau parod eraill. Mae'n dderbyniol cael cyfnodau pan fo'r sefyllfa wirioneddol naill ai o dan neu uwchben y terfyn gweithredol ar yr amod nad eir y tu hwnt i'r terfyn awdurdodedig. Gosodir y Terfyn Gweithredol yn flynyddol yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a chaiff ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

- **Fforddiadwyedd – Y gymhareb rhwng costau cyllido a'r ffrwd refeniw net –** Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r duedd yng nghost cyfalaf (benthyca a chostau rhwymedigaethau hirdymor eraill net o incwm o fuddsoddiadau) yn erbyn y llif refeniw net.

## 6. Y Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol o gymharu â'r rhai a ddisgwyliwyd

**6.1** Yn ystod 2021/22, cydymffurfiodd y Cyngor â'i ofynion deddfwriaethol a rheoleiddio. Mae'r data allweddol ar gyfer y dangosyddion darbodus a'r dangosyddion trysorlys gwirioneddol, sy'n nodi effaith y gweithgareddau gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn, gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Data ar gyfer dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol | 2020/21 Gwirioneddol £'m | 2021/22 Gwreiddiol £'m | 2021/22 Gwirioneddol £'m |
|---|---|---|---|
| **Gwariant Cyfalaf** | | | |
| • Dim CRT | 20.507 | 15.842 | 23.734 |
| • CRT | 12.622 | 20.313 | 9.723 |
| • **Cyfanswm** | **33.129** | **36.155** | **33.457** |
| **Cyfanswm Gofynion Cyllido Cyfalaf** | | | |
| • Dim CRT | 97.360 | 105.669 | 99.387 |
| • CRT | 39.200 | 40.415 | 38.415 |
| • **Cyfanswm** | **136.560** | **146.084** | **137.802** |
| **Benthyca Gros** | 124.524 | 140.991 | 125.349 |
| **Dyledion Allanol** | 124.524 | 140.991 | 125.349 |
| **Buddsoddiadau** | | | |
| • Hirach na blwyddyn | 0 | 0 | 0 |
| • Llai na blwyddyn | 25.066 | 15.000 | 46.116 |
| • **Cyfanswm** | **25.066** | **15.000** | **46.116** |
| | | | |
| Costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw net – Cronfa'r Cyngor | 4.75% | 4.78% | 4.55% |
| Costau cyllido fel cyfran o'r ffrwd refeniw net - CRT | 16.52% | 9.63% | 9.04% |

**6.2** Y Dangosydd Darbodus cyntaf yn y tabl uchod yw'r Gwariant Cyfalaf. Y Gwariant Cyfalaf a ragwelwyd ar adeg cynhyrchu'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2021/22 oedd £36.155m. Fodd bynnag, y gwir wariant oedd £33.457m. Roedd y dangosydd darbodus yn seiliedig ar y gyllideb gyfalaf a gymeradwywyd ar gyfer 2021/22 (£36.155m). Fodd bynnag, nid yw'r gyllideb hon yn cynnwys unrhyw symiau ar gyfer llithriad o'r flwyddyn flaenorol a, hefyd, y ffaith fod cynlluniau ychwanegol wedi'u hychwanegu i'r rhaglen gyfalaf drwy gydol y flwyddyn, a dyna pam fod gwariant cyfalaf nad yw'n ymwneud â'r CRT yn uwch na'r gyllideb wreiddiol. Dylid cyfeirio at baragraff 3.1 yn yr adroddiad hwn i weld y gyllideb gyfalaf derfynol nad yw'n ymwneud â'r CRT o gymharu â'r gwariant gwirioneddol a'r rhesymau am y tanwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb. Mae tanwariant sylweddol ar wariant cyfalaf y CRT, yn bennaf oherwydd anhawster i brynu tai am bris sy'n bodloni'r meini prawf buddsoddi (roedd y gyllideb yn rhagdybio y byddai 15 o hen dai Cyngor yn cael eu prynu ond dim ond naw a brynwyd). Yn ogystal, bu i dri datblygiad sylweddol, y rhagwelwyd y byddai gwaith yn cychwyn arnynt yn 2021/22, wynebu oedi yn y broses ac ni fydd contractau adeiladu'n cael eu llofnodi yn awr hyd nes blwyddyn ariannol 2022/23.

**6.3** Yr ail ddangosydd Darbodus yn y tabl uchod yw'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf. Ni chaniateir i angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca (GCC) godi am gyfnod amhenodol. Mae rheolaethau statudol wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn cael eu codi yn fras yn erbyn refeniw yn ystod oes yr ased. Mae angen i'r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol, y cyfeirir ato fel y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP), er mwyn lleihau'r GCC. Yr hyn ydyw, mewn gwirionedd, yw ad-daliad o'r angen i fenthyca. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian parod ar gael er mwyn cwrdd ag ymrwymiadau cyfalaf. Gall dyledion allanol hefyd gael eu benthyca neu eu had-dalu ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y GCC. Gellir hefyd leihau cyfanswm y GCC drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- codi mwy na'r tâl refeniw statudol (MRP) bob blwyddyn drwy'r Ddarpariaeth Refeniw Gwirfoddol (VRP).

Y GCC a ragwelwyd ar adeg cynhyrchu'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2021/22 oedd £146.084m. Fodd bynnag, roedd y GCC gwirioneddol yn sylweddol is ar £137.802m. Y rheswm am y gostyngiad yng GCC y CRT yw tanwariant yn erbyn cyllideb y CRT, gan olygu na chymerwyd unrhyw fenthyciadau yn 2021/22 ar gyfer y CRT. Un rheswm bod y GCC nad yw'n ymwneud â'r CRT yn is oedd gostyngiad yn swm y Benthyca Digefnogaeth yr oedd ei angen mewn perthynas â'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn 2021/22. Cyllidwyd y gwariant gan grantiau yn bennaf, gan leihau'r angen i fenthyca. Rheswm arall oedd fod grantiau ychwanegol wedi'u dyfarnu yn ystod y flwyddyn i sybsideiddio ffynonellau cyllido eraill meigs Benthyca â Chefnogaeth. Roedd hyn yn golygu fod angen llai o Fenthyca â Chefnogaeth, gan ostwng y ffigwr GCC. Serch hynny, yn y dyfodol, defnyddir y ffynhonnell gyllido hon wedi'i sybsideiddio i gyllido Gwariant Cyfalaf yn 2022/23 a bydd yn cynyddu'r GCC.

**6.4** Nid aethpwyd tu hwnt i'r Terfyn Benthyca Awdurdodedig (£183m) na'r Terfyn Gweithredol (£178m) yn ystod y flwyddyn, gyda swm y ddyled Allanol yn cyrraedd uchafswm o ddim ond £125.362m.

**6.5** Roedd y costau Cyllido, fel cyfran o'r llif refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyffredinol (4.55%), yn agos iawn at y cyfanswm a ragwelwyd (4.78%), gan olygu bod y dangosydd hwn wedi perfformio'n ôl y disgwyl, ac yn debyg i'r flwyddyn flaenorol hefyd. Roedd y costau cyllido, fel cyfran o'r llif refeniw net ar gyfer y CRT (9.04%), yn is na'r cyfanswm a ragwelwyd (9.63%), oherwydd bod y costau cyllido yn is a'r llif refeniw net hefyd yn is na'r disgwyl ar adeg cynhyrchu'r dangosydd arfaethedig ar gyfer 2021/22. Gostyngodd y tanwariant ar y CRT swm y cyfraniadau Refeniw sydd eu hangen i gyllido'r rhaglen gyfalaf yn 2021/22, o £17.9m i £4.3m.

## 7. Edrych ymlaen at 2022/23 a thu draw i hynny

**7.1** Ar 10 Mawrth 2022, cymeradwyodd y Cyngor llawn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022/23. Roedd y Datganiad ar y Strategaeth yn seiliedig ar y Strategaeth Gyfalaf a rhagwelir y bydd angen i'r Cyngor fenthyca £14.7m yn ychwanegol yn 2022/23 ar gyfer y Gronfa Gyffredinol a'r CRT, cyfanswm o £14.4m yn 2023/24 a chyfanswm pellach o £10.8m yn 2024/25 i gyllido ei Raglen Gyfalaf. Bydd y benthyca ychwanegol hwn yn effeithio ar y Gronfa Gyffredinol a bydd y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP) yn codi er mwyn cyllido'r costau cyllido cyfalaf. Yn 2022/23, rhagwelir y bydd yr MRP yn £4.2m, £4.5m yn 2023/24 a £4.7m yn 2024/25.

**7.2** Ar 11 Ebrill 2022, buddsoddodd Cyngor Sir Ynys Môn £10m gyda NatWest, gyda chyfradd llog o 1.3%. Mae'r buddsoddiad hwn am 6 mis.

**7.3** Ar 10 Mai 2022, buddsoddodd Cyngor Sir Ynys Môn £7.5m gyda Santander, gyda chyfradd llog o 1.47%. Mae'r buddsoddiad hwn am 6 mis.

**7.4** Ar 17 Mai 2022, buddsoddodd Cyngor Sir Ynys Môn £7.5m gyda Chymdeithas Adeiladu Nationwide gyda chyfradd llog o 0.97%. Aeddfedodd y buddsoddiad ar 17 Awst 2022 a chafodd y buddsoddiad ei ddwyn ymlaen am 3 mis pellach gyda chyfradd llog o 1.87%.

**7.5** Ar 22 Gorffennaf 2022, aeddfedodd buddsoddiad o £7.5m gyda Goldman Sachs, a chafodd ei ddwyn ymlaen am 5 mis pellach gyda chyfradd llog o 2.18%.

**7.6** Ar 19 Awst 2022, ad-dalodd Cyngor Sir Ynys Môn fenthyciad o £1m gan y PWLB. Cymerwyd y benthyciad ar 3 Gorffennaf 2007, gyda chyfradd llog o 8.5%. Mae swm pellach o £1.285m i'w ad-dalu yn ddiweddarach yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.

**7.7** Roedd y gyllideb o £5k ar gyfer llog i'w dderbyn a osodwyd ar gyfer 2022/23 yn seiliedig ar y llog a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac roedd yn ystyried y cyfraddau llog isel, buddsoddiadau cyfyngedig mewn Awdurdodau Lleol eraill a'r ffaith fod enillion ar fuddsoddiadau yn parhau i fod yn agos at sero pan luniwyd y gyllideb llog i'w dderbyn ar gyfer 2022/23. Fodd bynnag, gyda chyfraddau llog yn codi uwchlaw'r hyn a ragwelwyd pan luniwyd cyllideb 2022/23, gan gynnig mwy o gyfleoedd i fuddsoddi arian parod dros ben, roedd llog a dderbyniwyd yn ystod chwarter 1 2022/23 yn £78k, a disgwylir y bydd swm pellach o £225k yn cael ei dderbyn o fuddsoddiadau cyfredol, gan olygu bod yr amcangyfrif diwygiedig ar gyfer llog i'w dderbyn yn 2022/23 yn £404k.

**7.8** Gellir gweld y rhagolygon diweddaraf ynghylch cyfraddau llog gan Link Assets Services yn y tabl isod:-

| Link Group Interest Rate View | 09.08.22 | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Sep-22 | Dec-22 | Mar-23 | Jun-23 | Sep-23 | Dec-23 | Mar-24 | Jun-24 | Sep-24 | Dec-24 | Mar-25 | Jun-25 | Sep-25 |
| BANK RATE | 2.25 | 2.50 | 2.75 | 2.75 | 2.75 | 2.50 | 2.50 | 2.25 | 2.25 | 2.25 | 2.25 | 2.25 | 2.00 |

## 8. Casgliad

Roedd perfformiad Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth o fuddsoddiadau risg isel / enillion isel a dull benthyca a ddyluniwyd i leihau ffioedd llog i'r eithaf.

Mae'r perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a osodwyd gan y Cyngor, yn dangos bod gweithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cael eu cynnal mewn ffordd reoledig sy'n sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor ac nad ydynt yn rhoi'r Cyngor mewn unrhyw berygl ariannol sylweddol o ran benthyca anfforddiadwy neu ormodol.

Mae Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, a'i berfformiad yn erbyn y strategaeth, yn ystyried y ffactorau economaidd allanol ac mae'n cael ei hadolygu'n gyson i sicrhau mai hon yw'r strategaeth fwyaf priodol wrth symud ymlaen.

## 9. ARGYMHELLION

Argymhellir bod y Pwyllgor yn:-

**(i)** Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro nes bod yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2021/22 wedi'i gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol sy'n deillio o'r ffigyrau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn;
**(ii)** Nodi'r dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro ar gyfer 2021/22 yn yr adroddiad hwn;
**(iii)** Ystyried yr adroddiad rheoli trysorlys blynyddol ar gyfer 2021/22 a'i gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith gydag unrhyw sylwadau.

**Papurau Cefndir:**

Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021/22
Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys 2021/22
Adroddiad Adolygiad Canol Bwlyddyn ar Reoli'r Trysorlys 2021/22
Adroddiad Alldro Cyfalaf 2021/22

**R MARC JONES**
**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) /**
**SWYDDOG ADRAN 151** **9 MEDI 2022**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 28 Medi 2022 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Yn unol â 'Strategaeth Cyfarfodydd Pwyllgor' y Cyngor, mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n amlinellu'r dyletswyddau deddfwriaethol sydd i'w cyflawni gan bwyllgor archwilio'r Cyngor, yn benodol, goruchwylio trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod. | |

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 31 Awst 2022 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 29 Mehefin 2022, llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.




# DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

## MEDI 2022

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS, Pennaeth Archwilio a Risg**

MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CYNNWYS

GWAITH SICRWYDD A GWBLHAWYD ERS Y DIWEDDARIAD DIWETHAF ______ 3
Rheoli'r risg o dwyll a llygredd wrth gaffael ______ 3
Taliadau Uniongyrchol ______ 4
Rheoli Gwendid TG ______ 4
Parhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) - Dilyniant Cyntaf ______ 5
YMCHWILIAD ______ 6
Taliad Dyblyg ______ 6
GWAITH AR Y GWEILL ______ 7
CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL ______ 8
BLAENORIAETHAU AR GYFER 2022-23 A THU HWNT ______ 9
Capasiti Presennol ______ 9
Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig ______ 9
Blaenoriaethau Hirdymor ______ 9
ATODIAD 1 - CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL AR 31 AWST 2022 (DANGOSFWRDD 4ACTION) ______ 10

# GWAITH SICRWYDD A GWBLHAWYD ERS Y DIWEDDARIAD DIWETHAF

1. Mae’r adran hon yn darparu trosolwg o adroddiadau archwilio mewnol a gwblhawyd ers y cyfarfod ym Mehefin 2022, yn cynnwys y raddfa sicrwydd gyffredinol a nifer y materion/risgiau a godwyd.

2. Rydym wedi cwblhau **pedwar** darn o waith sicrwydd yn ystod y cyfnod dan sylw, wedi’u crynhoi isod:

| Teitl | Cyf. Cofrestr Risgiau Corfforaethol | Dyddiad yr Adroddiad Terfynol | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli'r risg o dwyll a llygredd wrth gaffael | n/a | Gorffennaf 2022 | Rhesymol | 0 | 0 | 6 | 6 |
| Taliadau Uniongyrchol | n/a | Awst 2022 | Rhesymol | 0 | 0 | 5 | 5 |
| Rheoli Gwendid TG | YM4 | Awst 2022 | Cyfyngedig | 0 | 4 | 1 | 5 |
| Parhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) - Dilyniant Cyntaf | YM4 | Awst 2022 | Rhesymol | 0 | 1 | 2 | 3 |

## Rheoli'r risg o dwyll a llygredd wrth gaffael

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 6 | Cymedrol |

3. Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

   **A oes gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i ddiogelu rhag y risg o dwyll a llygredd yn ei weithgareddau caffael?**

4. Daeth ein hadolygiad i’r casgliad, er bod trefniadau rhesymol yn bodoli o ran polisïau a gweithdrefnau i ddiogelu rhag y risg o dwyll a llygredd yng ngweithgareddau caffael y Cyngor, bod cyfleoedd i wella’r trefniadau drwy ddiweddaru dogfennau, creu diwylliant sy’n ymwybodol o risg o fewn y gweithlu a datblygu mesurau gwrth-dwyll rhagweithiol o fewn y swyddogaeth gaffael.

5. Codwyd chwe mater/risg cymedrol y mae angen sylw rheolwyr arnynt, a fydd, wedi mynd i'r afael a nhw, yn helpu i gryfhau trefniadau atal twyll caffael presennol y Cyngor. Yn gyffredinol, fodd bynnag, rydym yn gallu rhoi sicrwydd **rhesymol** o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn y maes hwn ac rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwyr.

## Taliadau Uniongyrchol

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 5 | Cymedrol |

6. Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

   **A yw'r Cyngor yn annog, rheoli a chefnogi pobl yn effeithiol i ddefnyddio taliadau uniongyrchol?**

7. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli risgiau sy'n ymwneud â Thaliadau Uniongyrchol yn rhesymol, er ein bod wedi nodi rhai materion y mae angen i'r Cyngor eu datrys. Mae amgylchedd rheoli derbyniol ar waith, ond gellir gwneud gwelliannau.

8. Er ein bod wedi codi pum mater/risg, sydd angen sylw rheolwyr cymedrol i isel ar lefel gwasanaeth, mae canlyniad ein hadolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan ac rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwyr. Felly, o fewn cwmpas ein hadolygiad, gallwn roi sicrwydd **rhesymol** o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn y maes hwn.

## Rheoli Gwendid TG

| Sicrwydd Cyfyngedig | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 4 | Sylweddol |
| | 1 | Cymedrol |

9. Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

   **A oes gan y Cyngor reolaethau priodol ar waith i leihau risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â gwendidau TG ar draws ei seilwaith TG?**

10. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad, er bod yr uned TG yn gweithredu rhai camau rheoli da o ran rheoli bregusrwydd, mae diffyg polisïau ffurfiol, gweithdrefnau a phrosesau rheoli newid, a thystiolaeth annigonol o ddiweddariadau dyfeisiau defnyddwyr o bell, yn gwneud y Cyngor yn agored i risg yn y maes hwn. Rydym yn cydnabod bod yr uned TG yn y broses o weithredu datrysiad - Microsoft Endpoint, i wella gwelededd a rheolaeth yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae diffyg cyflwyniad strwythuredig o'r system yn golygu bod y cynnydd hyd yma wedi bod yn araf a bod risgiau sylweddol yn bodoli yn y cyfamser.

11. Felly dim ond sicrwydd **cyfyngedig** y gallwn ei roi o'r trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli ar hyn o bryd. Mae'r adolygiad wedi nodi pum mater/risg y mae angen sylw rheolwyr arnynt, a chaiff pedwar ohonynt eu dosbarthu fel 'sylweddol'. Rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwyr, yr ydym wedi manylu arno mewn dogfen ar wahân ac wedi'i ddarparu ar wahân i aelodau'r Pwyllgor.

## Parhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) – Dilyniant Cyntaf

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 1 | Sylweddol |
| | 2 | Cymedrol |

12. Ceisiodd ein hadolygiad benderfynu:

    **A yw'r rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r 'materion/risgiau' sy'n weddill a godwyd yn wreiddiol yn ein hadroddiad Sicrwydd Cyfyngedig ar Barhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) ym mis Mai 2021?**

13. Daeth ein hadolygiad dilynol i'r casgliad bod y Cyngor yn y broses o gryfhau ei reolaethau yn y maes hwn a'i fod wedi gwneud nifer o welliannau technegol a gweithdrefnol, sy'n helpu i liniaru'r risg o ymosodiad gwe-rwydo llwyddiannus.

14. Mae canlyniadau profion gwe-rwydo mwyaf diweddar hefyd yn dangos gwelliant cyffredinol yn ymwybyddiaeth seiber y staff ers ein hadolygiad gwreiddiol ac rydym yn fodlon bod trefniadau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwe-rwydo wedi gwella ers ein hadolygiad cychwynnol. Rydym felly wedi cynyddu'r sicrwydd i '**Rhesymol**'.

15. Fodd bynnag, oherwydd difrifoldeb a maint y risg yn y maes hwn, mae gwaith pellach i gynnal a gwella ymwybyddiaeth staff o we-rwydo a seiberddiogelwch yn hanfodol. Yng ngoleuni effaith bosibl y risg a wynebir gan y Cyngor yn y maes hwn, rydym wedi cytuno i gynnal adolygiad dilynol pellach ym mis Chwefror 2023 i sicrhau bod y camau gweithredu sy'n weddill yn cael eu rhoi ar waith a'u hymgorffori'n effeithiol.

# YMCHWILIAD

## Taliad Dyblyg

16. Ar 1 Ebrill 2022, fe wnaeth y Swyddog Taliadau ddarganfod bod y Cyngor wedi gwneud taliad dyblyg o £194k i gontractwr - y taliad cyntaf ar 15/03/2022 a'r ail ar 22/03/2022.

17. Gofynnodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 am ymchwiliad i benderfynu sut y digwyddodd y mater hwn.

18. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad mai problemau gyda'r system a'r sganiwr, a diffyg monitro ariannol oedd gwraidd y broblem hon. Yn ogystal, mae'r Adain Daliadau yn parhau i dderbyn nifer fawr o anfonebau dyblyg, yn uniongyrchol gan gyflenwyr a gwasanaethau. Mae hyn yn cynyddu'r risg y bydd y Cyngor yn talu anfonebau fwy nag unwaith.

19. Er mwyn datrys y materion hyn, mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 wedi ymrwymo i:

    - datblygu a gweithredu Cofrestr Contractau o fewn y Tîm Taliadau, lle bydd yr holl daliadau contract yn cael eu cofnodi a'u monitro
    - comisiynu Civica i gynnal 'gwiriad iechyd' o'r system a'r prosesau a ddefnyddir gan y Tîm Taliadau i sicrhau bod y Cyngor yn cael y defnydd gorau o'r system.

20. Yn ogystal, mae materion/risgiau a nodwyd yn ystod adroddiadau archwilio mewnol blaenorol yn dal heb eu datrys, a bydd y Rheolwr Busnes newydd yn gweithio i'w datrys gyda'r Tîm Taliadau.

# GWAITH AR Y GWEILL

21. Mae'r darnau canlynol o waith ar y gweill ar hyn o bryd:

| Maes Archwilio | Cyf Cofrestr Risgiau Corfforaethol | Gwasanaeth | Rheswm am yr Archwiliad | Cam |
|---|---|---|---|---|
| Gwiriad Iechyd Newid Hinsawdd (Zurich Municipal) | YM13 | Corfforaethol | Cofrestr Risgiau Strategol | Adroddiad Drafft |
| Treth y Cyngor ac Ad-daliadau NNDR | n/a | Adnoddau | Pryderon a godwyd yn ystod archwiliad Taliadau Dyblyg | Gwaith maes |
| Trin Arian Parod yn Cyswllt Môn | n/a | Corfforaethol | Pryderon a godwyd yn ystod archwiliad Treth Cyngor ac Ad-daliadau NNDR | Gwaith maes |
| Gwydnwch Ariannol | YM1 | Adnoddau | Cofrestr Risgiau Strategol | Cwmpas wedi'i gytuno |
| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | n/a | Adnoddau | Pryderon a godwyd yn ystod archwiliad Pensiynau Athrawon | Cwmpas wedi'i gytuno |

# CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL

22. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i roi'r holl gamau gweithredu sy'n weddill ar waith. Mae'r dangosfwrdd 4action yn Atodiad 1 yn darparu trosolwg o statws y camau gweithredu ar 31 Awst 2022.

23. Mae dau gam gweithredu hwyr ar hyn o bryd (0 Sylweddol; 2 Cymedrol), sydd yn dod o fewn y gwasanaeth Adnoddau ac yn ymwneud â 'Materion/Risgiau' a godwyd mewn un archwiliad:

    - Proses Ymadawyr

24. Rydym yn gweithio gyda'r gwasanaeth i roi cymorth i roi'r camau gweithredu ar waith.

25. Mae adroddiad manylach ar yr holl gamau gweithredu sy'n weddill yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod hwn hefyd.

# BLAENORIAETHAU AR GYFER 2022-23 A THU HWNT

## Capasiti Presennol

26. Ar hyn o bryd rydym yn cario dwy swydd wag ar lefel Uwch Archwiliwr - un oherwydd secondiad tymor hir ac un oherwydd ymddiswyddiad. Ar hyn o bryd rydym yn ceisio recriwtio un o'r swyddi am y trydydd tro.
27. Rydym yn defnyddio'r arbedion cyllidebol i gomisiynu cymorth allanol ychwanegol, gan gynnwys archwiliad TG technegol gan y Tîm Archwilio TG yng Nghyngor Salford.

## Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig

28. Rydym yn parhau i gyflawni'r Strategaeth Archwilio Mewnol Flynyddol ar gyfer 2022-23 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2022. Ein blaenoriaeth yw adolygu'r risgiau1 'coch' ac 'ambr' nad ydym wedi'u hadolygu eto, neu nad ydynt wedi'u hadolygu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, tra'n parhau i fod yn hyblyg i ymateb i geisiadau am gymorth a sicrwydd gan wasanaethau, ac ymateb i ymchwiliadau.
29. Byddwn yn parhau i hyrwyddo a monitro mynd i'r afael â materion/risgiau archwilio mewnol sy'n weddill.
30. Rydym ar hyn o bryd yn cynnal hunanasesiad gydag aelodau'r Pwyllgor i bennu anghenion hyfforddi a datblygu'r aelodau etholedig a lleyg newydd.
31. Rydym wedi cynnal Asesiad Ansawdd Allanol o gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yng Nghyngor Sir Ceredigion a byddwn yn cyflwyno ein hadroddiad i'w Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 21 Medi 2022.
32. Rydym hefyd ar hyn o bryd yn destun Asesiad Ansawdd Allanol, sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Sir y Fflint.

## Blaenoriaethau Hirdymor

- Cyflawni Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-24, gan gynnwys parhau i fynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Cymru sydd wedi'u cynnwys yn ei adroddiad 'Gwella Ein Perfformiad - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru'.
- Gweithio gyda chydweithwyr yn y Tîm Perfformiad i wella mapio sicrwydd ar draws y Cyngor a chyfrannu at ddatblygiad y Grŵp Adolygu Perfformiad.

---

[1] Mae'r diweddariad Rheoli Risg Strategol, a gyflwynwyd i Ran II o'r Pwyllgor hwn, yn manylu ar y risgiau 'coch' ac 'ambr' sy'n weddill a'r sicrwydd cysylltiedig yr ydym wedi'i ddarparu.

# ATODIAD 1 – CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL AR 31 AWST 2022 (DANGOSFWRDD 4ACTION)



















## Outstanding Red Issues/Risks

| ID | Summary |
|---|---|

0 of 0

Items per page: 10

## Outstanding Limited Assurance Reports

| Audit Title | Count |
|---|---|
| Payments - Supplier Maintenance 202107 | 5 |
| Recovering Council Debt 202110 | 8 |
| Identification of Duplicate Invoices and Recovery of Duplicate Payments 202118 | 5 |
| ICT Software Licence Management 212208 | 8 |
| Teachers' Pensions Part 1 212212 | 4 |

## Outstanding Amber Issues/Risks

| ID | Summary |
|---|---|
| 4148 | Business Continuity 3 - Our testing identified a lack of quality assurance activity over corporate and service business continuity plans and key... |
| 4157 | IT Resilience 2 - There is a lack of continuity and co-ordination between the Council's corporate business continuity plans and the IT disaster... |
| 4212 | Financial Resilience 2 - Progress with undertaking an exercise to map sources of assurance to support the Council's governance framework and ensure... |
| 5048 | Supplier Maintenance & Duplicate Payments 2 - The high volume of invoices raised without a supporting purchase order creates an unnecessary... |
| | Supplier Maintenance & Duplicate Payments 1 - Staff in services are still |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | | |
|---|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | |
| **Dyddiad:** | 28 Medi 2022 | |
| **Pwnc:** | 'Materion/Risgiau' sydd angen sylw | |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Adnoddau / Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru | |
| **Awduron yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru | Nanette Williams<br>Prif Archwilydd<br>NanetteWilliams@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm am Adrodd:**<br>Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rhoi'r cyfrifoldeb iddo fonitro'r gwaith o weithredu gweithredoedd y cytunwyd arnynt. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar statws a manylion y risgiau sydd angen sylw a godwyd gan Archwilio Mewnol. | | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae Archwilio Mewnol, ar ran y Cyngor, yn monitro materion a risgiau a nodwyd yn ystod gwaith archwilio trwy ei system dracio, *4 action*.

1.2. Mae dangosfwrdd yn rhoi cipolwg amser real o berfformiad cyfredol wrth fynd i'r afael â gweithredoedd sydd angen sylw ac mae'n caniatáu i'r wybodaeth hon gael ei thracio a'i hadrodd yn effeithiol. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn rhannu'r dangosfwrdd hwn yn rheolaidd gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o'i hadroddiadau diweddaru archwilio mewnol.

1.3. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn am adroddiad manwl, ar wahân, sydd yn manylu ar berfformiad cyffredinol wrth fynd i'r afael â gweithredoedd archwilio, a hynny ddwywaith y flwyddyn. Yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2021, ystyriodd a phenderfynodd y Pwyllgor blaenorol ar lefel y manylion i'w cynnwys yn yr adroddiad er mwyn diwallu ei anghenion sicrwydd yn y maes hwn.

## 2. ARGYMHELLION

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- nodi cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r 'Materion/Risgiau' Archwilio Mewnol sydd angen sylw.
- cefnogi'r cynnig fod perchnogion gweithredoedd 'sylweddol' neu 'ambr', nad ydynt wedi cael eu datrys 12 mis ar ôl i'r dyddiad targed gwreiddiol fynd heibio, yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor er mwyn rhoi gwybodaeth am y rheswm dros unrhyw oedi wrth fynd i'r afael â'r mater/risg.



# RISGIAU / MATERION SYDD ANGEN SYLW

## Medi 2022


Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS, Pennaeth Archwilio a Risg

Nanette Williams MSc CMIIA CIA, Prif Archwilydd


CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CYNNWYS

CYFLWYNIAD 1
PERFFORMIAD PRESENNOL 2
ATODIAD 1: STATWS MANWL MATERION/RISGIAU GRADD 'SYLWEDDOL' SYDD ANGEN SYLW 5

# CYFLWYNIAD

1. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rhoi'r cyfrifoldeb iddo fonitro'r gwaith o weithredu gweithredoedd y cytunwyd arnynt o ganlyniad i waith Archwilio Mewnol. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad manwl yn dangos perfformiad y Cyngor wrth fynd i'r afael â gweithredoedd sydd angen sylw, a hynny ddwywaith y flwyddyn yn ei gyfarfodydd ym mis Ebrill a mis Medi.

2. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Archwilio Mewnol wedi rhoi'r gorau i wneud argymhellion ond yn hytrach mae'n codi 'Materion' a 'Risgiau'. I annog rheolwyr i gymryd perchnogaeth o'r risgiau hyn, eu cyfrifoldeb nhw yw datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion / risgiau a nodwyd.

3. Mae materion / risgiau yn cael eu dilyn i fyny trwy fonitro sut mae rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r risgiau. Mae adroddiadau a dderbyniodd sicrwydd 'Cyfyngedig' neu 'Dim' sicrwydd yn derbyn adolygiad dilyn i fyny ffurfiol gan Archwilio Mewnol ac mae adroddiad archwilio yn cael ei lunio a gradd sicrwydd yn cael ei roi. Rydym yn monitro'r holl faterion / risgiau gan ddefnyddio system dracio gorfforaethol y Cyngor (*4action*).

4. Yn dilyn cwblhau diweddariad cyflawn o'r system *4action* yn 2020, rydym yn falch o adrodd fod y system newydd yn parhau i fod yn llwyddiannus iawn o ran gwella ein prosesau dilyn i fyny archwilio mewnol a phrosesau tracio gweithredoedd.

5. Rydym wedi datblygu a mireinio dangosfwrdd i ddefnyddwyr ar *4action*, sydd yn dangos cipolwg amser real o berfformiad cyfredol wrth fynd i'r afael â gweithredoedd sydd angen sylw ac sy'n caniatáu i'r wybodaeth hon gael ei thracio a'i hadrodd yn effeithiol. Rydym yn monitro gweithredoedd 'hwyr' yn barhaus ac felly rydym yn gallu derbyn diweddariadau yn brydlon gan reolwyr am gynnydd wrth fynd i'r afael â nhw.

6. Rydym wedi datblygu dangosfwrdd gwasanaeth unigryw hefyd i gynorthwyo Penaethiaid Gwasanaeth a'u timau rheoli i fonitro a darparu diweddariadau am eu gweithredoedd. Ar hyn o bryd rydym yn treialu hyn gyda'r gwasanaeth Adnoddau ac, os yw'n llwyddiannus, byddwn yn parhau i'w gyflwyno i wasanaethau eraill ar draws y Cyngor yn ystod 2022-23.

# PERFFORMIAD PRESENNOL

7. Mae'r pum graff a ganlyn yn dangos y gweithredoedd sydd angen sylw ar draws y Cyngor ar 31 Awst 2022. Mae diweddariad statws manwl ar y 18 mater/risg 'sylweddol' sydd angen sylw wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

8. Dylid nodi na chodwyd unrhyw faterion/risgiau 'Coch' yn ystod y flwyddyn ac nid oes unrhyw 'faterion/risgiau' Coch sydd angen sylw ar hyn o bryd.

1




2




9. Ar 31 Awst 2022 rydym yn tracio 69 o weithredoedd sydd angen sylw yn *4action*. O'r gweithredoedd hyn, rhoddwyd gradd 'sylweddol' (ambr) i 18 ohonynt a blaenoriaeth risg 'cymedrol' (melyn) i 51, fel y dangosir yng ngraff 1.

10. Rydym yn cymryd camau pendant i fonitro'r holl weithredoedd ac yn cysylltu â rheolwyr ar ddiwedd y cyfnod gweithredu i sicrhau eu bod wedi derbyn sylw. Ar hyn o bryd mae dwy weithred wedi cyrraedd eu dyddiad targed ac erbyn hyn maent yn 'hwyr', fel y dangosir yng ngraff 2.

11. Effaith 'gymedrol' sydd i'r ddau ac maent yn ymwneud â'r Gyflogres o ran prosesu cofnodion ar gyfer staff sy'n gadael cyflogaeth y Cyngor; sef y trefniadau dilysu ar gyfer gwneud taliadau i berthnasau gweithwyr sydd wedi marw, a gwelliannau cyffredinol i'r broses gadawyr er mwyn lleihau camgymeriadau.

12. Ar hyn o bryd mae'r Uned AD yn gweithio gyda'r tîm Taliadau i ddatblygu canllawiau i wasanaethau ynghylch dilysu taliadau lle mae gweithiwr wedi marw tra eu bod yn gweithio i'r Cyngor. Yn ogystal, yn ddiweddar mae'r Gwasanaeth Adnoddau wedi penodi Rheolwr Busnes fydd yn cefnogi timau yn y gwasanaeth, megis y tîm Taliadau, i fynd i'r afael â materion / risgiau sydd angen sylw.

3




4




13. Dengys y graffiau uchod statws yr holl weithredoedd, h.y., a ydynt ‘ar y gweill’, ‘heb gychwyn’ neu ‘wedi cau’ os yw’r weithred wedi cael sylw. Mae archwilio mewnol yn dilysu’r holl weithredoedd sydd wedi cau i sicrhau ein bod yn fodlon fod y camau a gymerwyd gan reolwyr wedi mynd i’r afael â’r risg a nodwyd yn wreiddiol.

14. Mae Graff 3 yn dangos statws yr holl weithredoedd sy’n parhau i fod angen sylw (ni waeth erbyn pa ddyddiad y mae rheolwyr wedi cytuno rhoi sylw iddynt). Mae’n dangos fod rheolwyr wedi rhoi sylw i 52% erbyn hyn a bod Archwilio Mewnol wedi dilysu 51%. Mae’r 1% sy’n weddill yn ymwneud â gweithredoedd o ddau archwiliad: ‘Gwytnwch Ariannol’ a ‘Llywodraethu Gwybodaeth’, ac yn ddiweddar mae rheolwyr wedi cadarnhau eu bod wedi cael eu cwblhau ac rydym wrthi’n eu dilysu.

15. Mae’r rhan fwyaf o weithredoedd y nodir eu bod ‘heb gychwyn’ yn ymwneud â sawl archwiliad a gwblhawyd yn ddiweddar sef, ‘Rheoli Trwyddedau Meddalwedd’, ‘Pensiynau Athrawon’, ‘Recriwtio a Chadw’, ‘Rheoli’r Risg o Dwyll a Llygredd ym maes Caffael’ a ‘Darpariaeth Addas o Dai’. Nid yw’r gweithredoedd a nodwyd yn ystod yr archwiliadau hyn wedi cyrraedd y dyddiadau cwblhau a ragwelwyd ar eu cyfer eto. Pan fydd y dyddiadau hyn yn dynesu byddwn yn gofyn i reolwyr am ddiweddariad er mwyn penderfynu ar gynnydd.

16. Mewn cyferbyniad, mae Graff 4 yn dangos statws yr holl weithredoedd sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed. Mae’n dangos fod 97% o’r rhai yr oedd disgwyl iddynt gael eu cwblhau wedi cael eu cwblhau. O’r rhai hyn, mae Archwilio Mewnol wedi dilysu bron y cwbl ohonynt. Mae’r ganran fechan sy’n cael eu dangos fel ‘heb gychwyn’ ac ‘ar y gweill’ yn ymwneud â’r gweithredoedd Cyflogres sydd yn hwyr ac maent yn gysylltiedig â’r broses gadawyr, fel y manylwyd arnynt yn gynharach yn yr adroddiad.

17. O bryd i’w gilydd byddwn yn ymestyn y dyddiadau targed ar gyfer rhai gweithredoedd, ond dim ond os gall y gwasanaeth ddangos bod rheswm dilys dros yr estyniad e.e. daw’n amlwg nad oes modd cyflawni’r dyddiad targed gwreiddiol gan fod angen cryn dipyn mwy o waith i fynd i’r afael â’r mater/risg. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol oherwydd yr argyfwng COVID-19 a’r cyfnod adfer sy’n mynd rhagddo, gan fod

gwasanaethau, yn amlwg, wedi rhoi blaenoriaeth i ymateb i'r pandemig ac yna adfer yn dilyn y pandemig.

5




18. Fel y manylir uchod, nid yw 69 o weithredoedd sydd angen sylw wedi cael eu cwblhau'n llawn eto.

19. Maent yn perthyn i'r cyfnod rhwng 2017/18 a 2021/22. Er bod graff 5 yn dangos fod y mwyafrif yn ymwneud â'r ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, mae tri mater/risg yn mynd yn ôl i 2017/18 nad yw rheolwyr wedi mynd i'r afael yn llawn â nhw eto. Maent yn ymwneud â gwella a gwneud arbedion ym mhrosesau Dyledwyr Amrywiol y Cyngor.

20. Maent yn cael eu graddio fel 'cymedrol' neu 'felyn' o ran blaenoriaeth risg ac mae'r gwaith o fynd i'r afael â nhw yn rhan o'r prosiect ymgynghorol sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn y Tîm Incwm, a chynlluniau cyffredinol i ailstrwythuro'r adran Refeniw a Budd-daliadau. Yn fuan, byddwn yn dilyn i fyny cynnydd wrth fynd i'r afael â'r gweithredoedd hyn fel rhan o'r adolygiad dilyn i fyny a gynlluniwyd gennym ar gyfer y prosiect ym mis Hydref 2022.

21. Dylid nodi nad oes unrhyw risgiau/faterion 'sylweddol' neu 'ambr' yn dyddio'n ôl yn bellach na 2019/20, fel y dangosir uchod. Mae hyn yn dangos fod mynd i'r afael â risgiau sydd â blaenoriaeth risg uchel yn cael blaenoriaeth gan reolwyr.

22. Serch hynny, er mwyn sicrhau fod gwasanaethau'n mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r materion/risgiau yn brydlon, rydym yn bwriadu gofyn i berchnogion gweithredoedd fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio os nad yw mater/risg gradd 'sylweddol' neu 'ambr' wedi'i ddatrys 12 mis ar ôl i'r dyddiad targed gwreiddiol basio. Rhydd hyn gyfle i'r swyddog esbonio i'r Pwyllgor pam fod oedi wrth fynd i'r afael â'r mater/risg.

23. Mae diweddariad statws manwl o'r 18 mater/risg sydd â gradd 'sylweddol' neu 'ambr' sydd angen sylw ac sy'n cael eu tracio yn *4action* ar hyn o bryd yn dilyn yn Atodiad 1.

24. Byddwn yn ceisio mynd ar ôl yr holl weithredoedd sydd angen sylw er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.

# ATODIAD 1: STATWS MANWL MATERION/RISGIAU GRADD 'SYLWEDDOL' SYDD ANGEN SYLW

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Gradd Sicrwydd* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Parhad Busnes** | 2019/20 | Ionawr 2020 | 30/11/22 | **Rhesymol** | Canfu ein profion ddiffyg gweithgarwch sicrwydd ansawdd mewn perthynas â chynlluniau parhad busnes gwasanaethau a dogfennau allweddol. | Gweithred 60% yn gyflawn.<br>Mae llawer o'r gwaith yn gysylltiedig â mynd i'r afael â'r mater/risg hwn yn ddibynnol ar y gwaith a nodir isod ynghylch alinio Cynlluniau Parhad Busnes gwasanaethau gyda threfniadau adfer yn dilyn trychineb TG. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Mae'r Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) wedi derbyn cyfrifoldeb am y weithred hon yn dilyn ymddeoliad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r gwasanaeth cynllunio argyfwng rhanbarthol yn gwneud rhagor o waith er mwyn adolygu dogfennau templed Cynllunio Parhad Busnes a darparu hyfforddiant ar sut i'w defnyddio. |
| **Gwytnwch TG** | 2019/20 | Chwefror 2020 | 30/11/22 | **Rhesymol** | Nid oes parhad a chydlyniant rhwng cynlluniau parhad busnes corfforaethol y Cyngor a'r cynllun adfer yn dilyn trychineb TG. | Gweithred 80% yn gyflawn.<br>Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda gwasanaethau i alinio cynlluniau Parhad Busnes Corfforaethol gyda'r cynllun Adfer yn dilyn Trychineb TG. Fel y manylir uchod, mae'r Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) wedi gofyn am hyfforddiant gan y gwasanaeth cynllunio argyfwng rhanbarthol ar sut i ddefnyddio'r templedi diwygiedig ar gyfer cynllunio parhad busnes. |
| **Gwytnwch Ariannol** | 2019/20 | Ebrill 2020 | 31/10/22 | **Rhesymol** | Araf fu cynnydd wrth gwblhau ymarfer i fapio ffynonellau sicrwydd i gefnogi fframwaith sicrwydd y Cyngor a sicrhau ei fod yn parhau i dderbyn darpariaethau sicrwydd digonol ar draws ei wasanaethau. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir trwy bartneriaethau, contractau a modelau amgen o ddarparu gwasanaethau. | Gweithred 50% yn gyflawn.<br>Cwblhawyd adolygiad o'r gwaith mapio sicrwydd ar draws y sector llywodraeth leol yng Nghymru a gwnaed cyfres o argymhellion o ganlyniad i'r canfyddiadau. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Adolygu Perfformiad a phenodi aelodau iddo, a chynhaliwyd nifer o gyfarfodydd hyd yma. Ar ôl cytuno ar Gôd Llywodraethu Lleol y Cyngor 2022-27, bydd cyfarfod nesaf y grŵp, a drefnwyd ar gyfer mis Medi 2022, yn canolbwyntio ar fapio sicrwydd. |

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Gradd Sicrwydd* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynnal Cyflenwyr a Thaliadau Dyblyg** | 2020/21 | Ionawr 2021 | 30/11/22 | **Cyfyngedig** | Mae'r nifer uchel o anfonebau a godir heb archeb brynu yn arwain at gynnydd dianghenraid ym maich gwaith y tîm Taliadau ac mae'n groes i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol hefyd, sydd yn nodi bod rhaid codi archeb brynu ar gyfer pob anfoneb cyn neu wrth archebu, ac eithrio anfonebau rheolaidd neu anfonebau ar gyfer cyfleustodau. Amlygodd profion fod nifer o archebion prynu yn cael eu codi yn ôl-weithredol, h.y., ar ôl dyddiad yr anfoneb. | Cynhaliom adolygiad dilyn i fyny ffurfiol o Gynnal Cyflenwyr a Thaliadau Dyblyg yn gynharach eleni a chyhoeddwyd yr adroddiad dilyn i fyny terfynol ym mis Ebrill 2022. Canfu ein hadolygiad fod gwasanaethau yn parhau i godi anfonebau heb archebion prynu ategol priodol ac mae hyn yn creu gwaith ychwanegol sylweddol i'r tîm Taliadau.<br><br>Rydym wedi cytuno gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth / Swyddog Adran 151 i gynnal adolygiad dilyn i fyny pellach er mwyn penderfynu ar gynnydd wrth fynd i'r afael â'r materion/risgiau sydd angen sylw yn y maes hwn ym mis Hydref 2022. |
| **Cynnal Cyflenwyr a Thaliadau Dyblyg** | 2020/21 | Ionawr 2021 | 30/11/22 | **Cyfyngedig** | Nid yw staff yn y gwasanaethau yn codi archebion prynu yn gywir, h.y. cynnwys llinell ar wahân ar gyfer pob eitem neu wasanaeth a archebir, a fyddai'n caniatáu marcio pob eitem ar wahân i ddangos iddi gael ei dderbyn. Byddai hyn yn caniatáu i anfoneb sy'n cyrraedd ar gyfer rhan o archeb yn unig gael ei baru a'i dalu'n awtomatig heb i'r gwasanaeth neu'r tîm Taliadau orfod ymyrryd. | Fel y nodwyd uchod, cynhaliom adolygiad dilyn i fyny o Gynnal Cyflenwyr a Thaliadau Dyblyg yn gynharach eleni. Canfu ein hadolygiad bod gwasanaethau'n parhau i beidio â chodi archebion prynu yn gywir ac o'r herwydd mae nifer yr anfonebau sy'n cael eu gwrthod gan y System Daliadau'n uchel.<br><br>Byddwn yn cynnal adolygiad dilyn i fyny pellach yn y maes hwn ym mis Hydref 2022. |
| **Panel Rhiant Corfforaethol** | 2020/21 | Ionawr 2021 | 31/12/22 | **Rhesymol** | Er gwaethaf ei nodi yn 2017 fel y fframwaith sydd raid wrtho i alluogi a sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau rhianta corfforaethol, nid yw'r Cyngor wedi cwblhau a chyhoeddi ei 'Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal a Gadawyr Gofal' hyd yma. Yn yr un modd, nid yw'r Cyngor ychwaith wedi mynegi ei ymrwymiad na'i 'addewid' i'w blant a'i bobl ifanc sy'n derbyn gofal, fel y penderfynwyd hefyd i'w flaenoriaethu yn 2017. | Gweithred 75% yn gyflawn.<br>Rhoddwyd cyflwyniad ar y Strategaeth Rhianta Corfforaethol i'r Panel Rhiant Corfforaethol ym mis Mawrth 2022. Darparodd y Cyngor hyfforddiant yn y maes hwn i'r holl aelodau ym mis Gorffennaf 2022. Cyflwynir y Strategaeth Rhianta Corfforaethol yn ffurfiol i'r Panel newydd, er mwyn derbyn mewnbwn a'i ddatblygu, ym mis Rhagfyr 2022. |

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Gradd Sicrwydd* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Parhad Gwasanaeth TGCh (Gwe-rwydo)** | 2020/21 | Mai 2021 | 28/02/23 | **Rhesymol** | Dangosodd canlyniadau'r prawf gwe-rwydo diweddar a gomisiynwyd gan yr adran TGCh y byddai gormod o ddefnyddwyr yn cael eu twyllo gan e-bost gwe-rwydo, er iddynt gwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth seibr. | Gweithred 50% yn gyflawn.<br>Yn ddiweddar, cynhaliom adolygiad dilyn i fyny ffurfiol o Barhad Gwasanaeth TGCh (Gwe-rwydo). Canfu ein hadolygiad bod y Cyngor wedi gwneud nifer o welliannau technegol a gweithdrefnol sydd yn cynorthwyo i liniaru'r risg o ymosodiad gwe-rwydo llwyddiannus. Dengys canlyniadau'r prawf gwe-rwydo diweddaraf welliant cyffredinol yn ymwybyddiaeth seibr staff ers ein hadolygiad gwreiddiol. Serch hynny, mae angen gwneud rhagor o waith i gynnal a gwella ymwybyddiaeth staff o we-rwydo a seibr ddiogelwch.<br><br>Bydd y Pwyllgor yn derbyn diweddariad mwy manwl gennym ar y weithred hon fel rhan o'r Adroddiad Dilyn i Fyny terfynol ar gyfer y maes hwn. |
| **Gosodiadau Tai** | 2021/22 | Medi 2021 | 31/01/23 | **Rhesymol** | Nid yw'r broses ymgeisio am dŷ yn effeithiol ac mae'n cyfrannu at oedi yn y broses o osod tai gwag. | Gweithred 50% yn gyflawn.<br>Mae'r Gwasanaeth Tai wedi recriwtio Prentis Gwasanaeth Tai, a fydd yn helpu i gefnogi'r broses ymgeisio yn y cyfamser. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddigideiddio'r broses gais, ac mae'n rhan o brosiect ehangach porth digidol tenantiaid. |
| **Adennill Dyledion Amrywiol y Cyngor** | 2021/22 | Tachwedd 2021 | 31/10/22 | **Cyfyngedig** | Er gwaetha'r ffaith fod y system ddyledwyr yn dangos gostyngiad yn nifer a chyfanswm gwerth anfonebau sydd â statws 'adennill wedi'i atal' (*recovery suppressed*) ers ein hadolygiad diwethaf, canfu ein profion fod y Tîm Incwm yn osgoi dilyn y broses arferol. Mae'r Tîm Incwm yn gohirio camau adennill trwy ymyrryd â llaw yn hytrach na defnyddio'r swyddogaeth 'gohirio' yn y system a fyddai'n ailddechrau'r broses adennill yn awtomatig ar ôl 30 diwrnod. | Gweithred 50% yn gyflawn.<br>Comisiynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 gwmni ymgynghorol, CIWB, i weithio gyda'r Tîm Incwm i wella eu prosesau a mynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd yn yr archwiliad. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo ac yn dilyn diweddariad cynnydd dros dro ym mis Mawrth 2022, ar gais y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, byddwn yn cynnal adolygiad dilyn i fyny ffurfiol i sicrhau fod yr holl faterion/risgiau a nodwyd yn ystod ei hadolygiad gwreiddiol yn cael sylw ym mis Hydref 2022. |

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Gradd Sicrwydd* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adennill Dyledion Amrywiol y Cyngor** | 2021/22 | Tachwedd 2021 | 31/10/22 | Cyfyngedig | Mae'r cyfuniad o fethu â chymryd camau rhagweithiol i adennill dyledion y Cyngor ac uchafu gwaith adennill dyledion lle bo'n briodol, ynghyd ag adleoli Swyddogion Adennill ac atal yr holl waith adennill dyledion am chwe mis yn ystod y pandemig, wedi cyfrannu at y cynnydd yn y dyledion sydd heb eu casglu ers mis Mawrth 2020. | Fel yr uchod. |
| **Adennill Dyledion Amrywiol y Cyngor** | 2021/22 | Tachwedd 2021 | 31/10/22 | Cyfyngedig | Mae'r pandemig Covid-19 a materion technegol wedi effeithio ar fonitro perfformiad gwasanaethau a chyfraddau casglu ar lefel gwasanaeth a chorfforaethol. Yn ogystal, ychydig iawn o adolygu ac adrodd ar berfformiad a gafwyd ar gyfer dyledwyr amrywiol ers 2019/20. | Fel yr uchod. |
| **Llywodraethu Gwybodaeth** | 2021/22 | Ionawr 2022 | 31/03/23 | Rhesymol | Mae staff yn gallu cael mynediad at raglenni Microsoft Office 365 y Cyngor, gan gynnwys *Teams* a *SharePoint* (a data personol a sensitif a gedwir gan y Cyngor hefyd o bosib) gan ddefnyddio dyfeisiau symudol personol heb eu hamgryptio. | Nid yw'r cyfnod ar gyfer cwblhau'r gweithredoedd wedi dod i ben eto. |
| **Rheoli Trwyddedau Meddalwedd** | 2021/22 | Ionawr 2022 | 31/12/22 | Cyfyngedig | Nid yw'r Cyngor wedi llunio map llwybr neu strategaeth systemau busnes eto, sydd yn sylfaen i'r modd y bydd y Cyngor yn darparu ei wasanaethau digidol. Dylai map llwybr o'r fath gynnwys eitemau megis manylion gwerthwyr a chyflenwyr meddalwedd cymeradwy, meini prawf ar gyfer dewis gwerthwyr, yn ogystal â gofynion lletya a chymorth (mewnol yn erbyn gwasanaethau cwmwl ac ati). | Nid yw'r cyfnod ar gyfer cwblhau'r weithred wedi dod i ben eto. |

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Gradd Sicrwydd* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Recriwtio a Chadw** | 2021/22 | Mehefin 2022 | 31/12/22 | **Rhesymol** | Yn wreiddiol, datblygwyd Strategaeth Cynllunio Gweithlu'r Cyngor gan yr Uned Adnoddau Dynol yn 2012 ond nid yw wedi cael ei diweddaru ers 2019. Gan fod cynllunio datblygiad y gweithlu wedi'i sefydlu'n well ar draws y Cyngor erbyn hyn, byddai'r Strategaeth Datblygu'r Gweithlu'n elwa o gael ei hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn gyfredol ac yn cyd-fynd ag agwedd strategol y Cyngor yn y maes hwn, yn awr ac yn y dyfodol. | Nid yw'r cyfnod ar gyfer cwblhau'r weithred wedi dod i ben eto. |
| **Recriwtio a Chadw** | 2021/22 | Mehefin 2022 | 30/11/22 | **Rhesymol** | Byddai Cynlluniau Datblygu'r Gweithlu unigol rhai Gwasanaethau yn elwa o gael eu hadolygu a'u gwella. | Nid yw'r cyfnod ar gyfer cwblhau'r weithred wedi dod i ben eto. |
| **Recriwtio a Chadw** | 2021/22 | Mehefin 2022 | 31/01/23 | **Rhesymol** | Nid yw'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) yn derbyn fawr o wybodaeth ffurfiol, reolaidd am ddata recriwtio wedi'i ddadansoddi i sicrhau fod gan yr UDA ymwybyddiaeth dda o'r pwysau a'r tueddiadau recriwtio sy'n wynebu'r Cyngor ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar hyn o bryd oherwydd y problemau recriwtio staff cenedlaethol sy'n effeithio ar bob sector. | Nid yw'r cyfnod ar gyfer cwblhau'r weithred wedi dod i ben eto. |
| **Pensiynau Athrawon** | 2021/22 | Mehefin 2022 | 31/12/22 | **Cyfyngedig** | Dangosodd profion nad yw'r adroddiadau sy'n cael eu creu o'r system gyflogau yn tynnu data yn gyson a bod rhai cofnodion yn cael eu methu. Yn ogystal, nid yw'r adroddiadau'n cael eu cysoni cyn eu cyflwyno i'r Gwasanaeth Pensiwn Athrawon. Felly, ni allwn ddarparu sicrwydd fod y wybodaeth sy'n cael ei thynnu o'r system a'i llwytho i'r gwasanaeth Pensiynau Athrawon yn gyflawn neu'n gywir. | Nid yw'r cyfnod ar gyfer cwblhau'r weithred wedi dod i ben eto. |

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Gradd Sicrwydd* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pensiynau Athrawon** | 2021/22 | Mehefin 2022 | 31/12/22 | **Cyfyngedig** | Ni ddarparodd y Rheolwr Cyflogres a Thaliadau dystiolaeth fod adroddiadau gwallau yn cael eu hymchwilio neu y gweithredir arnynt. | Nid yw'r cyfnod ar gyfer cwblhau'r weithred wedi dod i ben eto. |

*Gradd sicrwydd bresennol - naill ai pan gynhaliwyd yr archwiliad gwreiddiol neu ar ôl cynnal adolygiad dilyn i fyny.

This page is intentionally left blank

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ebrill 2022



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

Cefndir 4

Negeseuon allweddol 7

Ffeithiau allweddol 9

Argymhellion 10

## Adroddiad manwl

1 Nid yw pobl yn cael eu hannog yn gyson i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol 14

2 Mae’r modd y rheolir ac y cefnogir pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol yn amrywio’n eang ac mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael gwasanaethau o safon wahanol 23

3 Mae Taliadau Uniongyrchol yn helpu pobl i fyw’n annibynnol a gwella’u llesiant, ond mae’n anodd asesu gwerth am arian ar y cyfan oherwydd cyfyngiadau o ran data a gwerthuso 38

## Atodiadau

1 Ymagwedd a dulliau archwilio 45

2 Pennu cymhwystra ar gyfer gofal a chymorth cymdeithasol 48

3 Oedolion yn cael gwasanaethau gofal cymdeithasol a drefnwyd gan yr awdurdod lleol yn 2018-19 49

4 Cyfraddau tâl fesul awr ar gyfer Cynorthwywyr Personol yn ôl awdurdod lleol 51

# Cefndir

## Cefndir

### Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

1 Fe wnaeth y Senedd basio'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn 2014 a daeth i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn ceisio symud i ffwrdd o'r ffyrdd traddodiadol o ddarparu gofal cymdeithasol, a oedd yn cael eu hystyried yn anghynaliadwy, i ddulliau sy'n canolbwyntio ar:

- a gwneud llesiant pobl yn ganolog i wasanaethau;
- b rhoi llais cryf a rheolaeth wirioneddol i bobl dros y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- c hybu modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau trwy roi adnoddau cymunedol ar waith a hybu mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol;
- ch blaenoriaethu gwasanaethau ataliol i osgoi neu ohirio'r angen am ofal;
- d gwneud systemau'n rhwyddach ac yn fwy hygyrch trwy leihau cymhlethdod a symleiddio trefniadau asesu a chynllunio gofal;
- dd trefniadau gweithio integredig ar draws ffiniau proffesiynol a sefydliadol i wneud y defnydd gorau o adnoddau a chyflawni'r deilliannau gorau; a
- e chryfhau trefniadau diogelu.

## Gall Taliadau Uniongyrchol wella dewis, rheolaeth ac annibyniaeth pobl

2 Gall Taliadau Uniongyrchol helpu i ddiwallu angen cymwys unigolyn am ofal a chymorth, neu angen gofalwr am gymorth. Maent yn ddewis yn lle gofal neu gymorth a drefnir gan yr awdurdod lleol. Nod Taliadau Uniongyrchol yw rhoi mwy o ddewis, mwy o hyblygrwydd a mwy o reolaeth i bobl dros y cymorth y maent yn ei gael. Gall Taliadau Uniongyrchol gael eu darparu ar gyfer pobl o bob oed os yw asesiad wedi canfod bod arnynt angen gwasanaethau gofal cymdeithasol i'w cefnogi gyda thasgau byw o ddydd i ddydd, os ydynt yn rhoi cydsyniad i gael Taliad Uniongyrchol ac os ydynt hwy (neu eu cynrychiolydd) yn gallu rheoli'r taliad.

3 Mae llawer o bobl yn defnyddio'u Taliadau Uniongyrchol i ariannu Cynorthwyydd Personol i'w helpu gydag amryw dasgau. Yn yr achosion, mae derbynyddion Taliadau Uniongyrchol yn dod yn gyflogwyr a rhaid iddynt gyflawni'r rhwymedigaethau cyfreithiol cysylltiedig. Mae rhai'n dewis defnyddio asiantaeth ofal yn lle hynny. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol roi cymorth a chynhorthwy i bobl reoli eu Taliad Uniongyrchol a'u cyfrifoldebau cyflogaeth. Gwneir hyn yn aml trwy wasanaeth cymorth a gomisiynir gan yr awdurdod lleol.

4 Gellir defnyddio Taliadau Uniongyrchol i brynu amrywiaeth eang o wasanaethau neu offer os yw'r rhain yn cyfrannu at gyflawni'r deilliannau llesiant y cytunwyd arnynt ar gyfer unigolyn. Gellir gwneud taliadau ar gyfer pethau o ddydd i ddydd megis gwisgo, coginio, gyrru a chymorth i hwyluso'r broses o ryddhau claf o'r ysbyty. Gellir eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol hefyd – ymweld â ffrindiau, dosbarthiadau nos a garddio – yn ogystal ag ar gyfer cynhorthwy i gael mynediad at hyfforddiant a chyflogaeth. Prif fantais Taliadau Uniongyrchol yw eu haddasrwydd. Gall defnyddwyr gwasanaethau eu defnyddio i drefnu eu gofal mewn ystod lawn o ffyrdd newydd a mwy effeithiol ac anogir awdurdodau lleol i archwilio opsiynau arloesol a chreadigol ar gyfer diwallu anghenion pobl.

5 Mae'r adroddiad hwn yn bwrw golwg ar y modd y mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau Taliadau Uniongyrchol ar gyfer oedolion, gan archwilio'u heffaith a'u gwerth am arian. Mae **Atodiad 1** yn darparu rhagor o fanylion am ein hymagwedd a'n dulliau archwilio. Mae **Arddangosyn 1** yn disgrifio nodweddion dull da o ymdrin â Thaliadau Uniongyrchol.

**Arddangosyn 1: nodweddion awdurdod lleol sy'n annog pobl, yn eu rheoli ac yn eu cefnogi'n effeithiol i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol**

| | |
|---|---|
| <br>**Awdurdodau lleol sy'n dda am hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol** | Mae ganddynt wybodaeth gyhoeddus syml a chryno y trefnir ei bod ar gael mewn ystod eang o gyfryngau ac sydd wedi cael ei phrofi i sicrhau ei bod yn effeithiol ac yn dweud yr hyn y mae ar bobl angen ei wybod<br>Maent yn cynnig ac yn annog pobl i ddefnyddio eiriolaeth annibynnol i helpu pobl i wneud dewisiadau gwybodus<br>Maent yn defnyddio'r sgwrs 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn y broses asesu i egluro Taliadau Uniongyrchol<br>Caiff Taliadau Uniongyrchol eu hyrwyddo fel opsiwn o leiaf yn gyfartal gyda dewisiadau eraill |
| <br>**Awdurdodau lleol sy'n rheoli Taliadau Uniongyrchol yn effeithiol** | Maent yn helpu pobl i gael gafael ar Gynorthwywyr Personol a'u defnyddio<br>Maent yn 'datgyfrinio' yr hyn yw Taliadau Uniongyrchol ac yn rhoi digon o gymorth i sicrhau pobl ynghylch gofynion o ran cyflogaeth, rhwymedigaethau a phrosesau i droi atynt. Cyfyngir i'r eithaf ar fiwrocratiaeth.<br>Maent yn nodi'n glir ar gyfer beth ellir defnyddio Taliadau Uniongyrchol gan roi enghreifftiau o'r math o gymorth sydd ar gael a, lle y bo'n bosibl, gan roi anogaeth i arloesi<br>Maent yn cynnal cyswllt rheolaidd a pharhaus ac yn rhoi cymorth a gwybodaeth i oedolion sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol i egluro cyfrifoldebau a sicrhau bod pobl yn cadw'n ddiogel<br>Maent yn gweithio i drefnu'r 'farchnad' a thrwy wella mynediad at Gynorthwywyr Personol, gan annog mwy o ddarparwyr, rheoli costau a rhoi anogaeth i gyfuno cyllidebau<br>Maent yn cytuno ar y cyd â chyrff y GIG sut orau i ddiwallu anghenion cleientiaid sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol a Gofal Iechyd Parhaus y GIG fel nad ydynt yn cael eu rhoi dan anfantais |
| <br>**Awdurdodau lleol sy'n cyflawni deilliannau cadarnhaol ar gyfer pobl sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol** | Maent yn dangos bod llesiant pobl yn cael ei gynnal neu'n gwella o ganlyniad i Daliadau Uniongyrchol<br>Mae ganddynt system gynhwysfawr ar gyfer monitro a gwerthuso pob agwedd ar Daliadau Uniongyrchol<br>Maent yn cynnwys ac yn gwerthfawrogi mewnbwn gan yr holl randdeiliaid/ partneriaid wrth werthuso effaith gwasanaethau<br>Maent yn cymharu ac yn meincnodi perfformiad unigol a chyfunol ag eraill ac yn defnyddio canfyddiadau gwerthuso i drefnu cynlluniau cyfredol a dulliau yn y dyfodol<br>Maent yn gwybod beth sy'n gweithio a pha un a yw dull yr awdurdod yn cyflawni dyheadau'r Ddeddf |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Negeseuon allweddol

6 Ein casgliad ar y cyfan yw bod **Taliadau Uniongyrchol yn cefnogi annibyniaeth pobl a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, ond bod anghysonderau o ran y ffordd y cânt eu hyrwyddo a'u rheoli gan awdurdodau lleol yn golygu nad yw gwasanaethau wastad yn gydradd a'i bod yn anodd asesu gwerth am arian ar y cyfan**.

7 Nid yw pobl yn cael eu hannog yn gyson i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol. Mae dull ymatebol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hanfodol i helpu pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol, ond mae'r ymgysylltiad ac ymwneud ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol yn anghyson. Er bod gwerth Taliadau Uniongyrchol yn cael ei gydnabod gan uwch reolwyr, nid yw staff gofal cymdeithasol wastad yn dangos hyder wrth hybu'r defnydd ohonynt gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Caiff Taliadau Uniongyrchol eu gwerthfawrogi gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, ond nid yw hyn wastad yn trosi'n ddefnydd ehangach ohonynt.

8 Mae'r modd y rheolir ac y cefnogir pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol yn amrywio'n eang ac mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael gwasanaethau o safon wahanol. Mae Cynorthwywyr Personol yn hanfodol i allu pobl i wneud y gorau o Daliadau Uniongyrchol, ond mae defnyddwyr gwasanaethau'n aml yn ei chael yn anodd eu recriwtio. Mae gan bobl farn gymysg ynglŷn â'r cymorth y maent yn ei gael gan eu hawdurdod lleol ar ôl iddynt ddechrau defnyddio Taliadau Uniongyrchol. Mae'r rhyngwyneb rhwng defnyddio gofal iechyd parhaus y GIG a gofal cymdeithasol pan geir mynediad at Daliadau Uniongyrchol yn dal i fod yn broblem hefyd.

9 Er gwaethaf rhai heriau sylweddol, fe sicrhaodd awdurdodau lleol fod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael eu cefnogi gan mwyaf yn ystod y pandemig, ond fe wnaeth nifer sylweddol o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr a ymatebodd i'n harolwg ni brofi anawsterau. Er bod y niferoedd sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol wedi tyfu ychydig cyn y pandemig, mae awdurdodau lleol yn dal i'w defnyddio'n wahanol ledled Cymru. Mae angen mynd i'r afael â'r 'loteri cod post' yma i sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal.

10 Mae derbynyddion a darparwyr gofal fel ei gilydd yn ystyried bod Taliadau Uniongyrchol yn gwneud cyfraniad pwysig at lesiant ac annibyniaeth pobl. Fodd bynnag, mae'n anodd asesu gwerth am arian Taliadau Uniongyrchol ar y cyfan yn eu rhinwedd eu hunain, neu o'i gymharu â mathau eraill o ofal cymdeithasol, am bod systemau ar gyfer rheoli a gwerthuso perfformiad yn annigonol.

> Gall Taliadau Uniongyrchol wneud cyfraniad pwysig i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn a maent yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Y Mae angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â gwendid o ran rheoli a gwerthuso perfformiad, sy'n golygu ar hyn o bryd nad yw'n bosibl barnu pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn perfformio ac a yw Taliadau Uniongyrchol yn cynrychioli gwerth am arian o'u cymharu â mathau eraill o gofal gymdeithasol. Mae angen mynd i'r afael hefyd â'r 'loteri cod post' lle mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio'n wahanol ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



# Ffeithiau allweddol

11 Mae'r ffeithlun isod yn crynhoi ffeithiau allweddol o'n hadroddiad am Daliadau Uniongyrchol. Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i atal trefniadau casglu data am y tro mewn ymateb i'r pandemig yn 2020, nid adroddwyd yn genedlaethol ar unrhyw ddata ynghylch gwasanaethau heblaw am wariant ers 2018-19.

Yn 2018-19, fe wnaeth gwasanaethau cymdeithasol gefnogi **125,415** o oedolion. O'r rhain, cafodd **6,262** (5%) Daliadau Uniongyrchol



Roedd ychydig dros draean o'r oedolion a gafodd daliadau uniongyrchol, **36.1%**, yn bobl hŷn (65 oed neu'n hŷn), gyda **63.9%** yn 18-64 oed. Felly yr oedd hi er bod pobl hŷn yn rhoi cyfrif am fwy na **75%** o'r oedolion sy'n cael gwasanaethau cymdeithasol.

Rhwng 2016-17 a 2018-19, fe wnaeth **14** o'r 22 o awdurdodau lleol gynyddu'r gyfradd defnyddio Taliadau Uniongyrchol. Roedd y cynnydd canrannol mwyaf ar Ynys Môn (**90.4%**). Roedd y cwymp mwyaf yng Nghasnewydd (**-28.8%**).

O'r ffigwr hwn, gwariwyd **£79.5 miliwn** (3.5%) ar Daliadau Uniongyrchol ar gyfer oedolion.

Roedd y Taliad Uniongyrchol cyfartalog ar gyfer oedolion yn 2018-19 mewn termau real yn **£12,344**, gan amrywio o **£6,033** yng Ngheredigion i **£21,836** yn Wrecsam.



Yn 2018-19, roedd y gyfran o oedolion a oedd yn cael gwasanaethau gofal cymdeithasol trwy Daliadau Uniongyrchol yn amrywio o **1.6%** yng Ngwynedd i **12.9%** yng Ngheredigion.



Fe gododd gwariant awdurdodau lleol ar Daliadau Uniongyrchol 117% mewn termau real o **£36.6 miliwn** yn 2010-11 i **£79.5 miliwn** yn 2020-21.



Yn 2020-21, gwariodd awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol **£2.29** biliwn ar yr holl wasanaethau cymdeithasol.

12 Nid yw ffigyrau mewn perthynas â niferoedd y bobl a gafodd gymorth gan wasanaethau cymdeithasol a Thaliadau Uniongyrchol yn 2018-19, gan gynnwys gwerth cyfartalog Taliadau Uniongyrchol, yn cynnwys Caerffili oherwydd problemau technegol gyda'u systemau TGCh.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata StatsCymru

# Argymhellion

13 Caiff ein hargymhellion eu nodi isod. Rydym yn disgwyl i bob awdurdod lleol ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn a'n hargymhellion, ac y bydd ei bwyllgor llywodraethu ac archwilio'n cael yr adroddiad hwn ac yn monitro'i ymateb i'n hargymhellion mewn ffordd amserol.

**Arddangosyn 2: argymhellion**

## Argymhellion

Yn **Rhan 1** rydym yn nodi sut y mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo ac yn codi ymwybyddiaeth o Daliadau Uniongyrchol (**paragraffau 1.2 i 1.7**). I sicrhau bod pobl yn gwybod am Daliadau Uniongyrchol, sut i gael mynediad at y gwasanaethau hyn a'u bod yn cael eu hannog i'w defnyddio, rydym yn argymell bod awdurdodau lleol:

**A1** Yn adolygu gwybodaeth gyhoeddus gan drafod gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i sicrhau ei bod yn eglur, yn gryno ac yn egluro'n llawn yr hyn y mae angen iddynt ei wybod am Daliadau Uniongyrchol.

**A2** Yn gwneud gwaith hyrwyddo ychwanegol i annog pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol.

**A3** Yn sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu hystyried ar y pwynt cyswllt cyntaf i roi cyngor annibynnol ynghylch Taliadau Uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

## Argymhellion

Yn **Rhan 1** rydym yn nodi pwysigrwydd y sgwrs 'Yr Hyn sy'n Bwysig' a phwysigrwydd gweithwyr cymdeithasol o ran helpu pobl i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch Taliadau Uniongyrchol (**paragraffau 1.8 i 1.13**). I sicrhau bod Taliadau Uniongyrchol yn cael eu cynnig yn gyson rydym yn argymell bod awdurdodau lleol:

**A4** Yn sicrhau bod gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol ar gael yn y drws blaen i ofal cymdeithasol a'u bod yn cael eu cynnwys yn y drafodaeth gychwynnol am yr opsiynau o ran gofal sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

**A5** Yn darparu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ar Daliadau Uniongyrchol i sicrhau eu bod yn deall eu potensial yn llawn ac yn teimlo'n hyderus yn eu hyrwyddo i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Yn **Rhan 2** rydym yn amlygu rôl ganolog Cynorthwywyr Personol o ran helpu defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i gael y deilliannau cadarnhaol gorau o'u defnydd o Daliadau Uniongyrchol (**paragraffau 2.2 i 2.7**). I sicrhau bod digon o gapasiti Cynorthwywyr Personol, rydym yn argymell bod awdurdodau lleol, trwy Fforwm Taliadau Uniongyrchol awdurdodau lleol Cymru Gyfan a Gofal Cymdeithasol Cymru:

**A6** Yn cydweithio i ddatblygu Cynllun Recriwtio a Chadw ar y cyd ar gyfer Cynorthwywyr Personol.

## Argymhellion

Yn **Rhan 2**, er bod awdurdodau lleol yn cydnabod gwerth Taliadau Uniongyrchol o ran cefnogi annibyniaeth a gwella llesiant, rydym yn amlygu'r gwahaniaethau mewn dull, safonau ac yn y swm a delir sy'n golygu bod pobl ag anghenion tebyg yn cael lefelau gwahanol o wasanaeth (**paragraffau 2.9 i 2.18 a 2.23 i 2.27**). I sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd cyfartal a theg rydym yn argymell bod awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru:

**A7** Yn egluro disgwyliadau polisi mewn iaith glir, hygyrch ac yn nodi:

- yr hyn y gall Taliadau Uniongyrchol dalu amdano;
- sut y mae prosesau ymgeisio ac asesu, graddfeydd amser a phrosesau adolygu'n gweithio;
- sut y bydd monitro taliadau uniongyrchol a'r gwaith papur sy'n ofynnol i wirio taliadau'n gweithio;
- sut y bydd arian nas defnyddiwyd yn cael ei drin a pha un a ellir ei fancio; a
- sut i weinyddu a rheoli cyllidebau cyfun.

Dylai gwybodaeth gyhoeddus gael ei hadolygu'n rheolaidd (o leiaf bob dwy flynedd) i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol ac yn dal i fod yn berthnasol.

Yn **Rhan 2** rydym yn amlygu anawsterau yn y rhyngwyneb rhwng gofal iechyd parhaus y GIG a Thaliadau Uniongyrchol ac yn nodi nad yw arferion cyfredol yn cefnogi defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i arfer llais, dewis a rheolaeth (**paragraffau 2.28 i 2.31**). Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru:

**A8** Yn sicrhau bod gan bobl sy'n cael gofal iechyd parhaus y GIG a Thaliadau Uniongyrchol fwy o lais, dewis a rheolaeth pan wneir penderfyniadau.

## Argymhellion

Yn **Rhan 3** rydym yn nodi ei bod yn bwysig i awdurdodau lleol fod â'r dangosyddion perfformiad cywir ac adrodd yn rheolaidd ar berfformiad yn erbyn y rhain er mwyn iddynt reoli perfformiad gweithredol, adnabod meysydd i'w gwella a gwerthuso effaith gadarnhaol gwasanaethau (**paragraffau 3.8 i 3.10**). I reoli perfformiad yn effeithiol a gallu barnu effaith Taliadau Uniongyrchol a'u gwerth am arian, rydym yn argymell bod awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru:

**A9** Yn cydweithio i sefydlu system i werthuso Taliadau Uniongyrchol yn llawn a honno'n system sy'n cofnodi pob elfen o'r broses – gwybodaeth, hyrwyddo, asesu, rheoli a gwerthuso effaith ar lesiant ac annibyniaeth.

**A10** Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn flynyddol ar gyfer pob elfen o Daliadau Uniongyrchol i'w gwneud yn bosibl cael golwg system gyfan ar y modd y cânt eu darparu ac o'u heffaith i gefnogi gwelliant.

# Nid yw pobl yn cael eu hannog yn gyson i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol

01

1.1 Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn ystyried sut y mae awdurdodau lleol yn annog pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol. Rydym yn adolygu gwybodaeth gyhoeddus awdurdodau lleol, sut y maent yn hybu defnydd o Daliadau Uniongyrchol a phwysigrwydd y sgwrs 'Yr Hyn sy'n Bwysig'.

**Awdurdodau lleol sy'n dda am hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol**



Mae ganddynt wybodaeth gyhoeddus syml a chryno y trefnir ei bod ar gael mewn ystod eang o gyfryngau ac sydd wedi cael ei phrofi i sicrhau ei bod yn effeithiol ac yn dweud yr hyn y mae ar bobl angen ei wybod



Maent yn cynnig ac yn annog pobl i ddefnyddio eiriolaeth annibynnol i helpu pobl i wneud dewisiadau gwybodus



Maent yn defnyddio'r sgwrs 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn y broses asesu i egluro Taliadau Uniongyrchol



Caiff Taliadau Uniongyrchol eu hyrwyddo fel opsiwn o leiaf yn gyfartal gyda dewisiadau eraill

## Mae dull ymatebol sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hanfodol i helpu pobl i ddewis Taliadau Uniongyrchol, ond mae’r ymgysylltiad ac ymwneud ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol yn anghyson

### Mae gwybodaeth sy’n hygyrch ac o ansawdd da’n cefnogi pobl i gymryd mwy o reolaeth dros eu gofal a’u cymorth a gwneud dewisiadau gwybodus

1.2 Mae gwybodaeth a chyngor yn helpu i hybu llesiant pobl ac maent yn elfennau hollbwysig o atal neu ohirio angen pobl am ofal a chymorth. Canfu ein gwaith grŵp ffocws a gwaith arolwg gyda Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru Gyfan[1] fod yr holl awdurdodau lleol yn cyflawni rhyw fath o weithgarwch i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth y cyhoedd am Daliadau Uniongyrchol, ond bod yr opsiynau a ddefnyddir yn amrywio. Mae awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar gyfryngau fel eu gwefan, darparu taflenni dwyieithog a gweithgarwch hyrwyddo gyda grwpiau defnyddwyr gwasanaethau a grwpiau gofalwyr sydd wedi’u sefydlu a fforymau partneriaeth. Rhoddir llai o flaenoriaeth i ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol (er enghraifft Facebook neu Twitter) ac ymgyrchoedd rhagweithiol gan ddefnyddio erthyglau yn y wasg, hysbysebion a chylchlythyrau’r awdurdod lleol. Ar y cyfan, dim ond 3% o’r ymatebwyr i’n harolwg[2] a ddaeth i wybod am Daliadau Uniongyrchol gyntaf trwy wybodaeth a gyhoeddwyd (er enghraifft, ar-lein neu mewn taflen).

1 Mae Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru Gyfan yn cynnwys swyddogion o bob awdurdod lleol yng Nghymru sydd â chyfrifoldeb am Daliadau Uniongyrchol yn eu priod sefydliadau.

2 Mae ein harolwg yn cwmpasu defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy’n cael Taliadau Uniongyrchol. Rydym yn adrodd ar wybodaeth ar dair lefel. Lle’r ydym yn dweud derbynyddion Taliadau Uniongyrchol, rydym yn golygu gofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau; a lle’r ydym yn benodol yn cyfeirio naill ai at ‘ddefnyddwyr gwasanaethau’ neu ‘ofalwyr’ mae canfyddiadau’r arolwg yn berthnasol yn benodol i’r grwpiau gwahanol hyn o bobl sy’n cael Taliadau Uniongyrchol. Yn **Atodiad 1** rydym yn nodi methodoleg ein harolwg mewn mwy o fanylder.

1.3 Ran amlaf o lawer, mae defnyddwyr gwasanaethau'n dweud eu bod wedi dibynnu ar sgwrs gydag un o swyddogion yr awdurdod lleol i gael gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol. Dywedodd bron pob un (96%) o'r defnyddwyr gwasanaethau a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi clywed am Daliadau Uniongyrchol gyntaf yn dilyn trafodaeth gydag un o swyddogion yr awdurdod lleol – gan amlaf gweithiwr gwaith cymdeithasol proffesiynol. Dywedodd tua hanner y gofalwyr a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi dod i wybod am Daliadau Uniongyrchol gyntaf yn dilyn trafodaeth gydag un o swyddogion yr awdurdod lleol. Mae gofalwyr yn fwy tebygol na defnyddwyr gwasanaethau o ddod i wybod am Daliadau Uniongyrchol mewn trafodaeth gyda chyrff eraill (h.y. nid eu hawdurdod lleol), asiantaeth gofal a chymorth, un o gyrff y GIG neu'r trydydd sector er enghraifft. Mae'r canfyddiadau hyn yn amlygu bod angen i awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod gofalwyr yn cael cymorth gwell i gael mynediad at wasanaethau a'u defnyddio, mater a amlygwyd mewn ymchwil ddiweddar gan Gofalwyr Cymru[3].

1.4 Mae aelodau'r Fforwm Taliadau Uniongyrchol yn cydnabod bod angen i awdurdodau lleol wneud mwy o waith hyrwyddo gyda rhai partneriaid, yn enwedig darparwyr iechyd ac annibynnol, i sicrhau bod Taliadau Uniongyrchol yn cael eu hyrwyddo'n ddigonol ym mhob llwybr i mewn i ofal cymdeithasol. Mae oddeutu chwarter y swyddogion awdurdodau lleol â chyfrifoldeb am Daliadau Uniongyrchol yn credu bod ganddynt ddigon o gapasiti i hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol yn effeithiol a'u bod yn buddsoddi adnoddau i annog pobl i'w defnyddio. Mae llai na chwarter y swyddogion awdurdodau lleol yn ystyried eu bod yn dda am godi ymwybyddiaeth o Daliadau Uniongyrchol ymhlith grwpiau anodd i'w cyrraedd megis grwpiau ethnig lleiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phobl LGBTQ a'u bod yn dda am annog pobl yn y grwpiau hynny i'w defnyddio.

1.5 Mae'r awdurdodau lleol gorau'n mynd ati'n arloesol ac yn frwd i hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn defnyddio ystod eang o ddeunyddiau hyrwyddo i wella ymwybyddiaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau ond hefyd staff yr awdurdod lleol a darparwyr gofal. Mae hyn yn cynnwys fideos YouTube o dderbynyddion yn siarad am y profiadau cadarnhaol o Daliadau Uniongyrchol a manteision y dewis hwnnw a sioeau teithiol i hyrwyddo manteision Taliadau Uniongyrchol. Trwy fynd ati'n rhagweithiol i annog pobl i ddewis Taliadau Uniongyrchol, gwelodd yr awdurdod lleol y niferoedd a oedd yn cael Taliadau Uniongyrchol yn codi 90.4% rhwng 2016-17 a 2018-19.

3 Mae Gofalwyr Cymru'n rhan o Carers UK ac yn ymgyrchu ar ran gofalwyr. Yn ddiweddar fe wnaethant adrodd bod 40% o ofalwyr yng Nghymru'n dweud nad ydynt yn ymwybodol o wasanaethau a ffynonellau cymorth i ofalwyr yn eu cymuned leol – Cyflwr Gofalu 2021: Dogfen Friffio Cymru, Gofalwyr Cymru, Rhagfyr 2021.

1.6 Ynghylch ansawdd yr wybodaeth a'r cyngor a ddarperir, dywedodd tri chwarter y defnyddwyr gwasanaethau Taliadau Uniongyrchol wrthym fod hyn yn dda ond dim ond hanner y gofalwyr sy'n cael Taliadau Uniongyrchol oedd yn cytuno mai felly yr oedd hi. Dim ond hanner yr awdurdodau lleol sydd wedi profi neu geisio adborth ar ansawdd gwybodaeth gyhoeddus am Daliadau Uniongyrchol i sicrhau ei bod yn hawdd i'w deall, a dim ond oddeutu traean o'r rheiny sydd wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr wrth brofi ansawdd yr wybodaeth. Nododd nifer o ddefnyddwyr gwasanaethau a ymatebodd i'n harolwg nad oeddent wastad yn cael bod yr wybodaeth a ddarparwyd iddynt yn ddefnyddiol a'i bod yn rhy aml yn darllen fel pe bai wedi'i hysgrifennu ar gyfer y 'gweithiwr proffesiynol' nid y 'cleient'. Er hynny, roedd y mwyafrif llethol o bobl (98%) yn gallu cael mynediad at wybodaeth am Daliadau Uniongyrchol yn eu dewis iaith, a dewisodd 4% ddefnyddio'r Gymraeg.

1.7 Mae paragraff 37 yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) yn nodi bod 'gwasanaethau eirioli yn hanfodol i gefnogi pobl i fynd ati i ymgysylltu a chyfrannu at ddatblygiad eu canlyniadau llesiant eu hunain'. Mae paragraff 41 yn y Cod Ymarfer yn dweud hefyd bod rhaid i eiriolaeth broffesiynol annibynnol fod ar gael 'pan gysylltir â nhw am y tro cyntaf'. Canfuom mai ychydig dros hanner aelodau Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru Gyfan sy'n credu bod gan eu hawdurdod lleol wasanaethau eirioli digonol i ddarparu cyngor eirioli annibynnol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ar yr adeg hon.

### Y Sgwrs 'Yr Hyn sy'n Bwysig'

1.8 Yn wahanol i nifer o wasanaethau ataliol cymunedol[4] y mae pobl yn aml yn cael eu cyfeirio atynt wrth geisio cymorth ym maes gofal cymdeithasol, rhaid i asesiad ganfod bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau anghenion 'cymwys'[5]' er mwyn iddynt gael Taliadau Uniongyrchol. Pan fo awdurdod lleol yn ystyried a oes gan rywun anghenion cymwys, mae'n ystyried beth sy'n achosi'r angen hwnnw am ofal a chymorth; a yw eu hanghenion yn effeithio ar eu gallu i wneud rhai pethau; a oes gan rywun ofalwr neu fynediad at gymorth cymunedol a all ddiwallu eu hanghenion; ac a ydynt yn gallu cyflawni deilliant personol heb help gan yr awdurdod lleol.

1.9 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu a phenderfynu a yw rhywun yn gymwys i gael gofal cymdeithasol gan ddilyn proses sefydledig y mae'r sgwrs 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn elfen hollbwysig ohoni. Mae **Atodiad 2** yn nodi'r broses hon mewn mwy o fanylder.

4 Nid oes diffiniad y cytunwyd arno o'r hyn sy'n gyfystyr â gwasanaeth ataliol. Gallant amrywio o wasanaethau gofal canolradd gweddol ffurfiol a ddarperir gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i ymyriadau a allai gynnwys cynlluniau cyfeillio, gosod canllaw neu help gyda siopa, i wasanaethau nad ydynt yn rhai iechyd neu ofal cymdeithasol .

5 Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag ADSS Cymru i lunio offeryn asesu a chymhwystra cenedlaethol.

**Y sgwrs 'Yr Hyn sy'n Bwysig'**

Mae sgwrs 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn drafodaeth wedi'i thargedu i ganfod beth yw sefyllfa rhywun, sut mae ei lesiant ar hyn o bryd, beth ellir ei wneud i'w gefnogi a beth ellir ei wneud i hybu ei lesiant a'i gydnerthedd er gwell. Nid yw'n asesiad ynddo'i hun: ffordd ydyw o gynnal yr asesiad trwy gael y math cywir o sgwrs i nodi'r canlynol gyda'r unigolyn:

- sut hoffai fyw ei fywyd;
- beth allai fod yn atal hynny; a
- pha gymorth all fod ei angen i oresgyn y rhwystrau hynny.



Mae gwybod beth sy'n bwysig yn gallu chwarae rhan enfawr yn y broses o helpu i wneud bywyd rhywun yn bleserus ac yn werth chweil.

1.10 Yn bwysig, rhaid i'r rhai sy'n ceisio help a'r rhai sy'n asesu'r hyn y mae ei angen weithio fel partneriaid cyfartal i ganfod materion a datrysiadau yn eu trafodaeth 'Yr Hyn sy'n Bwysig'. Yn y pen draw, mae'n golygu ei bod yn ofynnol i weithwyr gwaith cymdeithasol proffesiynol ildio peth rheolaeth wrth asesu'r hyn sydd orau i bobl. Mae Taliadau Uniongyrchol yn mynd â'r ethos hwn gam ymhellach – nid yn unig y mae gan unigolion lais cyfartal wrth drefnu eu deilliannau o ran gofal a chymorth yn ystod yr asesiad, ond gallant hefyd fynd ymlaen i gymryd rheolaeth lwyr ar eu gofal a'u cymorth eu hunain. Mae'r cwestiwn i ba raddau y mae gweithwyr proffesiynol yn teimlo'u bod yn gallu ildio rheolaeth yn trefnu profiad pobl o'u hasesiad, ac mewn nifer o achosion y tebygolrwydd y byddant yn cael cynnig Taliadau Uniongyrchol ac yn cael eu hannog i'w defnyddio.

1.11 Ar y cyfan, mae gan y derbynyddion Taliadau Uniongyrchol a ymatebodd i'n harolwg ni farn gadarnhaol ynglŷn â phrosesau asesu awdurdodau lleol; yr amser a dreulir gan staff awdurdodau lleol yn egluro cyfrifoldebau cyflogwr; a'r sgwrs 'Yr Hyn sy'n Bwysig'. Er enghraifft:

a roedd 83% yn teimlo bod yr hyn y cytunwyd arno yn ystod yr asesiad yn iawn iddynt hwy;

b o'r 83% a oedd yn teimlo bod eu hasesiad yn iawn iddynt hwy, roedd y mwyafrif llethol (88%) yn cytuno bod y cynllun gofal a chymorth dilynol yn nodi'n gywir yr hyn y cytunwyd arno yn ystod eu hasesiad;

c roedd 76% yn teimlo'u bod yn cael eu hannog i ddweud wrth eu hawdurdod lleol am y pethau a oedd o bwys iddynt hwy, ac yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt yn ystod yr asesiad o'u hanghenion;

ch fe wnaeth 75% drafod eu gallu i reoli Taliadau Uniongyrchol cyn dechrau eu defnyddio; ac

d roedd 74% yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth glir am eu rhwymedigaeth gyfreithiol fel cyflogwr wrth ddechrau defnyddio Taliad Uniongyrchol.

1.12 Er gwaethaf hyn, mae llawer o swyddogion awdurdodau lleol y siaradom ni gyda hwy'n cydnabod nad oes ganddynt bob amser y capasiti i weithio'n gydgynhyrchiol a chanfod datrysiadau creadigol gan ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol. Mae pobl yn aml mewn argyfwng pan ydynt yn cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol ac yn ymarferol, mae ymyrryd yn gynnar, atal a chyflawni dulliau wedi'u cydgynhyrchu'n cymryd amser. Mae ymyrryd yn gynnar mewn modd effeithiol yn gweithio i atal problemau rhag digwydd, neu i ymdrin â hwy'n uniongyrchol pan ydynt yn digwydd, a chyn bod problemau'n mynd yn waeth. Felly mae'n bwysig i awdurdodau lleol ystyried effaith bosibl a gwerth posibl Taliadau Uniongyrchol mor gynnar â phosibl yn y broses gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i alluogi cydgynhyrchu ystyrlon a sicrhau bod yr holl ddatrysiadau posibl sy'n gallu helpu i wella llesiant rhywun yn cael eu hystyried.

1.13 Rydym ni'n dod i'r casgliad bod mwy i awdurdodau lleol ei wneud i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth am Daliadau Uniongyrchol ymhlith defnyddwyr gwasanaethau. Er mwyn mynd i'r afael â hyn mae angen i awdurdodau lleol hybu cyfleoedd ar gyfer ymyrryd yn gynnar trwy godi ymwybyddiaeth o'r drws blaen i ofal cymdeithasol i oedolion, a sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddigonol i'r potensial ar gyfer Taliadau Uniongyrchol yn y cam Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy (gwasanaethau GCaCh). Nid yw awdurdodau lleol wedi taro'r cydbwysedd hwn eto, rhywbeth sy'n adleisio ein hadolygiad diweddar o wasanaethau GCaCh[6].

6 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Y drws blaen i ofal cymdeithasol i oedolion, Medi 2019.

## Er bod gwerth Taliadau Uniongyrchol yn cael ei gydnabod gan uwch reolwyr, nid yw staff gofal cymdeithasol wastad yn dangos hyder wrth hybu'r defnydd ohonynt gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr

1.14 Mae arweinyddiaeth gref ar Daliadau Uniongyrchol yn allweddol i wneud cynnydd ac mae'n bwysig bod uwch reolwyr yn gosod y cywair o'r brig. Trwy ein hymgysylltiad ni â staff awdurdodau lleol a chyrff cynrychiadol canfuom fod hyn yn allweddol i greu'r amodau a'r diwylliant cywir i weithwyr cymdeithasol deimlo wedi'u grymuso i hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol ac annog pobl i'w defnyddio.

1.15 Canfuom fod oddeutu tri chwarter y rheolwyr Taliadau Uniongyrchol â chyfrifoldeb am Daliadau Uniongyrchol yn credu bod gan eu hawdurdod ddiwylliant agored a chalonogol sy'n hybu'r defnydd gorau o Daliadau Uniongyrchol. Hefyd, mae nifer tebyg yn credu bod aelodau Tîm Rheoli Corfforaethol eu hawdurdod lleol yn deall manteision Taliadau Uniongyrchol, a dwy ran o dair yn credu bod uwch arweinwyr yn mynd ati'n frwd i annog mwy o bobl i'w defnyddio. Fodd bynnag, dim ond chwarter y rheolwyr Taliadau Uniongyrchol sy'n credu bod cynghorwyr yn deall manteision Taliadau Uniongyrchol. Nid oedd hanner yn gwybod.

1.16 Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol systemau rheoli gwybodaeth a llifoedd gwaith (er enghraifft System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru[7]) sy'n cynnwys ysgogiadau i weithwyr cymdeithasol gynnig Taliadau Uniongyrchol fel rhan o asesiadau yr hyn sy'n bwysig, neu i gadarnhau eu bod wedi cynnig hyn. Fodd bynnag, mae swyddogion y cyfwelom ni â hwy'n amlygu'r cyfyngiadau yn y sicrwydd y mae'r data hwn yn ei ddarparu oherwydd bod y tebygolrwydd y bydd defnyddwyr gwasanaethau'n dewis defnyddio Taliadau Uniongyrchol yn ddibynnol gan mwyaf ar dôn, diffuantrwydd a didwylledd y cynnig a'r drafodaeth gyda'u gweithiwr cymdeithasol. I wneud hyn, mae angen i weithwyr cymdeithasol deimlo'n hyderus i allu hyrwyddo manteision Taliadau Uniongyrchol ac wedi'u grymuso i wneud y cynnig hwn. I wneud i hyn weithio, rhaid wrth arweinyddiaeth effeithiol a dull system gyfan.

7 Fe wnaethom adrodd ar gyflwyno System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ym mis Hydref 2020, gan gynnwys sylwebaeth ar berfformiad y system.

1.17 Dywedodd y mwyafrif llethol o aelodau Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru Gyfan wrthym eu bod yn parhau i hyrwyddo a darparu hyfforddiant a gwybodaeth i weithwyr cymdeithasol, rheolwyr gofal a staff rheng flaen i gefnogi defnydd o Daliadau Uniongyrchol a'r broses o'u cyflwyno. Roedd y rhan fwyaf yn credu hefyd bod gweithwyr cymdeithasol yn deall ar gyfer beth ellir defnyddio Taliadau Uniongyrchol, er bod swyddogion y cyfwelom ni â hwy wedi nodi rhai pryderon serch hynny.

1.18 Dim ond hanner aelodau'r Fforwm Taliadau Uniongyrchol sy'n meddwl bod eu hawdurdod lleol yn annog pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol. Mynegodd rheolwyr Taliadau Uniongyrchol bryderon, o'u profiad hwy, mai'r gwir yn rhy aml yw bod gan weithwyr cymdeithasol ddiffyg hyder i drafod Taliadau Uniongyrchol fel opsiwn, yn rhannol oherwydd eu hyblygrwydd cynhenid a defnydd ehangach o bosibl o'i gymharu â mathau eraill o ofal cymdeithasol. Fe wnaethant nodi hefyd, yn gynyddol, yr ystyrir bod Taliadau Uniongyrchol o bosibl yn rhoi gwasanaethau gofal traddodiadol eraill mewn perygl os yw'r defnydd ohonynt yn cynyddu a'r galw am wasanaethau eraill yn lleihau. Ychydig dros hanner y rheolwyr Taliadau Uniongyrchol sy'n credu bod eu hawdurdod lleol yn trin Taliadau Uniongyrchol yr un mor ffafriol â gwasanaethau gofal cymdeithasol ac opsiynau eraill wrth ddatblygu cynlluniau gofal.

# Mae’r modd y rheolir ac y cefnogir pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol yn amrywio’n eang ac mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael gwasanaethau o safon wahanol

02

2.1 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn bwrw golwg ar gyfleoedd i symleiddio'r modd y caiff Taliadau Uniongyrchol eu rheoli a'u gweinyddu. Rydym yn bwrw golwg ar y newid mewn defnydd o Daliadau Uniongyrchol yng Nghymru ac yn cymharu â Lloegr. Rydym yn ystyried sut y mae awdurdodau lleol yn cefnogi pobl i wneud y defnydd gorau o Daliadau Uniongyrchol.

**Awdurdodau lleol sy'n rheoli Taliadau Uniongyrchol yn effeithiol**

Maent yn helpu pobl i gael gafael ar Gynorthwywyr Personol a'u defnyddio

Maent yn 'datgyfrinio' yr hyn yw Taliadau Uniongyrchol ac yn rhoi digon o gymorth i sicrhau pobl ynghylch gofynion o ran cyflogaeth, rhwymedigaethau a phrosesau i droi atynt. Cyfyngir i'r eithaf ar fiwrocratiaeth

Maent yn nodi'n glir ar gyfer beth ellir defnyddio Taliadau Uniongyrchol gan roi enghreifftiau o'r math o gymorth sydd ar gael a, lle y bo'n bosibl, gan roi anogaeth i arloesi

Maent yn cynnal cyswllt rheolaidd a pharhaus ac yn rhoi cymorth a gwybodaeth i oedolion sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol i egluro cyfrifoldebau a sicrhau bod pobl yn cadw'n ddiogel

Maent yn gweithio i drefnu'r 'farchnad' a thrwy wella mynediad at Gynorthwywyr Personol, gan annog mwy o ddarparwyr, rheoli costau a rhoi anogaeth i gyfuno cyllidebau

Maent yn cytuno ar y cyd â chyrff y GIG sut orau i ddiwallu anghenion cleientiaid sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol a Gofal Iechyd Parhaus y GIG fel nad ydynt yn cael eu rhoi dan anfantais

## Mae Cynorthwywyr Personol yn hanfodol i allu pobl i wneud y gorau o Daliadau Uniongyrchol, ond mae defnyddwyr gwasanaethau'n ei chael yn anodd eu recriwtio

2.2 Er y bydd ar rai pobl angen cymorth ychwanegol i reoli Taliadau Uniongyrchol, ni ddylai hyn fod yn rhwystr i annog pobl i'w defnyddio. Rhaid i awdurdodau lleol gynnal gwasanaeth cymorth a threfnu ei fod ar gael i'r rhai y mae ei angen arnynt – er enghraifft, help gyda chyfrifoldebau cyflogaeth, y gyflogres a phrosesau adrodd. Yn aml rhoddir y cymorth hwn trwy Gynorthwyydd Personol.

**Cynorthwywyr Personol**

Mae Cynorthwywyr Personol yn gweithio'n uniongyrchol gydag un neu fwy nag un unigolyn i'w helpu gydag amryw agweddau ar eu bywyd beunyddiol ac i'w helpu i fyw mor annibynnol â phosibl.

Fe'u cyflogir yn uniongyrchol gan unigolyn sy'n rheoli ac yn talu am ei ofal trwy Daliad Uniongyrchol neu gyllideb bersonol.

Mae Cynorthwywyr Personol fel arfer yn cefnogi unigolion yn eu cartref eu hunain.

Gall pobl gael eu cyflogi'n uniongyrchol gan un cyflogwr neu weithio i nifer o wahanol bobl.

Gall y rôl gynnwys:

- trefnu a chefnogi unigolion gyda'u gweithgareddau cymdeithasol a chorfforol;
- gwneud apwyntiadau a mynd gydag unigolion i'r apwyntiadau hynny;
- helpu unigolion i gyrraedd y gwaith, y coleg neu'r brifysgol;
- helpu gyda gofal personol megis cael cawod a gwisgo (er nad yw rôl pob Cynorthwyydd Personol yn cynnwys gofal personol);
- rhoi cymorth gyda thasgau o gwmpas y tŷ fel siopa, glanhau a choginio;
- monitro eu hiechyd, er enghraifft mesur tymheredd y corff neu roi meddyginiaeth; a/neu
- reoli tîm o Gynorthwywyr Personol os ydych mewn rôl uwch Gynorthwyydd Personol.



2.3 Nid ar chwarae bach y mae dechrau cyflogi Cynorthwyydd Personol ac mae angen i bobl sy'n mynd ar drywydd yr opsiwn yma fod yn llwyr ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Er enghraifft, rhaid i gyflogwr ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig ar gyfer staff y mae'n eu cyflogi, gan gynnwys dyddiad dechrau, oriau gwaith, cydnabyddiaeth ariannol (y mae'n rhaid ei bod yn cyfateb i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol), man gweithio a theitl y swydd, neu ddisgrifiad byr o'r swydd. Mae angen i gyflogwyr nodi hefyd ai am gyfnod penodedig ynteu ar sail barhaol y mae'r gyflogaeth, hawl statudol y cyflogai i dâl salwch, gwyliau blynyddol, darpariaeth cynllun pensiwn a gofynion o ran rhoi rhybudd. Er bod awdurdodau lleol yn disgwyl i bobl gymryd yswiriant atebolrwydd cyflogwr a'u bod yn aml yn rhoi cyngor ynglŷn â hyn, cyfrifoldeb yr unigolyn yw sicrhau ei fod wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r trefniadau cytundebol gyda'r staff gofal y mae'n eu cyflogi.

2.4 Fe wnaeth pobl a ymatebodd i'n harolwg nodi gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol o ran eu meini prawf cymhwystra ar gyfer Taliadau Uniongyrchol, nifer yr oriau o gynhorthwy personol y canfuwyd mewn asesiadau fod ar unigolion eu hangen, a'r cyfraddau fesul awr a delir. Dengys ein hymchwil ni fod cyfraddau tâl fesul awr ar gyfer Cynorthwywyr Personol yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, gyda chyfraddau a oedd yn amrywio o £8.72 i £12.94 yr awr yn cael eu nodi ar ddechrau 2021 – gweler **Atodiad 4** am ragor o fanylion.

2.5 Ni ellir goramcangyfrif pwysigrwydd Cynorthwywyr Personol i gefnogi pobl i wneud y defnydd gorau o Daliadau Uniongyrchol. Meddai un unigolyn a ymatebodd i'n harolwg: 'Mae Taliadau Uniongyrchol wedi rhoi'r cyfle i mi gyflogi fy nghynorthwyydd personol sydd wedi bod gyda mi am 10 mlynedd bellach. Mae'r parhad hwn gyda'm cynorthwyydd personol wedi fy ngrymuso, wedi gwella fy hunanhyder ac wedi rhoi imi'r rhyddid i wneud fy mhenderfyniadau a'm dewisiadau fy hun gyda chymorth fy chynorthwyydd personol'. Meddai un arall: 'Rwy'n meddwl bod y system gyfan yn gweithio o amgylch Taliadau Uniongyrchol, rydych yn cael dewis y cynorthwywyr personol eich hun yn hytrach na bod dieithriaid yn cael eu gwthio arnoch'. Mae sylwadau fel y rhain yn amlygu'r gwerth a roddir ar Gynorthwywyr Personol a'u rôl bwysig.

2.6 Er hynny, fe wnaeth nifer o bobl a ymatebodd i'n harolwg nodi anawsterau o ran denu a chadw Cynorthwywyr Personol. Er enghraifft, meddai un ymatebydd: 'bu cyfnodau pan ydym wedi methu â dod o hyd i gynorthwyydd personol addas, ac felly nid wyf wedi gallu defnyddio'r Taliadau Uniongyrchol. Ar un adeg fe barodd hyn am dros flwyddyn'. Dywedodd un arall mai 'problem fawr yw gallu recriwtio Cynorthwywyr Personol' ac un arall fod 'problemau gyda Chynorthwyydd Personol wedi golygu fy mod wedi gorfod ail-hysbysebu'r swydd felly o ganlyniad nid wyf wedi defnyddio fy Nhaliad Uniongyrchol eto'.

2.7 Fe wnaeth rheolwyr Taliadau Uniongyrchol y siaradom ni gyda hwy amlygu her barhaus denu a chadw Cynorthwywyr Personol hefyd. Mae pwysau parhaus o ran y gweithlu wedi golygu y bu angen i gyflogwyr a darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion fabwysiadu ystod o strategaethau i helpu i gadw a chefnogi eu gweithlu ac mae angen estyn y dulliau hyn i Gynorthwywyr Personol. Mae'r Cynghrair Darparwyr Gofal, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn Lloegr wedi dwyn ynghyd ddulliau a ddefnyddiwyd gan sefydliadau i leihau trosiant staff a helpu i gadw pobl yn y gweithlu iechyd a gofal, sydd o ddefnydd i awdurdodau lleol eu hystyried wrth annog mwy o Gynorthwywyr Personol[8].

## Mae gan bobl farn gymysg ynglŷn â'r cymorth y maent yn ei gael gan eu hawdurdod lleol ar ôl iddynt ddechrau defnyddio Taliadau Uniongyrchol

2.8 Rhaid cofleidio Taliadau Uniongyrchol fel elfen graidd o roi cymorth – nid fel opsiwn eithriadol – fel bod yr effaith gadarnhaol yn gallu cael ei gwireddu. Bydd costau cychwynnol yn gysylltiedig â sefydlu neu gomisiynu Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol effeithiol a hyfforddi staff mewn prosesau Taliadau Uniongyrchol. Ond unwaith y bydd hyn yn llwyr weithredol, dylai Taliadau Uniongyrchol o leiaf fod yn niwtral o ran cost a dylent wireddu arbedion, er enghraifft, o ganlyniad i lai o weinyddu, adolygu a rheoli darparwyr. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol felly'n canolbwyntio ar sefydlu'r gwasanaeth cymorth cywir i annog pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol ac i wireddu'r potensial ar gyfer arbedion o ran costau. Yn y pen draw, rhaid i'r Taliad Uniongyrchol fod yn ddigon i dalu cost resymol prynu gwasanaethau y mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i'w darparu.

### Mae rhai pobl yn cael bod gweinyddu Taliadau Uniongyrchol yn gryn her

2.9 Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn rhoi cymorth digonol a'u bod yn cael cyswllt rheolaidd â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Dylai awdurdodau lleol fod yn rhagweithiol o ran trefnu'r trafodaethau hyn i wneud yn siŵr bod y cynllun gofal a chymorth yn dal i fod yn iawn, ei fod yn gyfreithlon, yn fforddiadwy ac yn effeithiol o ran cyflawni deilliannau llesiant.

8 https://www.local.gov.uk/top-tips-retention-briefing-adult-social-care-providers

2.10 Ar y cyfan, dywedodd 78% o'r bobl a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn cael cymorth o ansawdd da i'w helpu i reoli eu Taliad Uniongyrchol. Fodd bynnag, er bod 55% yn dweud eu bod yn gallu ymdopi ag ochr weinyddol Taliadau Uniongyrchol, gan gael lefel y gwaith papur yn rhesymol ac yn hydrin, mae 13% yn teimlo'i bod yn llethol. Dywedodd y traean arall o'r ymatebwyr nad yw'n ofynnol iddynt gadw unrhyw waith papur (23%) neu mai anaml y mae eu hawdurdod lleol yn gofyn am waith papur (10%). Mae gofalwyr ar y cyfan yn fwy anfodlon na defnyddwyr gwasanaethau ar ansawdd gwasanaethau Taliadau Uniongyrchol y mae eu hawdurdod lleol yn eu darparu i helpu i ddiwallu eu hanghenion. Canfu ein gwaith grŵp ffocws gydag aelodau Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru Gyfan fod ychydig dros hanner yr awdurdodau lleol wedi ceisio symleiddio eu systemau ar gyfer gweinyddu Taliadau Uniongyrchol i leihau'r baich ar gleientiaid, Cynorthwywyr Personol a darparwyr gofal.

2.11 Roedd ychydig dros draean o'r darparwyr gofal a chymorth a ymatebodd i'n harolwg yn teimlo, o'u profiad hwy, nad oedd awdurdodau lleol yn rhoi cymorth da i helpu pobl i reoli eu Taliadau Uniongyrchol. Ceir peth pryder gan ddarparwyr hefyd bod pobl a allai fod yn ei chael yn anodd rheoli Taliad Uniongyrchol yn cael eu cyfarwyddo i ddewis yr opsiwn yma yn syml oherwydd pwysau ar wasanaethau gofal cartref a lleihad yn argaeledd gwasanaethau gofal eraill. Dim ond hanner y rheolwyr Taliadau Uniongyrchol ddywedodd fod gan eu hawdurdod lleol hwy gyfeiriadur cyfoes o ddarparwyr gwasanaethau cymeradwy i helpu pobl i brynu cymorth.

**Mae profiad pobl mewn ardaloedd lle mae gwasanaethau cymorth i helpu i reoli Taliadau Uniongyrchol yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol yn fwy cadarnhaol ar y cyfan na'r rhai sy'n defnyddio gwasanaeth 'wedi'i gomisiynu'**

2.12 Mae llawer o awdurdodau lleol yn rhoi comisiwn i eraill i ddarparu gwasanaethau cymorth ar gyfer Taliadau Uniongyrchol, ond yn ôl adborth gan aelodau o'r Fforwm Taliadau Uniongyrchol, mae nifer cynyddol o gynghorau yn y broses o adolygu'r gwasanaethau hyn neu'n ystyried eu darparu'n fewnol unwaith eto, yn bennaf i wella ansawdd gwasanaethau, i allu ymateb yn well i anghenion defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, a lleihau costau gweinyddu. O ran y sefyllfa ym mis Ionawr 2021, roedd gan saith[9] o'r 22 o awdurdodau lleol wasanaethau mewnol.

9 Y saith cyngor â darpariaeth fewnol ar adeg ein hadolygiad ni oedd: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Powys a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

2.13 Fe wnaeth ein harolwg o bobl sy’n defnyddio Taliadau Uniongyrchol geisio’u barn ynglŷn â nifer o ffactorau sy’n ddangosyddion hygyrchedd ac ansawdd gwasanaethau yn ein tyb ni. I ganfod sut y mae gwahanol gyfluniadau ar gyfer gwasanaethau’n effeithio ar hygyrchedd, ansawdd a bodlonrwydd defnyddwyr, fe wnaethom ddadansoddi data ein harolwg trwy gymharu’r ymatebion oddi wrth dderbynyddion Taliadau Uniongyrchol mewn ardaloedd lle mae’r awdurdod lleol yn cyflawni’r swyddogaeth cymorth yn fewnol, ag ymatebion oddi wrth dderbynyddion lle caiff y gwasanaeth ei gomisiynu’n allanol a’i ddarparu gan drydydd partïon. Mae **Arddangosyn 3** yn dangos bod ymatebion i’r arolwg oddi wrth y rhai yn ardaloedd yr awdurdodau lleol sy’n darparu gwasanaethau’n fewnol yn cynnwys lefelau uwch o ymatebion cadarnhaol yn erbyn nifer o fetrigau allweddol.

**“Rwy’n ddiolchgar am y cymorth a thaliadau. Does dim rhaid i mi ddelio â’r arian. Mae mynd allan gyda rhywun ag eithrio’r teulu yn rhoi’r annibyniaeth i mi rwyf wedi dyheu am ei chael**



Ffynhonnell: Archwilio Cymru, Arolwg o’r bobl sy’n derbyn Taliadau Uniongyrchol, Medi 2021.

**Arddangosyn 3: Barn derbynyddion Taliadau Uniongyrchol ynglŷn â gwasanaethau, yn ôl y math o wasanaeth cymorth gweinyddol (mewnol neu wedi'i gomisiynu)**

Ar y cyfan, mae gan bobl sy'n byw mewn ardaloedd lle caiff gwasanaethau cymorth eu darparu'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol farn fwy cadarnhaol am y gwasanaeth y maent yn ei gael na phobl mewn ardaloedd lle caiff gwasanaethau cymorth eu darparu gan drydydd parti.




Ffynhonnell: Archwilio Cymru, Arolwg o bobl sy'n cael Taliadau Uniongyrchol, Medi 2021

2.14 Fe wnaeth ein gwaith grŵp ffocws gyda Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru Gyfan amlygu, yn ogystal â chefnogi cleientiaid allanol, bod gan dimau Taliadau Uniongyrchol mewnol fwy o allu i weithio'n hyblyg a chanolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant a chymorth arbenigol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol rheng flaen sy'n cynnig ac yn gweinyddu Taliadau Uniongyrchol. O ystyried y rhwystrau allweddol yr ydym ni'n eu hamlygu i gael mynediad at Daliadau Uniongyrchol (gweler **paragraff 1.16**) ac ynghyd â chanfyddiadau ein harolwg, mae'r cymorth hwn yn amlwg yn bwysig ac yn cael effaith, gan arwain at fwy o fodlonrwydd ar wybodaeth am Daliadau Uniongyrchol, canfyddiad gwell am ddealltwriaeth gweithwyr cymdeithasol, a theimlad ymhlith defnyddwyr gwasanaethau eu bod yn cael eu hannog i ddefnyddio Taliad Uniongyrchol.

**Fe sicrhaodd awdurdodau lleol gan mwyaf fod pobl yn cael eu cefnogi yn ystod y pandemig, ond dywedodd nifer sylweddol o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr a ymatebodd i'n harolwg ni na chawsant unrhyw gyswllt yn ystod y cyfyngiadau symud cychwynnol**

2.15 Fe greodd y pandemig nifer o heriau i wasanaethau gofal cymdeithasol ac fe orfodwyd awdurdodau lleol i ymateb yn greadigol i sicrhau bod pobl agored i niwed yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi. Fel gyda staff rheng flaen eraill sy'n gweithio yn y GIG neu mewn lleoliadau gofal, mae'r pandemig wedi cael effaith enfawr ar bobl sy'n darparu gwasanaethau gofal a drefnir dan Daliadau Uniongyrchol hefyd, yn enwedig Cynorthwywyr Personol.

2.16 Canfuom, lle torrwyd ar draws gwasanaeth neu lle nad oedd modd parhau i'w ddarparu oherwydd COVID-19, fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi trefnu darpariaeth amgen. Bu awdurdodau lleol yn cysylltu hefyd i wirio lles unigolion ac i sicrhau bod gwasanaethau'n dal i gael eu darparu. Fodd bynnag, fe wnaeth rheolwyr Taliadau Uniongyrchol y siaradom ni gyda hwy nodi rhai anawsterau hefyd o ran parhau i ddarparu gwasanaethau. Yn arbennig, diffyg argaeledd Cynorthwywyr Personol a/neu staff gofal pan oedd pobl yn hunanynysu ac yn methu ag ymweld â defnyddwyr gwasanaethau a'u cefnogi.

2.17 Fe wnaeth swyddogion y siaradom ni gyda hwy amlygu gwaith cadarnhaol eu hawdurdod lleol i sicrhau bod staff gofal cymdeithasol yn cael eu cefnogi a'u hofferu i weithio gartref hefyd. Fe ddisgrifion nhw sut yr oedd uwch arweinwyr wedi gweithredu'n rhagweithiol, gan ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn gyson ar gyfer staff am newidiadau mewn gwasanaethau a blaenoriaethau gwaith, ac wedi ymateb i heriau wrth iddynt godi a hynny'n gyflym ac yn effeithlon. Er enghraifft, adleoli staff i lenwi bylchau mewn gwasanaethau ac ystwytho systemau casglu gwybodaeth i leihau'r baich gweinyddol ar Gynorthwywyr Personol a darparwyr gofal.

2.18 Dywedodd 57% o'r bobl sy'n cael Taliadau Uniongyrchol a ymatebodd i'n harolwg na wnaeth eu hawdurdod lleol helpu i gaffael Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer eu darparwr gofal neu gymorth. Fe wnaeth defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr y siaradom ni gyda hwy nodi bod rhai awdurdodau lleol wedi darparu Cyfarpar Diogelu Personol yn rhad ac am ddim, bod rhai wedi rhoi ad-daliad i unigolion a brynodd eu cyfarpar eu hunain, ond bod eraill yn disgwyl i ddefnyddwyr gwasanaethau a/neu eu cynorthwyydd personol brynu Cyfarpar Diogelu Personol eu hunain a thalu'r gost o'u Taliad Uniongyrchol. Ym mis Ebrill 2021, fe wnaethom nodi yn ein hadroddiad bod rhai aelodau o staff iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen wedi profi prinder Cyfarpar Diogelu Personol yn ystod y pandemig[10]. Fe wnaeth rhai pobl sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol brofi anawsterau tebyg os nad mwy o anhawster yn ceisio cael Cyfarpar Diogelu Personol ar lefel unigol. Fe wnaeth rhai defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr y siaradom ni gyda hwy nodi, ar adegau, bod diffyg Cyfarpar Diogelu Personol ac anallu i gaffael hwn yn uniongyrchol wedi arwain at atal gwasanaethau. Hefyd, dywedodd 40% o'r derbynyddion Taliadau Uniongyrchol a ymatebodd i'n harolwg ni nad oeddent wedi cael unrhyw gyswllt gan eu hawdurdod lleol yn benodol i wirio a oeddent yn profi unrhyw broblemau o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud.

## Er bod nifer y bobl sy'n cael Taliadau Uniongyrchol wedi tyfu ychydig dros y blynyddoedd diwethaf, mae awdurdodau lleol yn dal i'w defnyddio'n wahanol ledled Cymru

### Fe wnaeth ychydig o dan ddwy ran o dair o'r awdurdodau lleol gynyddu'r nifer sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol rhwng 2016-17 a 2018-19, ond dim ond 5% o'r oedolion sy'n cael gofal cymdeithasol oedd yn eu derbyn

2.19 Mae'r data diweddaraf ar ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol a gyhoeddwyd yn 2018-19 yn dangos bod 125,415 o oedolion yn cael gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru[11]. O'r rhain, roedd 6,262 (5%) yn cael Taliadau Uniongyrchol. Roedd y gyfran o wasanaethau gofal cymdeithasol a oedd yn cael eu darparu trwy Daliadau Uniongyrchol yn amrywio o 1.6% o gleientiaid yng Ngwynedd i 12.9% yng Ngheredigion. Mae **Atodiad 3** yn darparu rhagor o wybodaeth. Nid yw'r data hwn ar gyfer 2018-19 yn cynnwys Caerffili.

10 Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19, Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2021

11 Mewn ymateb i'r pandemig, fe wnaeth Llywodraeth Cymru atal trefniadau i gasglu ac adrodd ar ddata am berfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn 2019-20 a'r data mwyaf diweddar yw'r data ar gyfer 2018-19.

2.20 Mae ychydig dros draean o'r rhai sy'n cael Taliadau Uniongyrchol (36.1%) yn bobl hŷn (65 oed neu drosodd). Felly y mae hi er bod y grŵp oedran penodol hwn yn rhoi cyfrif am dros 75% o gyfanswm yr oedolion sy'n cael gwasanaethau cymdeithasol. Mae trwch y rhai sy'n cael Taliadau Uniongyrchol, 63.9%, rhwng 18 a 64 oed.

2.21 Rhwng 2016-17 a 2018-19, roedd cynnydd o 5.2% wedi bod yn y niferoedd sy'n cael Taliadau Uniongyrchol gydag 14 o'r 22 o awdurdodau lleol yn gweld twf yn y nifer a oedd yn eu defnyddio – **Arddangosyn 4**. Roedd y cynnydd canrannol mwyaf, o 90.4%, ar Ynys Môn, er bod cyfran yr oedolion a oedd yn cael gwasanaethau gofal cymdeithasol trwy Daliadau Uniongyrchol yn 2018-19 yn dal i fod islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Gwelwyd y cwymp mwyaf yng Nghasnewydd, -28.8%.

### Arddangosyn 4: nifer yr oedolion a oedd yn cael Taliadau Uniongyrchol fesul awdurdod lleol yn 2016-17 a 2018-19 a'r newid yn y canrannau a oedd yn eu defnyddio dros y cyfnod

| Awdurdod lleol | 2016-17 | 2018-19 | % y Newid |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 73 | 139 | 90.4% |
| Gwynedd | 158 | 137 | -13.3% |
| Conwy | 221 | 239 | 8.1% |
| Denbighshire | 106 | 177 | 66.9% |
| Sir y Fflint | 403 | 437 | 8.4% |
| Wrecsam | 196 | 272 | 38.7% |
| Powys | 551 | 504 | -8.5% |
| Ceredigion | 199 | 336 | 68.8% |
| Sir Benfro | 293 | 331 | 12.9% |
| Sir Gâr | 448 | 538 | 20.0% |
| Abertawe | 521 | 517 | -0.8% |
| Castell-nedd Port Talbot | 341 | 433 | 26.9% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 177 | 232 | 31.1% |
| Bro Morgannwg | 378 | 271 | -28.3% |
| Rhondda Cynon Taf | 372 | 306 | -17.7% |
| Merthyr Tudful | 95 | 102 | 7.4% |
| Caerffili | 114 | - | - |
| Blaenau Gwent | 145 | 149 | 2.3% |
| Torfaen | 131 | 130 | -0.8% |
| Sir Fynwy | 154 | 131 | -14.9% |
| Casnewydd | 132 | 94 | -28.8% |
| Caerdydd | 746 | 787 | 5.5% |
| **CYFANSWM** | **5,954** | **6,262** | **5.2%** |

Sylwer: Nid oedd Caerffili'n gallu darparu data ar gyfer 2018-19, oherwydd problemau technegol gyda'u systemau TGCh.

Ffynhonnell: StatsCymru, CARE0118: Oedolion sy'n derbyn gwasanaethau yn ôl awdurdod lleol

2.22 Mae'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol yng Nghymru'n dal i lusgo y tu ôl i Loegr. Dengys data a gyhoeddwyd gan Wasanaethau Digidol y GIG[12], yn 2020-21, fod 26.6% o bobl sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol gan gynnwys 75.3% o ofalwyr yn Lloegr yn cael Taliadau Uniongyrchol. Mae perfformiad yn amrywio o 19.8% o'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau yng ngogledd-ddwyrain Lloegr i 38.3% yn Nwyrain Canolbarth Lloegr.

**Caiff Taliadau Uniongyrchol eu defnyddio'n wahanol ledled Cymru ac mae gan awdurdodau lleol wahanol ddulliau o ran sut y maent yn ymdrin ag arian nas defnyddiwyd**

2.23 Mae'r modd y caiff Taliadau Uniongyrchol eu defnyddio a'r hyn y maent yn talu amdano'n amrywio. Trwy ein trafodaeth gydag aelodau'r Fforwm Taliadau Uniongyrchol canfuom mai ychydig o gyfyngiadau, os o gwbl, sydd gan rai awdurdodau a'u bod yn annog pobl i ddefnyddio'r arian yn hyblyg; talu am lety gwyliau, gweithgareddau hamdden, teithiau dramor a ffonau symudol. O'i gymharu, nid yw awdurdodau lleol eraill ond yn caniatáu i Daliadau Uniongyrchol dalu am help ymarferol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gofal personol unigolyn ac maent yn diffinio'r hyn y gall ac na all Taliadau Uniongyrchol dalu amdano.

2.24 Fe wnaeth defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr Taliadau Uniongyrchol a ymatebodd i'n harolwg ni godi pryderon ynghylch y sefyllfa hon. Nododd un defnyddiwr Taliadau Uniongyrchol fel a ganlyn: 'Byddai o gymorth mawr bod â rhestr ysgrifenedig o'r hyn y gellir defnyddio Taliadau Uniongyrchol ar ei gyfer mewn gwirionedd'. Fe wnaeth ymatebydd arall i'r arolwg grynhoi ei brofiad fel a ganlyn: 'Nid yw'r Cyngor yn ei gwneud yn glir sut i wario'r arian. Rydych yn dal i orfod gofyn cwestiynau'n barhaus ac nid yw'r bobl yn y Cyngor yn gwybod yr atebion. Mae'r system yn araf iawn ac yn cymryd amser maith. Dydyn nhw ddim yn hyblyg'.

2.25 Gall y rhai ag anghenion tebyg o ran cymorth gyfuno'u Taliadau Uniongyrchol hefyd i drefnu gweithgareddau neu wasanaethau ar y cyd[13] trwy gymryd rhywfaint neu'r cyfan o'u Taliad Uniongyrchol ac adio'r arian yma at ei gilydd i brynu gwasanaethau ar y cyd. Mae hyn yn galluogi pobl i rannu cost gweithgareddau, cael y cyfle i dreulio mwy o amser gyda phobl eraill a chael gwerth gwell trwy gynyddu eu gallu i wario. Fodd bynnag, canfuom fod yr arfer o gyfuno cyllidebau'n gyfyngedig iawn. Ac fe ddaeth dulliau blaenorol mewn rhai awdurdodau lleol i ben yn weddol gyflym, er gwaethaf ymdrechion gorau staff y cyfwelom ni â hwy.

12 Gwasanaethau Digidol y GIG, Fframwaith Deilliannau Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Hydref 2021.

13 Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi cyhoeddi canllawiau sy'n nodi sut y gall pobl gyfuno cyllidebau ar gyfer Taliadau Uniongyrchol, Taliadau Uniongyrchol: gwnewch iddynt weithio i chi

2.26 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru[14] yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio'n hyblyg, gan ganiatáu i dderbynyddion Taliadau Uniongyrchol 'fancio' unrhyw daliad nas defnyddiwyd i'w ddefnyddio yn ôl yr angen. Fodd bynnag, mewn realiti mae'r dull a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yn amrywio ac mae rhai awdurdodau lleol yn ceisio adfer arian sydd heb ei wario. Caiff canfyddiadau ein harolwg o dderbynyddion (**Arddangosyn 5**) eu hadleisio yn yr adborth a gawsom gan staff awdurdodau lleol lle canfuom wahaniaethau eang mewn dulliau.

**Arddangosyn 5: Profiadau derbynyddion Taliadau Uniongyrchol o'r hyn sy'n digwydd i daliadau sy'n cronni**

Mae oddeutu un ym mhob wyth o dderbynyddion Taliadau Uniongyrchol yn cronni arian 'nas defnyddiwyd' i'w ddefnyddio i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.




Ffynhonnell: Archwilio Cymru, Arolwg o bobl sy'n cael Taliadau Uniongyrchol, Medi 2021

14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion), 2015. Mae paragraff 159 yn nodi fel a ganlyn: 'Mae'r hyblygrwydd mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol yn golygu bod rhaid i dderbynwyr, neu eu cynrychiolwyr, allu newid cyfanswm y taliad uniongyrchol y maent yn ei ddefnyddio o wythnos i wythnos. Rhaid iddynt allu 'bancio' unrhyw daliad heb ei ddefnyddio i'w ddefnyddio pan fydd anghenion ychwanegol yn codi (gall hyn fod yn arbennig o berthnasol i'r rhai y mae eu hanghenion yn amrywio)'.

2.27 Gyda'i gilydd, mae ein tystiolaeth yn amlygu bod angen eglurhad, cymorth a chanllawiau pellach i sicrhau bod pobl yn gallu cael budd llawn o Daliadau Uniongyrchol a chael gwasanaeth o safon gyson.

## Mae'r rhyngwyneb rhwng defnyddio gofal iechyd parhaus y GIG a gofal cymdeithasol pan geir mynediad at Daliadau Uniongyrchol yn dal i fod yn broblem

2.28 Mae Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026 Llywodraeth Cymru'n cynnwys ymrwymiad i 'Wella'r rhyngwyneb rhwng gofal iechyd parhaus y GIG a Thaliadau Uniongyrchol'. Ym mis Awst 2021, fe gryfhaodd Llywodraeth Cymru'r geiriad yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG 2021 ac yn yr Offeryn Cymorth Penderfynu.

2.29 Yn bwysig, mae'r canllawiau newydd yn atgyfnerthu ethos canolog hawl unigolion i arfer llais a rheolaeth i benderfynu sut a phryd y cânt eu cefnogi a phwy sy'n eu cefnogi i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth cymwys, yn enwedig wrth bontio o Daliadau Uniongyrchol i ofal iechyd parhaus y GIG. Mae hyn yn cynnwys darparu enghreifftiau penodol o gamau gweithredu y gall Byrddau Iechyd Lleol eu cymryd i gefnogi hyn ond gan gydnabod hefyd bod angen i asesiadau osgoi creu rhwystrau a gwthio defnyddwyr gwasanaethau o un gwasanaeth i'r llall. Mewn egwyddor felly dylai fod yn bosibl i rywun gael asesiad seiliedig ar anghenion sy'n cefnogi annibyniaeth, llais a rheolaeth rhywun.

2.30 Fe wnaeth rhai pobl a ymatebodd i'n harolwg sy'n cael Taliadau Uniongyrchol nodi cyndynrwydd i gael mynediad at ofal iechyd parhaus y GIG am bod arnynt ofn colli eu Cynorthwywyr Personol a'r gallu i benderfynu pwy sy'n darparu eu gwasanaethau. Fe wnaethant godi pryderon hefyd y bydd hyblygrwydd Taliadau Uniongyrchol – sy'n eu galluogi i gael mynediad at ystod eang o wasanaethau iechyd a/neu ofal cymdeithasol annhraddodiadol sy'n helpu i wella eu llesiant – yn cael ei golli.

2.31 Fe wnaeth rheolwyr Taliadau Uniongyrchol nodi achosion hefyd lle mae unigolion ag anghenion iechyd sy'n gwaethygu'n gwrthod cael mynediad at ofal iechyd parhaus y GIG am eu bod yn ofni y byddant yn colli hyblygrwydd Taliadau Uniongyrchol a'r gwelliannau o ran llesiant y maent yn eu dwyn. Cododd rheolwyr Taliadau Uniongyrchol a rhai darparwyr bryderon hefyd bod cydweithwyr yn y GIG yn dal i beidio â llwyr dderbyn bod defnyddwyr gwasanaethau'n 'llywio' prosesau penderfynu ac yn cynyddu i'r eithaf y cyfle i hybu annibyniaeth, llais a rheolaeth.

# Mae Taliadau Uniongyrchol yn helpu pobl i fyw'n annibynnol a gwella'u llesiant, ond mae'n anodd asesu gwerth am arian ar y cyfan oherwydd cyfyngiadau o ran data a gwerthuso

03

3.1 Yn y ran olaf hon o'r adroddiad, rydym yn ystyried effaith Taliadau Uniongyrchol. Rydym yn crynhoi gwariant ar Daliadau Uniongyrchol yng Nghymru ac yn amlygu'r amrywiadau rhwng awdurdodau lleol. Yn olaf, rydym yn ystyried a yw'r dulliau cyfredol o fonitro a gwerthuso Taliadau Uniongyrchol i sicrhau eu bod yn darparu gwerth am arian yn effeithiol.

**Awdurdodau lleol sy'n cyflawni deilliannau cadarnhaol ar gyfer pobl sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol**

- Maent yn dangos bod llesiant pobl yn cael ei gynnal neu'n gwella o ganlyniad i Daliadau Uniongyrchol
- Mae ganddynt system gynhwysfawr ar gyfer monitro a gwerthuso pob agwedd ar Daliadau Uniongyrchol
- Maent yn cynnwys ac yn gwerthfawrogi mewnbwn gan yr holl randdeiliaid/partneriaid wrth werthuso effaith gwasanaethau
- Maent yn cymharu ac yn meincnodi perfformiad unigol a chyfunol ag eraill ac yn defnyddio canfyddiadau gwerthuso i drefnu cynlluniau cyfredol a dulliau yn y dyfodol
- Maent yn gwybod beth sy'n gweithio a pha un a yw dull yr awdurdod yn cyflawni dyheadau'r Ddeddf

## Ystyrir bod Taliadau Uniongyrchol yn gwneud cyfraniad pwysig at lesiant ac annibyniaeth derbynyddion

3.2 Ar y cyfan, darparodd y bobl a ymatebodd i'n harolwg ni sy'n cael Taliadau Uniongyrchol adborth cadarnhaol ar effaith Taliadau Uniongyrchol. Dywedodd 91% o'r ymatebwyr i'n harolwg fod Taliadau Uniongyrchol wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hannibyniaeth a'u llesiant. Hefyd, dywedodd 85% mai Taliadau Uniongyrchol oedd yr opsiwn cywir iddynt hwy'n bendant. Roedd y mwyafrif o'r darparwyr gofal a chymorth a ymatebodd i'n harolwg ni (87%) yn cytuno hefyd bod Taliadau Uniongyrchol yn helpu i gefnogi annibyniaeth pobl a chynnal eu llesiant.

3.3 Fe wnaeth rhai pobl a ymatebodd i'n harolwg nodi rôl hollbwysig Taliadau Uniongyrchol o ran eu helpu i aros yn annibynnol. Nododd un derbynnydd Taliadau Uniongyrchol fel a ganlyn: 'Rwy'n cael cymorth i wneud popeth y mae arnaf eisiau ei wneud a'i gyflawni' tra bo un arall wedi nodi: 'Mae wedi caniatáu i mi wneud llawer o bethau newydd a mynd allan a mwynhau a chwrdd â phobl newydd'. Meddai un arall: 'Mae (Taliadau Uniongyrchol) yn rhoi dewisiadau ac annibyniaeth sydd wedi bod yn gadarnhaol iawn' ac un arall: 'mae'r Taliadau Uniongyrchol wedi fy ngalluogi i barhau i fyw yn fy nghartref fy hun'. Yn olaf, meddai un derbynnydd: 'Rwy'n hoff iawn o Daliadau Uniongyrchol a sut y maent yn gadael i mi fyw mor annibynnol ag y gallaf'. Ac meddai rhywun arall a ymatebodd i'n harolwg: 'Mae Taliadau Uniongyrchol yn caniatáu i mi fod â rheolaeth ac yn bwysicach cael y gofal y mae ei angen arnaf i allu cael y gorau o fywyd'. Adleisiwyd y sylwadau hyn gan lawer o bobl eraill a ymatebodd i'n harolwg.

## Mae'n anodd asesu gwerth am arian Taliadau Uniongyrchol ar y cyfan am bod systemau i reoli a gwerthuso perfformiad yn annigonol

3.4 Er gwaethaf y gwerth uchel a roddir ar Daliadau Uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, dim ond ystod fach o ddangosyddion yr adroddir yn gyhoeddus arnynt ar lefel genedlaethol i farnu perfformiad. Mae'r rhain yn syml yn cynnwys y niferoedd sy'n cael Taliadau Uniongyrchol yn ôl grŵp anghenion (anableddau corfforol, anableddau dysgu, iechyd meddwl a phobl hŷn) a'r swm a gaiff ei wario ar Daliadau Uniongyrchol fesul awdurdod lleol. Cafodd y mesurau perfformiad eu diwygio yn dilyn rhoi'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith yn 2014, a dim ond am dair blynedd ariannol y mae gwybodaeth wedi cael ei choladu: 2016-17, 2017-18 a 2018-19. Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i atal trefniadau casglu data mewn ymateb i'r pandemig yn 2020, nid oes unrhyw ddata ar wasanaethau ac eithrio gwariant wedi bod yn cael ei gasglu a'i gyhoeddi mewn adroddiadau ar lefel genedlaethol.

**Mae gwariant ar Daliadau Uniongyrchol wedi mwy na dyblu yn y degawd diwethaf, ond fe ostyngodd ychydig bach yn 2020-21. Mae'r swm cyfartalog a delir am bob derbynnydd yn amrywio'n eang**

3.5 Mae'r swm o arian a gaiff ei wario ar Daliadau Uniongyrchol yn tyfu ac mewn termau real, gan ystyried chwyddiant, mae wedi cynyddu o £36.6 miliwn yn 2010-11 i £79.5 miliwn yn 2020-21 – **Arddangosyn 6**.

**Arddangosyn 6: cyfanswm gwariant ar Daliadau Uniongyrchol ar gyfer oedolion fesul awdurdod lleol mewn termau real rhwng 2010-11 a 2020-21**

Fe wnaeth gwariant awdurdodau lleol ar Daliadau Uniongyrchol gynyddu 117% yn y cyfnod ond fe ostyngodd ychydig bach yn 2020-21.




Ffynhonnell: StatsCymru, LGFS0015: Dadansoddiad goddrychol o wariant refeniw gwasanaethau cymdeithasol yn ôl awdurdod. Dadansoddiad gan Archwilio Cymru

3.6 Er bod pob awdurdod lleol yn gyfrifol am fformat cynlluniau gofal a chymorth, mae'n ofynnol iddynt fod yn gyson ledled y wlad gan ddefnyddio meini prawf cymhwystra cenedlaethol[15]. Dengys ein dadansoddiad ni yn **Arddangosyn 7** fod awdurdodau lleol yn talu symiau cyfartalog sy'n amrywio'n eang. Ac eithrio Caerffili, roedd y Taliad Uniongyrchol cyfartalog ledled Cymru yn 2018-19 mewn termau real yn £12,344. Roedd hyn yn amrywio o £6,033 y pen yng Ngheredigion i £21,836, 3.6 gwaith yn fwy, yn Wrecsam.

15 Caiff y meini prawf cymhwystra eu nodi yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015 a dogfen Llywodraeth Cymru Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion), 2015. Mae paragraff 39 o'r Cod Ymarfer yn nodi, er bod gan bobl hawl i ofal a chymorth gan awdurdod lleol lle nad yw'r gofal a'r cymorth hwnnw ar gael iddynt fel arfer, 'y bydd patrwm darparu'r gwasanaeth yn amrywio o awdurdod i awdurdod'.

**Arddangosyn 7: Taliad Uniongyrchol cyfartalog am bob derbynnydd fesul awdurdod lleol yn 2018-19 mewn termau real**

Mae'r swm cyfartalog y mae pobl yn ei gael mewn Taliadau Uniongyrchol yn amrywio'n eang ledled Cymru.




Sylwer: Nid oedd Caerffili'n gallu darparu data ar nifer y derbynyddion ar gyfer 2018-19, oherwydd problemau technegol gyda'u systemau TGCh.

Ffynhonnell: StatsCymru, LGFS0015: Dadansoddiad goddrychol o wariant refeniw gwasanaethau cymdeithasol yn ôl awdurdod a CARE0118: Oedolion sy'n derbyn gwasanaethau yn ôl awdurdod lleol ac oedran. Dadansoddiad gan Archwilio Cymru

3.7 Gan gymryd yr wybodaeth hon gyda'r canfyddiadau a nodir yn **Rhan 2** o'r adroddiad hwn, rydym yn dod i'r casgliad bod dewisiadau polisi a phenderfyniadau awdurdodau lleol yn achosi i bobl ag anghenion tebyg gael gwasanaeth o safon wahanol iawn. O ystyried bod dulliau'n amrywio'n sylweddol, mae angen i Lywodraeth Cymru osod safonau clir i sicrhau cysondeb ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau.

**Mae systemau ar gyfer rheoli a gwerthuso perfformiad yn annigonol**

3.8 Mae awdurdodau lleol yn canolbwyntio'u trefniadau rheoli perfformiad a gwerthuso gan mwyaf ar y niferoedd sy'n cael gwasanaethau a'r swm o arian a gaiff ei wario ac nid yn ddigon ar effaith, llesiant a manteision ehangach buddsoddi. Canfuom mai dim ond un rhan o bump o'r rheolwyr Taliadau Uniongyrchol sy'n credu bod gan eu hawdurdod lleol fesurau cadarn a'u bod yn gallu barnu ansawdd, cost a deilliannau Taliadau Uniongyrchol ar gyfer unigolion ac ar gyfer yr awdurdod lleol.

3.9 Trwy ein hymgysylltiad â swyddogion arweiniol Taliadau Uniongyrchol ledled Cymru, canfuom fod gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol rai mesurau a'u bod yn gwerthuso rhai agweddau ar Daliadau Uniongyrchol, ond gan gydnabod nad yw'r drefn yn gynhwysfawr a bod bylchau. Er enghraifft:

- a dim ond traean sy'n cofnodi gwybodaeth sy'n helpu i nodi'r hyn sy'n gweithio a'r hyn y mae angen iddo newid;
- b dim ond chwarter sy'n cofnodi ac yn defnyddio gwybodaeth mewn amser real;
- c dim ond llai nag un rhan o bump sy'n monitro sut y mae Taliadau Uniongyrchol yn cyfrannu at gyflawni Blaenoriaethau Corfforaethol – er enghraifft, nodau llesiant, amcanion gwella a blaenoriaethau gwasanaethau; a
- ch dim ond llai nag un rhan o bump sy'n cofnodi profiadau cadarnhaol a negyddol gan bobl sy'n cael Taliadau Uniongyrchol ac yn gwybod sut beth yw eu cael.

3.10 Mae'r gwendidau hyn yn golygu nad yw'n bosibl mynd ati'n llawn i werthuso a deall perfformiad ac effeithiolrwydd awdurdodau lleol unigol, nac effeithlonrwydd ac effaith Taliadau Uniongyrchol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd barnu pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn perfformio ac a yw Taliadau Uniongyrchol yn cynrychioli gwerth am arian yn eu rhinwedd eu hunain neu mewn cymhariaeth â mathau eraill o ofal cymdeithasol.

# Atodiadau

1 Ymagwedd a dulliau archwilio

2 Pennu cymhwystra ar gyfer gofal a chymorth cymdeithasol

3 Oedolion yn cael gwasanaethau gofal cymdeithasol a drefnwyd gan yr awdurdod lleol yn 2018-19

4 Cyfraddau tâl fesul awr ar gyfer Cynorthwywyr Personol yn ôl awdurdod lleol

# 1 Ymagwedd a dulliau archwilio

## Ymagwedd

Fe wnaethom ganolbwyntio ar y modd y mae awdurdodau lleol yn rheoli ac yn darparu Taliadau Uniongyrchol. Mae'r gwaith yn dilyn ymlaen o'n hadroddiad ym mis Medi 2019 ar Y Drws Blaen i Ofal Cymdeithasol i Oedolion, a ganolbwyntiodd ar effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a blaenoriaethu gwasanaethau ataliol i helpu i leihau'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol.

Fe wnaeth ein hadolygiad asesu sut y mae Taliadau Uniongyrchol yn helpu pobl i fyw'n annibynnol ac yn eu galluogi i fod â mwy o lais, dewis a rheolaeth. Fe wnaethom ystyried sut y mae Taliadau Uniongyrchol yn helpu i gynnal eu llesiant a pha un a ydynt yn gwella ansawdd bywyd pobl. Fe wnaethom fwrw golwg ar y modd y mae awdurdodau lleol yn rheoli Taliadau Uniongyrchol ac yn annog pobl i'w defnyddio a sut y maent yn barnu pa un a yw'r gwasanaethau hyn yn rhoi gwerth am arian.

Fe sefydlom ni grŵp cyfeirio astudiaeth ac fe gynhaliom ni gyfarfodydd prosiect gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofalwyr Cymru, y Comisiynydd Pobl Hŷn, Age Cymru, Llywodraeth Cymru, a nifer fach o ddefnyddwyr gwasanaethau. Fe helpodd y grŵp cyfeirio i drefnu ffocws yr adolygiad hwn ac fe ddarparodd her yn ystod ein cam adolygu tystiolaeth.

Fe wnaethom reoli'r modd y cyflawnwyd yr adolygiad i ystyried yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru o ran ymdrin â'r pandemig. Fe wnaethom sicrhau nad oedd cwmpas a chynnwys ein gwaith maes yn tynnu oddi wrth gyfrifoldebau awdurdodau lleol tuag at ddefnyddwyr gwasanaethau ac fe wnaethom ystwytho ein hymagwedd mewn trafodaeth gydag awdurdodau lleol unigol wrth gytuno ar waith maes a'i gyflawni.

## Dulliau

Fe gwblhaom ni ein gwaith rhwng mis Medi 2020 a mis Chwefror 2022 ac fe ddefnyddiom ni ystod o ddulliau i oleuo ein canfyddiadau, ein casgliadau a'n hargymhellion ar y cyfan:

- **adolygu dogfennau** – fe wnaethom adolygu dogfennaeth, canllawiau a chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru; dogfennaeth polisi a phapurau cabinetau a phwyllgorau awdurdodau lleol; ystod o ddeunyddiau ar ymagweddau ar gyfer rheoli Taliadau Uniongyrchol yn Lloegr; ac adroddiadau a gwybodaeth a gyhoeddwyd gan gyrff ymchwil gan gynnwys Sefydliad Joseph Rowntree, Cronfa'r Brenin a Think Local Act Personal.
- **grwpiau ffocws** – fe gynhaliom ni'r canlynol:
    - tri grŵp ffocws ar-lein gydag aelodau Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru Gyfan a oedd yn cynnwys swyddogion o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â chyfrifoldeb rheoli ar gyfer Taliadau Uniongyrchol. Ym mhob un o'r grwpiau ffocws, fe wnaeth y rhai a oedd yn bresennol gwblhau arolwg ac fe gynhaliom ni drafodaethau wedi'u hwyluso.
    - grwpiau ffocws Gofalwyr Cymru gyda defnyddwyr gwasanaethau Taliadau Uniongyrchol a'u gofalwyr.
- **cyfweliadau gydag awdurdodau lleol** – fe gyfwelom ni â staff o gynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir y Fflint, Gwynedd, Casnewydd, Powys, Torfaen a Wrecsam sydd â chyfrifoldeb am daliadau uniongyrchol.
- **cyfweliadau gyda chyrff cenedlaethol** – ADSS Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Anabledd Cymru, Cymdeithas Gofal Cartref y DU, Fforwm Gofal Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru, Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain a Think Local Act Personal.

- **arolygon** – fe gynhaliom ni ddau arolwg:
  - arolwg dros y ffôn wedi'i gomisiynu o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n cael Taliadau Uniongyrchol. Cafodd cyfanswm o 1,028 o bobl o gronfa ddata o 4,650 o gysylltiadau dilys eu cynnwys yn yr arolwg, gyda 71% yn cael eu cwblhau dros y ffôn a'r gweddill yn cyflwyno ffurflenni arolwg ar-lein. O'r ffigwr hwn, mae 5% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn ofalwyr. Darparwyd yr holl gysylltiadau gan awdurdodau lleol gan drosglwyddo data'n ddiogel. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 4 Awst a 24 Medi 2021, gyda 5% o'r ymatebion yn cael eu cwblhau yn Gymraeg. O ystyried bod ein harolwg yn cwmpasu defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n cael Taliadau Uniongyrchol, rydym yn adrodd ar wybodaeth ar dair lefel. Lle'r ydym yn dweud derbynyddion Taliadau Uniongyrchol, rydym yn golygu defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr; a lle'r ydym yn cyfeirio'n benodol at naill ai 'defnyddwyr gwasanaethau' neu 'ofalwyr' mae hynny'n golygu bod canfyddiadau'r arolwg yn berthnasol yn benodol i'r grwpiau gwahanol hyn o bobl; ac
  - arolwg o unigolion ac asiantaethau y telir iddynt trwy Daliadau Uniongyrchol i ddarparu gofal a chymorth ar gyfer oedolion mewn angen. Cwblhawyd yr arolwg agored ar-lein rhwng 11 Mehefin 2021 ac 18 Awst 2021. Cawsom gyfanswm o 166 o ymatebion, a daeth y rhain o ardaloedd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol, gyda 3% o'r ymatebion yn cael eu cwblhau yn Gymraeg.
- **dadansoddi data** – fe wnaethom ddadansoddi data a gyhoeddwyd gan StatsCymru ar wariant ar Daliadau Uniongyrchol, nifer yr oedolion sy'n cael gwasanaethau a'u hanghenion. Fe wnaethom hefyd ddadansoddi data a gyhoeddwyd gan Wasanaethau Digidol y GIG yn Lloegr.

# 2 Pennu cymhwystra ar gyfer gofal a chymorth cymdeithasol



Y gwasanaeth hwn, a adwaenir yn eang fel y **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy**, yw'r drws blaen i ofal cymdeithasol i oedolion a'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y rhan fwyaf o unigolion sy'n chwilio am gymorth.



Yn y pwynt cyswllt cyntaf, bydd unigolion yn cael cynnig gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'u llesiant.

O'r fan yma, bydd awdurdodau lleol yn aml yn cyfeirio unigolion at wasanaethau ataliol neu gymunedol. Os na ellir diwallu anghenion rhywun yn y ffordd honno, bydd yn cael ei gyfeirio at weithiwr cymdeithasol proffesiynol i drafod ei anghenion mewn mwy o fanylder.



Mae'r asesiad o anghenion a gyflawnir gyda gweithiwr cymdeithasol, y cyfeirir yn aml ato fel 'Sgwrs yr Hyn sy'n Bwysig', yn sgwrs wedi'i thargedu i gasglu rhagor o wybodaeth am gryfderau ac anghenion rhywun, i ganfod y datrysiadau gorau ar ei gyfer.



Os na ellir diwallu anghenion rhywun heb gymorth yr awdurdod lleol, caiff cynllun gofal a chymorth ei gydgynhyrchu i nodi sut y bydd yr anghenion hynny'n cael eu diwallu trwy ddarparu gwasanaethau. Cyfeirir yn aml at hyn fel bod ag 'anghenion cymwys'.

Gall y gwasanaethau hyn gael eu trefnu'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol neu, fel arall, cael eu hariannu trwy Daliadau Uniongyrchol – swm ariannol y gellir ei ddefnyddio i brynu a threfnu gofal a chymorth unigolyn ei hun.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# 3 Oedolion yn cael gwasanaethau gofal cymdeithasol a drefnwyd gan yr awdurdod lleol yn 2018-19

**Arddangosyn 8: oedolion yn cael gwasanaethau gofal cymdeithasol a drefnwyd gan yr awdurdod lleol yn 2018-19**

| Awdurdod lleol | Cyfanswm yr oedolion sy'n cael gwasanaethau cymdeithasol | Nifer yr oedolion yn cael Taliadau Uniongyrchol | Taliadau Uniongyrchol fel % yr oedolion sy'n cael gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 3,826 | 149 | 3.9% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7,059 | 232 | 3.3% |
| Caerffili | Dim data wedi'i gyflwyno oherwydd problemau technegol gyda systemau TGCh | | |
| Caerdydd | 15,331 | 787 | 5.1% |
| Sir Gâr | 7,658 | 538 | 7.0% |
| Ceredigion | 2,595 | 336 | 12.9% |
| Conwy | 7,060 | 239 | 3.4% |
| Sir Ddinbych | 2,872 | 177 | 6.2% |
| Sir y Fflint | 8,041 | 437 | 5.4% |
| Gwynedd | 8,774 | 137 | 1.6% |
| Ynys Môn | 3,382 | 139 | 4.1% |
| Merthyr Tudful | 2,696 | 102 | 3.8% |
| Sir Fynwy | 4,449 | 131 | 2.9% |
| Castell-nedd Port Talbot | 3,371 | 433 | 12.8% |
| Casnewydd | 4,462 | 94 | 2.1% |
| Sir Benfro | 4,398 | 331 | 7.5% |
| Powys | 5,827 | 504 | 8.6% |

| Awdurdod lleol | Cyfanswm yr oedolion sy'n cael gwasanaethau cymdeithasol | Nifer yr oedolion yn cael Taliadau Uniongyrchol | Taliadau Uniongyrchol fel % yr oedolion sy'n cael gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | 7,094 | 306 | 4.3% |
| Abertawe | 8,932 | 517 | 5.8% |
| Torfaen | 3,241 | 130 | 4.0% |
| Bro Morgannwg | 5,533 | 271 | 4.9% |
| Wrecsam | 8,814 | 272 | 3.1% |
| **Cymru** | **125,415** | **6,262** | **5.0%** |

Ffynhonnell: StatsCymru, CARE0118: Oedolion sy'n derbyn gwasanaethau yn ôl awdurdod lleol ac oedran

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i atal trefniadau casglu data mewn ymateb i'r pandemig yn 2020, nid adroddwyd yn genedlaethol ar unrhyw ddata ar wasanaethau heblaw am wariant ers 2018-19.

# 4 Cyfraddau tâl fesul awr ar gyfer Cynorthwywyr Personol yn ôl awdurdod lleol

Mae’r cyfraddau yn awdurdodau lleol Bro Morgannwg, Torfaen a Blaenau Gwent yn amrywio i ystyried gweithio ar benwythnosau, gyda’r nos ac yn ystod oriau anghymdeithasol.

**Arddangosyn 9: cyfraddau tâl fesul awr ar gyfer Cynorthwywyr Personol yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod lleol | Cyfraddau Cynorthwywyr Personol (fesul awr) |
|---|---|
| Merthyr | £12.94 |
| Wrecsam | £12.67 |
| Abertawe | £12.66 |
| Sir y Fflint | £12.63 |
| Gwynedd | £12.62 |
| Sir Benfro | £12.40 |
| Sir Ddinbych | £12.33 |
| Sir Gâr | £12.20 |
| Bro Morgannwg | £11.24 - £12.18 |
| Rhondda Cynon Taf | £12.15 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £12.00 |
| Torfaen | £8.72 - £11.85 |
| Conwy | £11.75 |
| Ynys Môn | £11.65 |
| Powys | £11.41 |
| Caerdydd | £11.36 |
| Sir Fynwy | £11.04 |
| Ceredigion | £11.00 |
| Castell-nedd Port Talbot | £10.50 |
| Blaenau Gwent | £8.72 - £10.00 |
| Casnewydd | £9.50 |
| Caerffili | £9.47 |

Ffynhonnell: Cyngor Abertawe, adroddiad y Tîm Rheoli Corfforaethol, Ionawr 2021

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Ebost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 28 Medi 2022 |
| **Pwnc:** | Ymateb y Gwasanaethau Cymdeithasol i Adroddiad Archwilio Cymru |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ac Arwel Owen, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Emma Edwards, Rheolwr Busnes |
| **Natur a Rheswm am Adrodd**<br><br>Rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r argymhellion a godwyd yn Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn deillio o'i astudiaeth genedlaethol o Daliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion (dyddiedig Ebrill 2022). | |

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ym mis Ebrill ar ei ganfyddiadau mewn perthynas â darpariaeth Taliadau Uniongyrchol awdurdodau lleol.

1.2. Mae gwybodaeth bellach i'w gweld yn: [https://archwilio.cymru/cy/blog/audit-wales/2022/6/15/taliadau-uniongyrchol-yng-nghymru](https://archwilio.cymru/cy/blog/audit-wales/2022/6/15/taliadau-uniongyrchol-yng-nghymru)

1.3. O ganlyniad i'r adroddiad a gyhoeddwyd, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi paratoi ymateb ar ffurf Cynllun Gweithredu ac mae copi ohono ynghlwm i'r adroddiad hwn er hwylustod.

1.4. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi adolygu prosesau a pholisïau Taliadau Uniongyrchol ac mae'n buddsoddi amser ac ymdrech i hyrwyddo ac ymgysylltu er mwyn gwneud mwy i annog cyfranogiad trwy ddefnyddio dull sy'n cael ei arwain gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor yn cydnabod ymateb y Gwasanaethau Cymdeithasol i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n deillio o'i astudiaeth genedlaethol o Daliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion.

2.2. Bod y Pwyllgor yn derbyn sicrwydd o ymateb y Gwasanaeth, ar ffurf y Cynllun Gweithredu mewn ymateb i'r astudiaeth genedlaethol ar Daliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion (dyddiedig Ebrill 2022).

# CYNLLUN GWEITHREDU – TALIADAU UNIONGYRCHOL AR GYFER GOFAL CYMDEITHASOL OEDOLION

Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r argymhellion a godwyd yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn deillio o'i astudiaeth genedlaethol o Daliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion (dyddiedig Ebrill 2022)

| Cyf | Argymhelliad Archwilio Cymru | Gweithredu Arfaethedig gan Reolwyr | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Adolygu gwybodaeth gyhoeddus gan drafod gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i sicrhau ei bod yn eglur, yn gryno ac yn egluro'n llawn yr hyn y mae angen iddynt ei wybod am Daliadau Uniongyrchol | Adolygiad o'r polisi, canllawiau a'r wefan yn mynd rhagddo. | Tîm Taliadau Uniongyrchol (Gareth Thomas a Llŷr Michael) | Diweddarwyd y wefan Awst 2022 Polisi diwygiedig yn barod i'w gymeradwyo gan y Gwasanaeth ym mis Tachwedd 2022 |
| A2 | Gwneud gwaith hyrwyddo ychwanegol i annog pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol | Codi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr cymdeithasol trwy sesiynau hyfforddi a chynhadledd staff.<br>Ceisio adborth gan unigolion sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol a'r rhai a wrthodwyd/stopiwyd. | Tîm Taliadau Uniongyrchol (Gareth Thomas a Llŷr Michael) | Medi 2023 |
| A3 | Sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu hystyried ar y pwynt cyswllt cyntaf i roi cyngor annibynnol ynghylch Taliadau Uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. | Opsiynau eiriolaeth ar gael i bob defnyddiwr y Gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol a Gofalwyr, gan hyrwyddo dull sy'n cael ei arwain gan y Defnyddiwr Gwasanaeth.<br><br>Mae Defnyddwyr Gwasanaeth a gofalwyr yn cael cyfle i ddewis darparwr addas sy'n adlewyrchu eu hanghenion. | Tîm Taliadau Uniongyrchol (Gareth Thomas a Llŷr Michael | Cwblhawyd |

| Cyf | Argymhelliad Archwilio Cymru | Gweithredu Arfaethedig gan Reolwyr | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A4 | Sicrhau bod gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol ar gael yn y drws blaen i ofal cymdeithasol a'u bod yn cael eu cynnwys yn y drafodaeth gychwynnol am yr opsiynau o ran gofal sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr | Ar ôl penderfynu ar anghenion gofal, cynhelir sgwrs am opsiynau. Uno Teulu Môn a'r gwasanaeth Un Pwynt Mynediad (SPOA) er mwyn sicrhau fod cyngor cyson yn cael ei ddarparu ynghylch opsiynau gofal.<br>Datblygwyd rhaglen waith. | Tîm Taliadau Uniongyrchol (Gareth Thomas a Llŷr Michael) | Ionawr 2023 |
| A5 | Darparu hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol ar Daliadau Uniongyrchol i sicrhau eu bod yn deall eu potensial yn llawn ac yn teimlo'n hyderus wrth eu hyrwyddo i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. | Tîm Taliadau Uniongyrchol i gydlynu hyfforddiant i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.<br>Fel uchod - datblygwyd rhaglen waith | Tîm Taliadau Uniongyrchol (Gareth Thomas a Llŷr Michael) | Ionawr 2023 |
| A6 | Cydweithio i ddatblygu Cynllun Recriwtio a Chadw ar y cyd ar gyfer Cynorthwywyr Personol. | Mae GACGC (Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol) yn cynnal cronfa ddata o Gynorthwywyr Personol a chrëwyd rôl newydd, Swyddog Adolygu a Datblygu Taliadau Uniongyrchol, ym mis Mai 2022 i gynorthwyo i lenwi swyddi Cynorthwywyr Personol gwag. | Tîm Taliadau Uniongyrchol (Gareth Thomas a Llŷr Michael) | Parhaus |
| A7 | Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru<br>Egluro disgwyliadau polisi mewn iaith glir, hygyrch ac yn nodi:<br>- yr hyn y gall Taliadau Uniongyrchol dalu amdano;<br>- sut y mae prosesau ymgeisio ac asesu, graddfeydd amser a phrosesau adolygu'n gweithio;<br>- sut y bydd monitro taliadau uniongyrchol a'r gwaith papur sy'n ofynnol i wirio taliadau'n gweithio;<br>- sut y bydd arian nas defnyddiwyd yn cael ei drin a pha un a ellir ei fancio; a<br>- sut i weinyddu a rheoli cyllidebau cyfun.<br>Dylai gwybodaeth gyhoeddus gael ei hadolygu'n rheolaidd (o leiaf bob dwy flynedd) i sicrhau ei bod yn gweithio'n effeithiol ac yn dal i fod yn berthnasol. | Mae'r polisi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. | I'w gadarnhau ar ôl cwblhau'r adolygiad | Amherthnasol |

| Cyf | Argymhelliad Archwilio Cymru | Gweithredu Arfaethedig gan Reolwyr | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A8 | Llywodraeth Cymru:<br>Sicrhau bod gan bobl sy'n cael gofal iechyd parhaus y GIG a Thaliadau Uniongyrchol fwy o lais, dewis a rheolaeth pan wneir penderfyniadau | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| A9 | Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru:<br>Cydweithio i sefydlu system i werthuso Taliadau Uniongyrchol yn llawn a honno'n system sy'n cofnodi pob elfen o'r broses - gwybodaeth, hyrwyddo, asesu, rheoli a gwerthuso effaith ar lesiant ac annibyniaeth. | Mae Swyddogion yn mynychu grŵp rhanbarthol a Chymru gyfan ac yn cyfrannu at ddatblygiadau ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau. | Tîm Taliadau Uniongyrchol (Gareth Thomas a Llyr Michael) | Bob chwarter |
| A10 | Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn flynyddol ar gyfer pob elfen o Daliadau Uniongyrchol i'w gwneud yn bosibl cael golwg system gyfan ar y modd y cânt eu darparu ac o'u heffaith i gefnogi gwelliant. | Disgwyl cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch gwybodaeth perfformiad i'w gyhoeddi er mwyn bod yn gyson ag Awdurdodau Lleol eraill.<br><br>Crëwyd cerdyn sgorio Perfformiad Lleol. Bydd yn cael ei addasu ar ôl derbyn cyngor LIC, os bydd angen.<br><br>Yn y cyfamser, ystyrir mesurau perfformiad ystadegol lleol, e.e. adolygiadau o gynlluniau gofal a gwblhawyd yn flynyddol. | Tîm Taliadau Uniongyrchol (Gareth Thomas a Llyr Michael)<br><br><br><br><br>Ceri Haf Jones<br>Olwena Davey<br>Emma Edwards | I'w gadarnhau<br><br><br><br><br><br>Parhaus |

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ynys Môn

## Diweddariad Chwarterol: 30 Mehefin 2022

## Crynodeb Archwilio Blynyddol

| Disgrifiad | Amserlen | Statws |
|---|---|---|
| **Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio sydd wedi'i gwblhau ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022.** | Rhagfyr 2022 | Cyhoeddi adroddiad drafft ym mis Tachwedd 2022. |

## Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliad o gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2021-22** | Rhoi barn ar 'wirionedd a thegwch' y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. | Archwiliad Terfynol:<br>• Mehefin i Dachwedd 2022 | Derbyniwyd y Datganiadau o Gyfrifon ar 20 Mehefin 2022 ac mae gwaith maes archwilio ar y gweill. |

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Ardystio ffurflenni Grant:**<br><br>**Cyfraniadau Pensiwn Athrawon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22** | Ardystio bod tystysgrif diwedd y flwyddyn:<br>• Wedi'i ddatgan yn deg<br>• Yn unol â'r telerau a'r amodau perthnasol | Dyddiad cau'r cyngor oedd y diwrnod gwaith diwethaf ym mis Mai 2022.<br>Dyddiad cau ardystio 30 Tachwedd 2022. | Derbyniwyd y ffurflen ar 5 Awst 2022. |
| **Ardystio ffurflenni Grant: Trethi Annomestig 2021-22** | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw sy'n dangos y canlynol am y ffurflen:<br>• Nid yw wedi'i ddatgan yn deg<br>• Nid yw yn unol â'r telerau a'r amodau perthnasol | Dyddiad cau y Cyngor ar 30 Mehefin 2022.<br>Dyddiad cau ardystio 30 Tachwedd 2022. | Derbyniwyd y ffurflen ar 21 Mehefin 2022. |

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Ardystio Ffurflenni Grant: Cymhorthdal Budd-dal Tai 2019-20** | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw sy'n dangos y canlynol am y ffurflen:<br>• Nid yw wedi'i ddatgan yn deg<br>• Nid yw yn unol â'r telerau a'r amodau perthnasol | Dyddiad cau y Cyngor ar 30 Ebrill 2020.<br>Dyddiad cau ardystio 31 Ionawr 2021 | Heb ei ardystio eto. Mae'r archwiliad yn parhau i fod heb ei gwblhau gan fod llawer o ymholiadau'r archwilydd yn dal heb eu hateb. Ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth ers Ionawr 2022. |
| **Ardystio Ffurflenni Grant: Cymhorthdal Budd-dal Tai 2020-21** | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw sy'n dangos y canlynol am y ffurflen:<br>• Nid yw wedi'i ddatgan yn deg<br>• Nid yw yn unol â'r telerau a'r amodau perthnasol | Dyddiad cau y Cyngor ar 30 Ebrill 2021.<br>Dyddiad cau ardystio 28 Ionawr 2022. | Heb ei ardystio eto. Mae gwaith archwilio wedi dechrau ac ymholiadau cychwynnol wedi eu nodi wrth y Cyngor. |
| **Ardystio Ffurflenni Grant: Cymhorthdal Budd-dal Tai 2021-22** | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw sy'n dangos y canlynol am y ffurflen:<br>• Nid yw wedi'i ddatgan yn deg<br>• Nid yw yn unol â'r telerau a'r amodau perthnasol | Dyddiad cau y Cyngor ar 30 Ebrill 2022.<br>Dyddiad cau ardystio 31 Ionawr 2023 | Derbyniwyd y ffurfen ar 29 Ebrill 2022. |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| 2021-22 Gwaith archwilio perfformiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD)** | Byddwn ni'n ceisio integreiddio'r gwaith o gyflwyno ein harchwiliadau LlCD o gamau i gyflawni amcanion llesiant gyda'n gwaith archwilio arall. Byddwn yn trafod hyn gyda'r cyngor wrth i ni bennu cwmpas a chyflawni'r prosiectau archwilio sydd wedi'u rhestru yn y cynllun hwn. | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Archwiliad adrodd ar welliannau** | Archwilio cyflawni dyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad. | Hydref 2021 | Cyhoeddwyd tystysgrif Hydref 2021. |

| 2021-22 Gwaith archwilio perfformiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd ac Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gall fod angen gwaith archwilio pellach mewn blynyddoedd i ddod, o ran risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.<br>Yng Nghyngor Sir Ynys Môn the project mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio ar:<br>• Sefyllfa ariannol<br>• Trefniadau hunanasesu<br>• Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)<br>• Cynlluniau i leihau carbon | Ebrill 2021 i Medi 2022 | Parhaus |

| **2021-22 Gwaith archwilio perfformiad** | **Cwmpas** | **Amserlen** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| **Llamu Ymlaen – Archwilio'r blociau adeiladu ar gyfer dyfodol cynaliadwy** | Wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal darpariaeth gwasanaethau, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol. | Hydref 2021–Mawrth 2022.<br>Pwyslais ar y gweithlu a rheoli asedau. | Adroddiad drafft |
| **Adolygiad o Wella trwy Ddysgu: Budd-dal Tai** | Nodi cyfleoedd i ddysgu a gwella'r broses Ardystio Hawliadau Budd-dal Tai. | Ionawr i Mawrth 2022 | Cyflwynwyd llythyr i'r Cyngor ym mis Mawrth 2022. |

| 2022-23 Gwaith archwilio perfformiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd ac Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gall fod angen rhagor o waith archwilio mewn blynyddoedd i ddod o ran risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.<br>Mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio'n benodol ar:<br>• Sefyllfa ariannol<br>• Rheoli rhaglenni cyfalaf<br>• Defnyddio gwybodaeth am berfformiad – gan ganolbwyntio ar adborth a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth<br>• Pennu amcanion llesiant | Ebrill 2022 i Gorffennaf 2023 | Parhaus |

| 2022-23 Gwaith archwilio perfformiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad Thematig – Gofal heb ei drefnu** | Adolygiad traws-sector sy'n canolbwyntio ar lif y cleifion allan o'r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol er mwyn cefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty, yn ogystal ag atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddarparu atebion tymor canolig i dymor hirach. | Gorffennaf – Rhagfyr 2022 | Cwmpasu |
| **Adolygiad thematig – Digidol** | Bydd y prosiect hwn yn cael ei gwmpasu dros yr haf a rhagor o fanylion am bwyslais penodol yr adolygiad i'w gadarnhau. | I'w gadarnhau. | Cwmpasu |
| **Adolygu Rheoli Datblygu a Gorfodi Cynllunio** | Bydd yr adolygiad yn ceisio sefydlu: A oes gan y Cyngor wasanaeth rheoli datblygu a gorfodi cynllunio effeithiol a gwydn? | Gorffennaf – Rhagfyr 2022 | Cwmpasu |

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol wedi'u cynllunio/ar y gweill

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
|---|---|---|---|---|
| **Tlodi** | Deall sut mae awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn darparu eu gwasanaethau i leihau tlodi cymaint â phosibl. | Hydref 2021 – Hydref 2022 | Dod i Gasgliadau | Oes – cyfweliad gyda'r swyddog enwebedig yn y Cyngor |
| **Mentrau Cymdeithasol** | Adolygu sut mae awdurdodau lleol yn cefnogi ac yn defnyddio mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau. | Hydref 2021 – Hydref 2022 | Dod i gasgliadau | Oes – cyfweliad gyda'r swyddog enwebedig yn y Cyngor |
| **Meithrin Cydnerthedd Cymdeithasol a Hunanddibyniaeth** | Adolygiad o sut y gall awdurdodau lleol feithrin mwy o gydnerthedd mewn cymunedau. | Hydref 2021 – Hydref 2022 | Dod i gasgliadau | Oes – cyfweliad gyda'r swyddog enwebedig yn y Cyngor |

## Estyn

| **Gwaith arfaethedig Estyn 2022-23** | **Cwmpas** | **Amserlen** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| **Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol** | Bu Estyn yn archwilio gwasanaethau addysg llywodraeth leol Ynys Môn ac Abertawe yn ystod tymor yr haf. Bydd yr adroddiadau yn cael eu cyhoeddi ym mis Awst a dechrau Medi. Cafodd adroddiad Torfaen ei gyhoeddi ar 18 Mai. Bydd Estyn yn adolygu'r canllawiau arolygu er mwyn adlewyrchu mwy o bwyslais ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac annhegwch ac i wneud mân newidiadau mewn ymateb i adborth o arolygiadau yn 2021-22. | Adolygiad o'r canllawiau arolygu – Gorffennaf. Cyhoeddi ar y wefan - 1 Medi. | Amh. |
| **Adolygiad thematig - Diwygio'r Cwricwlwm** | Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gofyn i Estyn adolygu gwasanaethau gwella ysgolion y de-orllewin. | Casglu tystiolaeth ym Mehefin/Gorffennaf – cyhoeddi ym mis Medi. | Amh. |

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Gwaith arfaethedig AGC 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Rhaglen 2022-23** | Bydd AGC yn parhau i gynnal ei rhaglen gylchol beilot o wiriadau sicrwydd, gwiriadau gwella ac arolygiadau gwerthuso perfformiad. | Ebrill 2022 – Mawrth 2023 | Ar y gweill |
| **Datblygiad** | Bydd AGC yn parhau i ddatblygu ei dull o arolygu ac adolygu awdurdodau lleol.<br><br>Bydd AGC yn ymgynghori ymhellach ynghylch ei dull gweithredu. | Medi 2022 – Rhagfyr 2022 | Ar y gweill |
| **Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021-22** | Yn dilyn cyhoeddi adroddiad 2020-21, mae cynllunio ar y gweill ar gyfer dyddiad cyhoeddi'r adroddiad nesaf i gael ei gadarnhau. | Dyddiad cyhoeddi i'w gadarnhau | Casglu data |
| **Cyfarfod blynyddol gyda Chyfarwyddwyr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol** | Bydd AGC yn cyfarfod â'r holl Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol | Rhagfyr 2022 ac Ionawr 2023 | Cynllunio |

| Gwaith arfaethedig AGC 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad cenedlaethol o Gynllunio Gofal i blant a phobl ifanc sy'n destun cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus** | Pwrpas yr adolygiad<br><br>I ddarparu craffu allanol, sicrwydd a hybu gwelliant o ran ansawdd yr arferion mewn perthynas â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun cyn-achos yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus.<br><br>Ystyried i ba raddau y mae arferion wedi symud ymlaen ers cyhoeddi 'Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus' a chyhoeddi adroddiad 2021 y gweithgor Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus gan gynnwys canllawiau arferion gorau. | Medi 2022 | Cynllunio |
| **Trefniadau Arolygu diogelu plant ar y cyd** | Dull traws-arolygiaeth. Ardal i'w benderfynu. Byddwn yn cwblhau pedwar arolygiad aml-asiantaeth arall ar y cyd.<br><br>Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol ar ddiwedd 2023. | Hydref 2022 - Gwanwyn 2023 | Cynllunio |
| **Gwirio Sicrwydd Cafcass** | Bydd AGC yn parhau i ddatblygu ei dull o arolygu ac adolygu Cafcass Cymru. Byddwn yn gwerthuso ein dull gweithredu a byddwn yn ymgynghori ar ein dull diwygiedig ddiwedd 2022.<br><br>Gwiriad sicrwydd wedi'i gwblhau. Yn drafftio llythyr. I'w gyhoeddi ym mis Awst 2022 | Medi – Rhagfyr 2022<br><br>Awst 2022 | Adolygu<br><br>Drafftio |

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd ers Ionawr 2022

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Mynd i'r afael â'r Ôl-groniad Gofal Wedi'i Gynllunio yng Nghymru – ac offeryn data amserau aros | Mai 2022 |
| Y Cwricwlwm newydd i Gymru | Mai 2022 |
| Gofal heb ei drefnu – offeryn data a sylwebaeth | Ebrill 2022 |
| Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion | Ebrill 2022 |
| Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol | Chwefror 2022 |
| Cydweithio Rhwng y Gwasanaethau Brys (gan gynnwys offeryn data) | Ionawr 2022 |

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill (gwaith ar y gweill/wedi'i gynllunio)[1]

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Diweddariad ar gyfer data cyllid y GIG | Gorffennaf 2022 |
| System Gwybodaeth Gofal Yn y Gymuned Cymru<br><br>(Diweddariad ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus) | Gorffennaf 2022 |
| Ymateb ac adferiad COVID/Rheoli grantiau Llywodraeth Cymru – cymorth trydydd sector<br><br>(Briff ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus) | Gorffennaf 2022 |
| Newid hinsawdd – adolygiad gwaelodlin[2] | Gorffennaf/Awst 2022 |
| Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru[3] | Gorffennaf 2022 |

[1] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a chapasiti cyrff archwilio i ymgysylltu â ni. Mae hyn yn cynnwys cynnal rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn i ni allu ymateb i ddatblygiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru a meysydd o ddiddordeb posib ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

[2] Adroddiad trosolwg cychwynnol ac yna papur tystiolaeth mwy manwl.

[3] Crynodeb yn seiliedig ar waith archwilio lleol.

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
| --- | --- |
| Llywodraeth Cymru'n gosod amcanion llesiant | Gorffennaf 2022 |
| Trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol | Gorffennaf 2022 |
| Gweithlu Llywodraeth Cymru | Awst 2022 |
| Gwasanaethau orthopedig | Awst/Medi 2022 |
| Asesiad effaith ar gydraddoldeb | Awst/Medi 2022 |
| Llywodraethu ansawdd yn y GIG | Medi 2022 |
| Rheoli risg o lifogydd | Medi 2022 |
| Seibergadernid | Hydref 2022 |
| Cynhwysiant digidol/Seilwaith band eang | Hydref 2022 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol (adroddiad cryno) | Hydref 2022 |
| Sylwebaeth am gyfrifon Llywodraeth Cymru | I'w gadarnhau - mae cynlluniau ar gyfer y gwaith hwn wedi bod yn cael eu hadolygu |
| Ymateb ac adfer COVID-19 – cymorth busnes | I'w gadarnhau |

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Tai fforddiadwy | I’w gadarnhau |

## Adnoddau Cyfnewid Arfer Da

| Teitl | Dolen i’r adnodd |
|---|---|
| Darpariaeth Taliadau Uniongyrchol – Gweminar yn trafod ein hadroddiad ar Ddarpariaeth Taliadau Uniongyrchol a sut y gallant fod yn rhan allweddol wrth weithredu egwyddorion Deddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Recordiad o weminar Darpariaeth Taliadau Uniongyrchol |
| Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd yng Nghymru<br>Gweminar yn trafod y canfyddiadau sy’n ymddangos o'n hadolygiad sylfaenol o drefniadau cyrff cyhoeddus i ymateb i dargedau lleihau carbon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030. | Recordiad o weminar Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd yng Nghymru [dolen i'w hychwanegu] |
| Safbwyntiau Covid: Cyfres o sgyrsiau wedi'u recordio yn dysgu sut mae sefydliadau wedi addasu i'r cyfnod estynedig o ansicrwydd yn dilyn argyfwng cychwynnol Covid. | Arferion Da \| Archwilio Cymru |

## Blogiau Archwilio Cymru diweddar

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|
| Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru | 15 Mehefin 2022 |

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|
| Gofal heb ei drefnu yng Nghymru – system o dan bwysau gwirioneddol | 21 Ebrill 2022 |
| Cystadleuaeth Sgiliau Cymru | 18 Chwefror 2022 |
| Seibergadernid – blwyddyn ymlaen | 9 Chwefror 2022 |
| Helpu i adrodd y stori drwy gyfrwng rhifau<br>(Offeryn cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol) | 3 Chwefror 2022 |
| Galw am wybodaeth gliriach ynglŷn â gwariant newid hinsawdd | 2 Chwefror 2022 |
| Y gweithredoedd tu ôl i'r geiriau<br>(Datblygu cydnerthedd cymdeithasol a hunanddibyniaeth mewn dinasyddion a chymunedau) | 14 Ionawr 2022 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 28 Medi 2022 |
| **Pwnc** | Adolygiad o'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2022-23 f4 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Darparu Blaenraglen Waith ar gyfer 2022-23 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | |

## Cyflwyniad

1. Mae Blaenraglen Waith (f4) ynghlwm yn Atodiad A, ynghyd â rhaglen hyfforddiant yn Atodiad B.

2. Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gan ystyried cyfrifoldebau newydd y Pwyllgor o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a'r newidiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor yn sgil y ddeddf newydd.

## Argymhelliad

3. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- yn ystyried a yw'r Blaenraglen Waith a gynigir ar gyfer 2022-23 yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.

## Atodiad A – Blaenraglen Waith 2022-23 (f4)

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2022 | 26 Gorffennaf 2022 | 28 Medi 2022 | 20 Hydref 2022 | 08 Rhagfyr 2022 | 07 Chwefror 2023 | 18 Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2021-22 (3.4.8.3.1) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2) | | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2)<br><br>Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2)<br><br>Hunan Asesiad y Pwyllgor (3.4.8.3.2) |
| Llywodraethiant (3.4.8.4) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft (3.4.8.4.1/2/3) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol (3.4.8.4.1/2/3) | Cod Llywodraethiant Lleol (3.4.8.4.1/3)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ac Adfywio 2021-22 (3.4.8.4.4) | | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5) | | | Adroddiad Blynyddol 2021-22 (3.4.8.5.1/2/3/4) | | Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2023-24) (3.4.8.5.3/4) | |
| Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7) | | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn ysgolion (3.4.8.7.1) | | Adroddiad Yswiriant Blynyddol (3.4.8.7.1) |

Tudalen 157

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2022 | 26 Gorffennaf 2022 | 28 Medi 2022 | 20 Hydref 2022 | 08 Rhagfyr 2022 | 07 Chwefror 2023 | 18 Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2021-22 (3.4.8.7.1)<br><br>Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2021-22 (3.4.8.7.1)<br><br>Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2021-22 (3.4.8.7.1) | | Adroddiad Blynyddol Caffael 2021-22 (3.4.8.7.1) | | |
| Rheoli Risg (3.4.8.8) | | | Cofrestr Risg Corfforaethol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | | | Adolygiad Blynyddol o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)<br><br>Cofrestr Risg Corfforaethol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | |
| Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9) | | | Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-22 (3.4.8.9.4)<br><br>Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu | | Adolygiad Blynyddol o Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd (3.4.8.9.2/3) | | |

| **Swyddogaeth Graidd** | **29 Mehefin 2022** | **26 Gorffennaf 2022** | **28 Medi 2022** | **20 Hydref 2022** | **08 Rhagfyr 2022** | **07 Chwefror 2023** | **18 Ebrill 2023** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Chwiban Blynyddol (3.4.8.9.1) | | | | |
| Archwilio Mewnol (3.4.8.10) | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2021-22 (3.4.8.10.6/7/8/9/ 12/14/15) (3.4.8.6)<br><br>Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2022-23 (3.4.8.10.1/2/5/6) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/ Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) | | Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.3/13)<br><br>Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) |
| Archwilio Allanol (3.4.8.11) | | | | Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2) (3.4.8.12.3) | Crynodeb Archwilio Blynyddol 2022 (3.4.8.11.3) | | Cynllun Archwilio Blynyddol 2022-23 (3.4.8.11.1/3) |
| Adrodd Ariannol (3.4.8.12) | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2021-22 (3.4.8.12.1/2) | | Datganiad Cyfrifon Terfynol 2021-22 (3.4.8.12.1/2) | | | |
| Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13) | | | | | | | |
| Delio â Chwynion (3.4.8.14) | | | Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chywthu Chwiban 2021-22 (3.4.8.14.1/2) | | | | |

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2022 | 26 Gorffennaf 2022 | 28 Medi 2022 | 20 Hydref 2022 | 08 Rhagfyr 2022 | 07 Chwefror 2023 | 18 Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021-22 (3.4.8.14.1/2)** | | | | |
| Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15) | | Adolygiad o'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Drafft (3.4.8.15.1/2/3) | | | | | |
| Asesiad o berfformiad gan Banel (3.4.8.16)[1] | | | | | | | |



[1] O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

## Atodiad B – Rhaglen Hyfforddiant

### Hyfforddiant benodol i'r pwyllgor

| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|
| Sefydlu | Rhithiol | Jo Hendy, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 23 Mehefin 2022 | 11 / 12 (92%) |
| Datganiadau Ariannol | Rhithiol | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | 13 Gorffennaf 2022 | 9 / 12 (75%) |
| Cwynion | Rhithiol | Matthew Harris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 9 Medi 2022 | 9 / 12 (75%) |
| Rheoli Trysorlys | Rhithiol | Richard Bason, Uwch Gyfarwyddwr, Link Treasury Services | Cyn 21 Medi 2022 | 7 / 12 (58%) |



### Hyfforddiant gorfodol

| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Wedi ei Gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | 4 / 12 (33%) |
| Ymwybyddiaeth Seiber | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | 0 / 12 (0%) |
| Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | 0 / 12 (0%) |
| Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | 0 / 12 (0%) |
| Atal/Prevent (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | 0 / 12 (0%) |
| Caethwasiaeth Fodern (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | 0 / 12 (0%) |

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***Adroddiad Blynyddol Diogelwch Seiber 2022***
***Annual Cyber Security Report 2022***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

Paragraff(au) — Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972
Paragraph(s) — Schedule 12A Local Government Act 1972

14: Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information).
18: Information relating to any action taken or to be taken in connection with the prevention, investigation or prosecution of crime.

Y PRAWF – THE TEST

| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- |
|---|---|
| Mae gwybodaeth yn ymwneud ag effeithlonrwydd trefniadau seibr ddiogelwch y Cyngor yn ymwneud yn anuniongyrchol â data personol a chyfrinachol y cyhoedd. Mae budd y cyhoedd mewn mynediad i'r wybodaeth gan y gellid ystyried y cyhoedd yn randdeiliaid yn niogelwch seibr y Cyngor.<br><br>Information relating to the effectiveness of the Council's cyber security arrangements indirectly relates to the security of the public's personal and confidential data. There is a public interest in access to the information as the public may be considered to be stakeholders in the Council's cyber security. | Byddai rhoi gwybodaeth am drefniadau diogelwch seibr y Cyngor yn y parth cyhoeddus yn debygol o gynyddu'r risg i rwydwaith y Cyngor ac unplygrwydd ei ddata. Gallai'r wybodaeth hon gael ei manteisio arni gan droseddwyr ac eraill a allai geisio tanseilio mesurau diogelwch y Cyngor. Mae'r tebygolrwydd o niwed i faterion busnes y Cyngor o ganlyniad i ddatgelu'r wybodaeth yn uchel a fyddai o ganlyniad yn achosi niwed i fuddion masnachol ac ariannol y Cyngor. Mae budd y cyhoedd o sicrhau diogelwch y data a gedwir yn gryf.<br><br>Placing information about the Council's cyber security arrangements into the public domain would be likely to increase the risk to the security of the Council's network and the integrity of its data. The information could be exploited by criminals and other parties who seek to undermine the Council's security measures. The likelihood of harm to the business affairs of the Council, arising from disclosure is high resulting in prejudice to the commercial and financial interests of the Council. The public interest in ensuring the security of data holdings is strong. |

Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw’r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu’r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]

Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***(Teitl yr Adroddiad: /Title of Report: )***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraff(au) Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) Schedule 12A Local Government Act 1972<br><br>14 & 16</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF – THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae'r mater yn ymwneud â materion busnes y Cyngor.<br><br>The matter concerns the business affairs of the Council.</td><td>Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae'r mater yn cyfeirio at materion busnes y Cyngor a all niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, ariannol ac yn gyfreithlon.<br><br>The matter refers to the business affairs of the Council which could prejudice the interests of the Council commercially, financially and legally.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]</td></tr>
</table>

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank